



Datganiad Cyfrifon 2022/23

Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd



STRONGER
FAIRER
GREENER



Cynnwys

Adroddiad Naratif gan Swyddog Cyllid Statudol y Cyngor	3
Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiadau Ariannol	18
Cyfrifoldebau'r Cyngor	19
Cyfrifoldebau a Thystysgrif y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau	20
Adroddiad Archwilio	22
Polisiâu, Beirniadaethau Critigol a Rhagdybiaethau Cyfrifyddu	26
Datganiadau Ariannol Craidd	41
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	42
Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn	45
Mantolen	42
Llif Arian Parod	48
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	
1 Addasiadau rhwng Sail Gyfrifyddu a Sail Gyllido dan y Rheoliadau	48
2 Dadansoddiad Gwariant a Chyllido	50
3 Praeseptau ac Ardollau	53
4 Cyfranogi mewn Cydbwyllgorau	54
5 Y Dreth Gyngor	54
6 Ardrethi Annomestig	56
7 Incwm a Gwariant Asiantaethau	56
8 Taliadau Cydnabyddiaeth	57
9 Cronfeydd Cyfun a Threfniadau Tebyg dan Ddeddf Iechyd 1999	63
10 Partion Cysylltiedig	64
11 Costau Archwilio Allanol	67
12 Prydlesu	67
13 Pensiynau	69
14 Asedau Anghyfredol	76
15 Offerynnau Ariannol	82
16 Asedau a Gedwir i'w Gwerthu	90
17 Dyledwyr	90
18 Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	91
19 Credydwyr	91
20 Buddiannau mewn Cwmnïau eraill a Sefydliadau eraill	91
21 Darpariaethau	95
22 Eifen Bensiw	96
23 Rhwymedigaethau Gohiriedig	96
24 Incwm Grant	96
25 Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	98
26 Cronfeydd Wrth Gefn Andefnyddiadwy	104
27 Asedau a Rhwymedigaethau Wrth Gefn	107
28 Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian Parod	109
29 Addasiad Cyfnod Blaenorol	109
30 Eitemau Eithriadol	109
31 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd	109
32 Dyddiad Awdurdodi'r Cyfrifon i'w Cyhoeddi	109
Cyfrif Refeniw Tai	110
Cyfrifon Grŵp	119
Cronfeydd Ymddiriedolaeth	124
Awdurdod Harbwr Caerdydd	128
Rhestr o Dermau Cyfrifyddu	147



Adroddiad Naratif gan Swyddog Cyllid Statudol y Cyngor



CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

STRONGER
FAIRER
GREENER



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Datganiad Cyfrifon 2022/23 Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (y Cyngor). Mae'n disgrifio ein perfformiad ariannol am y flwyddyn a aeth heibio ac yn cael ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23.

Ein Dinas

Caerdydd yw prifddinas Cymru, ac mae'n cwmpasu ardal o 140 cilometr sgwâr. Mae ganddi boblogaeth o 360,000, sy'n byw mewn tua 163,000 o gartrefi. Mae'n brifddinas economaidd, ddiwylliannol a gwleidyddol. Dinas o gymunedau cryf a diogel, ysgolion a phrifysgolion rhagorol, a phobl greadigol, ddawnus a chroesawgar.

Fel pob dinas, mae gan Gaerdydd ei heriau, ac mae anghydraddoldeb iechyd, cymdeithasol ac economaidd yn bodoli yn y ddinas. Yn wir, pe bai 'Arc Ddeheuol' Caerdydd yn cael ei ystyried yn un Awdurdod Lleol, hwn fyddai'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae llwyddiant economaidd wedi creu pwysau megis tagfeydd, llygredd aer a galw am dai fforddiadwy.

Cryfach, Tecach, Gwyrddach

'Cryfach Tecach Gwyrddach' yw'r themâu polisi allweddol a fydd yn sail i waith y Cyngor dros y blynyddoedd nesaf.

- Dinas gryfach, gydag economi sy'n creu ac yn cynnal swyddi sy'n talu'n dda, gyda system addysg sy'n helpu ein pobl ifanc i gyrraedd eu potensial, gyda thai da, fforddiadwy mewn cymunedau diogel, hyderus a grymus, i gyd yn cael eu cefnogi gan wasanaethau cyhoeddus effeithlon sydd â digon o adnoddau.
- Dinas decach, lle gall pawb fwynhau'r cyfleoedd a ddaw o fyw yng Nghaerdydd, beth bynnag fo'u cefndiroedd, lle mae'r rhai sy'n dioddef effeithiau tldi'n cael eu diogelu a'u cefnogi, lle mae diwrnod teg o waith yn cael diwrnod teg o gyflog, a lle mae pob dinesydd yn cael ei werthfawrogi ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi hefyd.
- Dinas wyrddach, a fydd, drwy ein rhaglen Caerdydd Un Blaned, yn arwain ar ymateb i'r argyfwng hinsawdd, yn ddinas sy'n dathlu ac yn meithrin bioamrywiaeth, gyda mannau agored o ansawdd uchel o fewn cyrraedd hawdd i ymlacio a chwarae, yn ddinas gysylltiedig â dewisiadau trafniadaeth gynaliadwy cyfleus, hygyrch a diogel.

Mae'r Cyngor yn esbonio sut mae'n bwriadu ymateb i'r heriau uchod trwy gychwyn ar raglen weithredu, gydag ymrwymadau a thargedau i symud ymlaen yn wyneb pwysau cyllidebol sylweddol.


Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Cynllun Lles yn trosi'r blaenoriaethau uchod yn amcanion sefydliadol realistig, gan amlinellu'r camau i'w cymryd a sut y caiff perfformiad ei fesur a'i fapio.

Yng nghyd-destun ehangach cyflawni'r amcanion hyn, mae'r hinsawdd ariannol yn parhau i fod yn heriol ac yn y tymor canolig, bydd faint o gyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau 'anstatudol' yn gwneud eu darpariaeth barhaus yn heriol iawn. Bydd hyn yn gefndir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus wrth i'r Cyngor ymateb i realiti byd geowleidyddol ac ôl-bandemig ansicr i gyflawni ei agenda ar gyfer y ddinas.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen hon **Cryfach Tecach Gwyrddach** (caerdydd.gov.uk)

Ein Democratiaeth

Mae gan y Cyngor 79 o Gynghorwyr etholedig sy'n cynrychioli pobl Caerdydd ac yn pennu'r fframwaith polisi a chyllidebol cyffredinol.



Mae'r cyfansoddiad yn nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae'r Cyngor yn dethol Arglwydd Faer bob blwyddyn i gyflawni rôl ddinesig, hyrwyddo'r ddinas a chadeirio cyfarfodydd y Cyngor. Mae'r Cyngor yn penodi Arweinydd y Cyngor sy'n penodi Aelodau Cabinet, gyda phob un yn gyfrifol am bortffolio penodol o wasanaethau.

Rôl y Cabinet yw:

- rhoi arweinyddiaeth
- bod yn gyfrifol am y rhan fwyaf o benderfyniadau mawr
- cynnig y fframwaith cyllidebol a'r gyllideb ddilynol.

Mae Pwyllgorau Craffu yn cefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor trwy:

- fonitro penderfyniadau'r Cabinet
- galluogi pob Cyngorydd, dinesydd a rhanddeiliad i roi mwy o fewnbwn i faterion sy'n ymwneud â'r Cyngor
- llunio adroddiadau ac argymhellion i gynnal datblygiad polisiâu a phenderfyniadau
- bod â'r gallu i adolygu penderfyniad sydd wedi'i wneud ond heb ei weithredu eto.

Mae pwyllgorau rheoliadol ac eraill yn cynorthwyo â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi rhoi cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dros adolygu Datganiadau Ariannol y Cyngor. Mae hyn cyn i'r Cyngor llawn ystyried barn archwilio allanol a chymeradwyo'r datganiadau ariannol. Arweinir Tîm Rheoli'r Cyngor gan y Prif Weithredwr, Paul Orders ac mae'r tîm yn cynnwys

Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Cyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Cynorthwyol, gan gynnwys y swyddogion statudol (Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151). Maent yn gyfrifol am:

- roi cyngor diduedd ar bolisi a gweithredu penderfyniadau'r Cabinet a'r Cyngor; a
- darparu gwasanaethau a pherfformiad.

Ein Gwasanaethau a sut rydym yn gweithio

Mae'r Cyngor yn darparu dros 700 o wasanaethau, gan gefnogi cymunedau lleol a gwella bywydau pobl leol. Nodir rhai o'r rhain isod.

Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd	Datblygu Economaidd
<ul style="list-style-type: none"> • Profedigaeth a Chofrestru • Seilwaith priffyrdd a glanhau strydoedd • Gorfodi Trafnidiaeth a Pharcio Sifil • Cynllunio 	<ul style="list-style-type: none"> • Busnes a Buddsoddi • Adfywio a phrosiectau mawr • Landlord Corfforaethol • Diwylliant, Lleoliadau a Thwristiaeth • Hamdden, Parciau a Chwaraeon • Casglu, Ailgyrchu, Trin, Gwaredu ac Addysg Gwastraff
Pobl a Chymunedau - Tai a Chymunedau	Pobl a Chymunedau - Gwasanaethau Cymdeithasol
<ul style="list-style-type: none"> • Hybiau Cymunedol a Llyfrgelloedd • Gwasanaethau sy'n dod i gysylltiad â chwsmeriaid e.e. gwasanaethau ataliol ac 'i mewn i waith' • Byw'n annibynnol a larwm cymunedol • Dysgu oedolion a'r gymuned • Perfformiad, Partneriaethau a'r Cyfrif Refeniw Tai – rheoli anheddau'r cyngor 	<ul style="list-style-type: none"> • Anableddau dysgu ac iechyd meddwl oedolion • Troseddau ieuencid • Gwasanaethau diogelu plant, cymorth cynnar, maethu a phreswyl • Cymorth i bobl hŷn a'r rhai ag anableddau corfforol
Addysg a Dysgu Gydol Oes	Adnoddau
<ul style="list-style-type: none"> • Ysgolion Meithrin, Cynradd, Uwchradd ac Arbennig • Addysg ieuencid a chymunedol a dysgu cymunedol • Cyflawniad a Chynhwysiant • Arlwyo Ysgolion • Cludiant Ysgolion 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyllid • Adnoddau Dynol • Comisiynu a Chaffael • TGCh, Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol • Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog
Rheolaeth Gorfforaethol	Adnoddau – Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol
<ul style="list-style-type: none"> • Praeseptau, ardollau a chyfraniadau • Mentrau corfforaethol 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaethau democrataidd, etholiadol a chyfreithiol • Gwasanaethau craffu, aelodau a dwyieithog

Ein Perfformiad

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol o gynnydd yn erbyn cyflawni ei Amcanion Lles. Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor adolygu perfformiad ac adrodd ar ei berfformiad. Mae'r gofynion perfformiad hyn yn cael eu rhyddhau drwy broses hunanasesu a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Teitl hunanasesiad diwedd blwyddyn y Cyngor yw'r Adroddiad Lles Blynyddol, yn unol â gofynion statudol.

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol a'r Hunanasesiad Canol Blwyddyn yn tynnu ar nifer o ffynonellau gwybodaeth i lunio barn ar berfformiad y Cyngor, gan gynnwys perfformiad yn erbyn Ymrwymadau Cynllun Corfforaethol, monitro cyllideb, rheoli risg yn ogystal â dyfarniadau rheoleiddwyr allanol. Ystyrir yr adroddiad yn ffurfiol gan Uwch Dîm Rheoli a Chabinet y Cyngor yn ogystal â llywodraethiant gwleidyddol ehangach y Cyngor, sy'n cynnwys y Pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Ystyriwyd yr Adroddiad Lles Blynyddol ar gyfer 2022/23 gan y Cabinet a'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2023.


Adroddiad Lles (caerdydd.gov.uk)

Risgiau a Rhagolygon Ariannol

Byddwn yn paratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) bob blwyddyn er mwyn datgelu canfyddiadau ein hadolygiadau o lywodraethu'r Cyngor. Mae'r DLIB yn cynnwys Cynllun Gweithredu ar gyfer materion llywodraethu sylweddol a nodwyd fel rhan o'r adolygiad, i'w datblygu gan yr Uwch Reolwyr. Mae wedi'i gymeradwyo ochr yn ochr â'r Datganiadau Ariannol a chaiff ei ddefnyddio ar gyfer adrodd ar lywodraethu a'i wella. Dogfen ar wahân yw hon sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn y cyfeiriad canlynol:

Link to be inserted following Council consideration

Wrth lunio'r DLIB, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r fframwaith 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol', a ddatblygwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol. Mae'n cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd y mae'r Cyngor yn cael ei gyfeirio a'i reoli ganddynt, ynghyd â'r gweithgareddau a ddefnyddia i ymgysylltu â'r gymuned a gweithio gyda hi. Adeiledir y DLIB trwy ddatgeliadau craidd gan Uwch Reolwyr, a barn annibynnol y Rheolwr Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.



Mae Cod Rheolaeth Ariannol (RhA) CIPFA wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor ers 2021/22, gyda'r nod o wella gwydnwch ariannol sefydliadau trwy wreiddio safonau rheolaeth ariannol uwch. Yn anochel, parhaodd effaith ffactorau geowleidyddol ac economaidd ehangach i brofi'r gwytnwch ariannol hwnnw yn 2022/23 a'r tymor canolig. Bydd rhagor o fanylion am ddull y Cyngor o gydymffurfio â'r Cod RhA yn cael eu cynnwys yn y DLIB sy'n nodi cynnydd yn ystod y flwyddyn yn ogystal â chymau gweithredu a gynllunnir ar gyfer y dyfodol gydag amserlenni cysylltiedig.

Mae trefn rheoli risg y Cyngor yn cefnogi adnabod, asesu, adrodd a rheoli risgiau mewn gweithgarwch corfforaethol, cyfarwyddiaethau, rhaglenni a phrosiectau.

Mae'n cynnwys asesiadau risg chwarterol er mwyn cefnogi nodi ac uwchgyfeirio risgiau mwyaf hanfodol y Cyngor mewn da bryd i'r Uwch Dîm Reoli ar gyfer perchnogaeth, lliniaru, adolygu ac adrodd. Hyd at fis Mawrth 2023, mae naw risg gorfforaethol ar statws risg weddilliol 'coch' h.y. mae canlyniad pwysig neu arwyddocaol yn debygol heb ragor o liniaru.

Perfformiad Ailgylchu
Methu â chyflawni perfformiad ailgylchu i gyrraedd targedau perfformiad ailgylchu statudol o fewn y gyfarwydddeb gwastraff. Ar 26 Tachwedd, dangosodd y Targed Adfer terfynol a ddilyswyd ar gyfer Awdurdodau Lleol (TAALI) 2019-20 fod Caerdydd wedi cyflawni perfformiad ailgylchu o 58.14% o gymharu â'r targed o 64%.
Sicrhau Mynediad
Methu â bodloni ein gofynion statudol i ddarparu addysg i bob dysgwr o oedran ysgol statudol, yn enwedig y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Iechyd a Lles Emosiynol. Risgiau diogelu cysylltiedig gan nad yw plant agored i niwed yn yr ysgol, risgiau ariannol oherwydd costau cynyddol lleoliadau a risg i enw da'r Cyngor, wedi'u tystiolaethu gan nifer cynyddol o gwynion.
Ansawdd Aer
Nid yw ansawdd aer yng Nghaerdydd yn bodloni'r gofynion statudol a bennir gan ddeddfwriaeth ac mae'n parhau i gael effaith andwyol ar iechyd trigolion ac ymwelwyr â Chaerdydd.
Diogelwch yn y Ddinas
Digwyddiad mawr sy'n ymwneud â diogelwch mewn 'lleoedd prysur' o ganlyniad i derfysgaeth ryngwladol neu ddomestig.
Newid yn yr Hinsawdd – Bioamrywiaeth, Diogelwch Ynni, Tywydd Eithafol a Llifogydd
Nid yw Caerdydd yn gallu rheoli effeithiau newid hinsawdd a diogelwch ynni oherwydd diffyg gwaith diogelu at y dyfodol ar seilwaith allweddol (cymdeithasol a sifil) a datblygu busnes.
Erydu Arfordirol
Methiant amddiffynfeydd presennol yn arwain at lifogydd eang (mae'r amddiffynfeydd presennol yn ad hoc ac mewn cyflwr gwael iawn)

Cynnydd yn y Galw (Gwasanaethau Plant)

Methu â rheoli ac ymateb i alw cynyddol yn effeithiol yn arwain at gynydd yn nifer y plant sydd angen gwasanaethau a'r pwysau ariannol a ddaw yn sgil hyn.

Diwygio Lles

Nid yw'r Cyngor yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau statudol gyda'r gofynion cynyddol a'r cyllidebau llai a osodwyd arno gan y Diwygiad Lles gan gynnwys: Credyd Cynhwysol, gostyngiad pellach yn y Cap Budd-daliadau a chyfyngiadau maint ar gyfer tenantiaid cymdeithasol.


Seiberddiogelwch

Mae 10 maes risg posibl wedi'u nodi ym model risgiau seiber y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys:-

Pensaernïaeth a chyfluniad; Rheoli bregusrwydd; Hunaniaeth a rheoli mynediad diogelwch; Diogelwch data

<https://www.ncsc.gov.uk/collection/10-steps>

Y Bwlch yn y Gyllideb (neu Fwlch Cyllidebol) yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwahaniaeth rhwng yr arian y mae'r Cyngor yn disgwyl ei gael, a'r gost amcangyfrifedig o barhau i ddarparu gwasanaethau ar y lefel bresennol. Yn syml, mae'r bwlch yn deillio o gyllid yn methu â chadw i fyny â'r galw, chwyddiant a phwysau ariannol eraill. Er gwaethaf cynnydd o 9% yn yr hyn a dderbyniodd y Cyngor gan Setliad Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru yn 2022/23, rhagwelwyd bwlch yn y gyllideb o £113 miliwn rhwng 2024/25 a 2027/28 fel rhan o'r cynllun ariannol tymor canolig a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2023. Mae hyn yn parhau i gael ei ddiweddarau wrth i wybodaeth ddod i'r amlwg.



Mae hyn oherwydd ffactorau megis costau gweithwyr, chwyddiant prisiau, lwfans am bwysau sy'n dod i'r amlwg, talu am brosiectau cyfalaf a galw ymysg y boblogaeth mewn meysydd fel Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant sy'n Derby Gofal.

Ystyriwyd ystod o opsiynau er mwyn mynd i'r afael â bylchau yn y gyllideb yn 2022/23 a blynyddoedd i ddod, gan gynnwys parhau i adolygu a herio holl gyllidebau'r gyfarwyddiaeth ar gyfer arbedion effeithlonrwydd fel staffio, costau safleoedd, gwariant allanol, cynhyrchu incwm a gwneud y mwyaf o

grantiau; arbedion newid gwasanaethau sy'n cael effaith ar lefelau gwasanaeth presennol; gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer trawsnewid digidol a gweithio ar draws cyfarwyddiaethau ac mewn partneriaeth â sefydliadau eraill; ac ystyried y lefel y mae'n fforddiadwy parhau i sybsideiddio gwasanaethau o natur fwy dewisol.

Gan edrych tua'r dyfodol, gyda lefelau uwch o risg i gyflawni targedau arbedion a galw sy'n debygol o barhau i fod yn anrhagweladwy o ganlyniad i ansicrwydd, bydd angen rheoli a monitro risg gwydnwch ariannol yn ofalus er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Cynigir buddsoddiad gwariant cyfalaf sylweddol mewn meysydd fel ysgolion newydd; mynd i'r afael â chyflwr asedau presennol a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau; datblygu tai cyngor newydd; adfywio economaidd; a chynlluniau teithio cynaliadwy. Gallai'r cynllun buddsoddi pum mlynedd ofyn am gynnydd sylweddol mewn benthyca i dalu am fuddsoddiad, a bydd angen adolygu'r goblygiadau cost o ganlyniad i gyfraddau llog cynyddol ar fodolau ariannol sy'n cefnogi prosiectau ac wrth ddatblygu achosion busnes.

Mae chwyddiant yn effeithio ar y Cyngor o ganlyniad i ddyfarniadau cyflog, ac mae'r argyfwng ynni a heriau costau byw ehangach yn ffactorau sydd angen eu hadolygu'n barhaus. Mae hyn yn effeithio ar feysydd fel cyfleustodau, gofal cymdeithasol a gomisiynir, trafnidiaeth, tanwydd, cost prosiectau cyfalaf yn ogystal â chostau atgyweirio a chynnal a chadw asedau a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae rhagor o fanylion am gyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24 a'r Tymor Canolig ar gael ar wefan y Cyngor, **Cynigion Cyllideb 2023/2024**, ac yn cynnwys y dogfennau allweddol isod:

- Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC)
- Cyllideb Cyfrif Refeniw Tai a CATC
- Strategaeth Cyfalaf
- Strategaeth Rheoli Trysorlys
- Ciplun gwydnwch ariannol sy'n nodi nifer o ddangosyddion a chymarebau ariannol.

Perfformiad Ariannol 2022/23

Cafodd cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23 ei chymeradwyo ym mis Mawrth 2022. Gosodwyd y gyllideb yn erbyn cefndir o ansicrwydd ariannol, heriau sylweddol wrth ariannu gwasanaethau, galw cynyddol am ein gwasanaethau, targedau arbedion pellach i'w gwneud a chynnydd o 1.9% yn y Dreth Gyngor. Cymeradwywyd cyllideb refeniw net o £743.736 miliwn ar gyfer 2022/23 yn ogystal â Chynllun Ariannol Tymor Canolig yn seiliedig ar gyfnod treigl o bedair blynedd o 2023/24 i 2026/27, gan sicrhau bod adnoddau wedi'u halinio â chanlyniadau yn y Cynllun Corfforaethol.

Gwariant a Chyllido Refeniw

Mae gwariant refeniw yn talu am gost gweithrediadau dyddiol y Cyngor a'u cyfraniadau i ac o gronfeydd wrth gefn.

Cyfarwyddiaeth	Cyllideb Gwariant Net	Alldro Gwariant Net	Amrywiad (Dan)/Dros
	£000	£000	£000
Rheolaeth Gorfforaethol	37,546	29,696	(7,850)
Datblygu Economaidd	10,104	11,167	1,063
Datblygu Economaidd - Ailgylchu a Gwasanaethau Cymdogaeth	37,224	39,437	2,213
Addysg a Dysgu Gydol Oes	310,413	313,914	3,501
Pobl a Chymunedau - Cymunedau a Thai	48,986	46,082	(2,904)
Pobl a Chymunedau – Perfformiad a Phartneriaethau	3,491	2,964	(527)
Pobl a Chymunedau – Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant	81,689	88,285	6,596
Pobl a Chymunedau – Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion	133,760	132,229	(1,531)
Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd	8,196	8,196	0
Adnoddau – Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol	6,950	7,619	669
Adnoddau	16,964	16,198	(766)
Is-gyfanswm Alldro'r Gyfarwyddiaeth	695,323	695,787	464
Ariannu Cyfalaf	34,309	31,020	(3,289)
Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol	2,000	0	(2,000)
Crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Cryno gan gynnwys casglu'r Dreth Gyngor, ad-daliadau Ardrethi Annomestig a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn	12,114	16,939	4,825
Cyfanswm Alldro'r Cyngor	743,746	743,746	0

Gwnaeth y Cyngor gadw ei wariant o fewn y gyllideb £743.746 miliwn a gymeradwywyd am y flwyddyn, ar ôl trosglwyddiadau i ac o gronfeydd wrth gefn clustnodedig. Roedd sefyllfa net y gyfarwyddiaeth yn adlewyrchu gorwariant net o £464,000 a chafodd gorwariannau yn erbyn y Cyfrif Refeniw Cryno eu gwrthbwysu gan y gronfa wrth gefn gyffredinol a'r gyllideb ariannu cyfalaf yn ogystal â sefyllfa well na'r disgwyl o ran casglu'r Dreth Gyngor. Fe wellodd y sefyllfa gyffredinol drwy gydol y flwyddyn, yn bennaf yn sgil rhyddhau cronfeydd wrth gefn, lleihad mewn gwariant a derbyn cyllid grant allanol ychwanegol. Gwnaeth hyn hefyd ganiatáu cynnydd pellach mewn Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig nad ydynt yn gysylltiedig ag ysgolion, a fydd yn cefnogi'r Cyngor yn yr heriau ariannol sy'n deillio o alw cynyddol a chwyddiant cost.

Caiff Ardrethi Annomestig eu casglu gan y Cyngor i Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar werth adeiladau a ddefnyddir mewn busnes neu at ddibenion annomestig, a gosodir cyfradd yn flynyddol. Daeth yr Ardrethi Annomestig net a gasglwyd gan Gaerdydd ar gyfer 2022/23 i gyfanswm o £197.199 miliwn a derbyniodd Caerdydd £131.182 miliwn ar ôl i hyn gael ei ailddosbarthu gan Lywodraeth Cymru. Y gyfradd gasglu yn ystod y flwyddyn oedd 93.51% (95.11% yn 2021/22).


Gellir dod o hyd i ystadegau casglu Cymru gyfan gan ddefnyddio'r ddolen hon ***Ardrethi annomestig (llyw.cymru)***

Cafodd Grant Cynnal Refeniw o £413.544 miliwn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae'r Dreth Gyngor a gesglir gan y Cyngor yn cynnwys praeseptau ar gyfer yr heddlu a cynghorau cymuned a, lle y bo'n berthnasol, cafodd ei throsglwyddo i'r cyrff perthnasol. Mae'r incwm Treth Gyngor a gadwyd

gan y Cyngor, sef £201.458 miliwn, yn ychydig dros chwarter o wariant net y Cyngor. Y gyfradd gasglu yn ystod y flwyddyn oedd 96.18% (96.00% yn 2021/22).

Gellir dod o hyd i ystadegau casglu Cymru gyfan gan ddefnyddio'r ddolen hon **Treth Gyngor (llyw.cymru)**

Sut talwyd am y gyllideb refeniw



Cyfrif Refeniw Tai (CRT)

Cyfrif a glustnodir yw'r Cyfrif Refeniw Tai a ddangosir o fewn y gyfarwyddiaeth Tai a Chymunedau. Mae'n cynnwys incwm o renti a gwariant ar reoli'r stoc dai a gwasanaethau cysylltiedig:

Cyfanswm yr incwm gan gynnwys rhent a thaliadau am wasanaethau oedd £94.991 miliwn. Roedd gwariant refeniw yn cynnwys atgyweiriadau a chynnal a chadw, goruchwyllo a rheoli a chostau ariannu cyfalaf, gan gynnwys llog, darpariaeth ar gyfer ad-dalu dyledion a thalu tuag at wariant cyfalaf. Nododd y Cyfrif Refeniw Tai sefyllfa gytbwys ar gyfer ar gyfer 2022/23 ar ôl trosglwyddo £1.833 miliwn i gronfeydd wrth gefn clustnodedig. Ymhlith y ffactorau a arweiniodd at y gwarged roedd llai o wariant ar atgyweirio a chynnal a chadw, tanwariant ar atgyweiriadau eiddo gwag, costau ariannu cyfalaf is sy'n adlewyrchu amseriad buddsoddiad cyfalaf ac oedi wrth recriwtio staff.

Gwariant a Chyllido Cyfalaf gan y Cyngor

Mae buddsoddi cyfalaf yn rhan fawr o'n gwariant. Mae gan y Cyngor raglen gyfalaf uchelgeisiol i gyflwyno prosiectau sy'n hanfodol i'r Cyngor wireddu ei ddyheadau ac adlunio sut rydym yn darparu ein gwasanaethau. Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn oedd £216.2 miliwn.


Cynlluniau	Manylion	£m
Datblygu Busnes a'r Ddinas	Benthyciadau Canol y Dref: caffael safleoedd adfywio yn y pentref chwaraeon rhyngwladol, Arena Dan Do yn galluogi caffael tir a grant safle chwaraeon Llanrhymni.	13.3
Parciau, Hamdden a Lleoliadau	Ardaloedd chwarae parciau, gofod agored a seilwaith; Cynnal a chadw adeiladau hamdden a lleoliadau; Dylunio cynllun argae Parc y Rhath; Dylunio Canolfan Hamdden Pentwyn ac adnewyddu asedau'r Harbwr.	4.5
Addysg a Dysgu Gydol Oes	Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B gan gynnwys adeiladu Ysgol Uwchradd newydd Fitzalan, buddsoddi yng nghyflwr ac addaswydd adeiladau ysgol a TGCh.	61.0
Adfywio Cymdogaethau a Thai Preifat	Grantiau addasiadau i'r anabl, sy'n caniatáu i bobl fyw'n annibynnol yn eu cartrefi; gwelliannau amgylcheddol a blaen siopau yn Stryd Tudor, gwelliannau amgylcheddol ystâd Hyb Rhiwbeina, Cae 3G Parc y Sblot a chynlluniau adfywio cymdogaethau, prynu eiddo ar Heol Orllewinol y Bontfaen ar gyfer opsiynau Canolfan Ieuencid.	12.1
Priffyrdd a Thrafnidiaeth	Ailwynebu ffyrdd a llwybr troed; goleuadau LED mewn ardaloedd preswyl; Erydu arfordirol a lliniaru llifogydd; trafndiaeth gyhoeddus a gwelliannau diogelwch ffyrdd; gweithredu strategaeth feicio; buddsoddi mewn teithio llesol a llwybrau diogel mewn cymunedau; mesurau ansawdd aer canol y ddinas gan gynnwys Stryd Wood a Chwr y Gamlas.	32.8
Corfforaethol, Technoleg a Cherbydau	Gwaith i ildio adeiladau ar brydles; Moderneiddio TGCh; Fflyd cerbydau newydd gan gynnwys cerbydau casglu sbwriel trydan a phwyntiau gwefru.	7.7
Prosiectau Ynni a Chynaliadwyedd	Ôl-osod ynni adeiladau a chyfrannu at Rwydwaith Gwres Caerdydd.	4.6
Tai Cyhoeddus	Addasiadau i'r anabl; adfywio ystadau; buddsoddi mewn cyflwr stoc bresennol; caffael tir ac anheddau sy'n bodoli eisoes o'r farchnad breifat; adeiladu anheddau newydd.	76.3
Arall	Isadeiledd depo ailgylchu, Profedigaeth, Eiddo a Rheoli Asedau, Strategaeth Eiddo Buddsoddi.	3.9
Cyfanswm		216.2

Rhaid talu am wariant cyfalaf, ac mae'r tabl isod yn tynnu sylw at y ffynonellau amrywiol o gyllid cyfalaf ar gyfer 2022/23. Mae ffynonellau cyllid gwariant cyfalaf yn cynnwys grantiau gan Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill gan gynnwys y grant Lwfans Atgyweirio Mawr a Chyfalaf Cyffredinol, derbyniadau cyfalaf h.y. enillion o werthu asedau'r Cyngor, cyfraniadau allanol gan ddatblygwyr a chyllideb refeniw y Cyngor ei hun neu Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig a roddwyd i'r neilltu yn flaenorol tuag at gynlluniau cyfalaf.

Lle nad yw'r ffynonellau cyllid blaenorol ar gael, yr unig ffordd o dalu am wariant yw'r Cyngor yn cynyddu ei ymrwymiad i fenthycia i dalu am wariant cyfalaf. Yn y pen draw, rhaid ad-dalu benthyciadau ac unrhyw gostau llog cysylltiedig dros gyfnod darbodus amser o gyllidebau presennol ac incwm yn y dyfodol. Gall hyn fod o gyllidebau refeniw presennol, cynnydd yn y Dreth Gyngor neu Rent yn y dyfodol, Grant Refeniw neu incwm ychwanegol yn y dyfodol, gyda'r olaf yn aml yn cael ei gategoreiddio fel 'Buddsoddi i Arbed'!



Ffynhonnell Gyllido	Gwirioneddol 2022/23	% o'r cyllid
	£000	%
Llywodraeth Cymru a Grantiau allanol eraill	103,356	47.80
Lwfans Atgyweiriadau Mawr (Grant LIC)	9,568	4.43
Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (Grant LIC)	6,135	2.84
Benthyca Digymorth Buddsoddi i Arbed	38,914	18.00
Benthyca Digymorth Ychwanegol	32,051	14.82
Benthyca â Chymorth	8,901	4.12
Derbyniadau Cyfalaf	10,379	4.80
Refeniw / Cronfeydd Wrth Gefn	3,995	1.85
Cyfraniadau allanol	2,909	1.35
Cyfanswm	216,208	

Y term ar gyfer gwariant cyfalaf yr aed iddo yn y gorffennol trwy fenthycia ond sydd eto i'w dalu o refeniw'r dyfodol neu incwm cyfalaf yw'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (GAC). Dangosir y tueddiad hanesyddol yn y siart nesaf.



Yn 2015/16 benthycwyd arian ychwanegol gan y Cyngor a'i dalu i Drysorlys EM i adael system cymhorthdal y CRT. Mae'r GAC a chostau ariannu cysylltiedig, llog ac ad-daliadau o fuddsoddiad cyfalaf i gynyddu'n sylweddol mewn blynyddoedd i ddod, gyda Strategaethau Rheoli Cyfalaf a Thrysorlys y Cyngor yn nodi ystod o ddangosyddion ar gyfer fforddiadwyedd, darbodusrwydd a chynaliadwyedd cynlluniau buddsoddi cyfalaf y Cyngor. Bob blwyddyn, codir swm y tybir ei fod yn ddarbodus i'n cyllidebau referniw i leihau'r GAC.

Sefyllfa Ariannol



Eiddo, Peiriannau, Cyfarpar ac Asedau Anghyfredol Eraill

Mae prisio pob ased yn cynnwys nifer o ragdybiaethau; fodd bynnag, mae symudiadau mewn prisiadau asedau yn ogystal ag unrhyw gostau cyfrifeg fel dibrisiant yn golygu nad ydynt yn effeithio ar y dreth gyngor na'r rhent sy'n daladwy gan fod yn rhaid iddynt gael eu gwrth-droi o gronfeydd wrth gefn anefnyddiadwy.

Mae Nodyn 14 yn rhoi manylion am symudiadau o ran asedau, gwariant cyfalaf a'i gyllido:

- y derbyniadau cyfalaf o werthu asedau eiddo ac incwm tebyg oedd £10.234 miliwn
- fel rhan o raglen dreigl y Cyngor, cynhaliwyd ailbrisiadau yn ystod y flwyddyn ar gyfer eiddo buddsoddi, asedau treftadaeth, gan gynnwys llyfrau hynafiaethol am y tro cyntaf, ac asedau dros ben. Mae hyn yn rhan o gylch byrrach o ailbrisiadau yn hytrach na'r cyfnod o 5 mlynedd a argymhellir mewn canllawiau ar gyfer prisiadau sydd eu hangen at ddibenion cyfrifeg yn unig. Mae hyn yn ein cefnogi i sicrhau bod y gwerthoedd a gofnodwyd yn y cyfrifon yn adlewyrchu'r niferoedd

sylweddol o ragdybiaethau, amrywiolion ac amodau'r farchnad, lle bo hynny'n berthnasol, sy'n effeithio ar ddata o'r fath dros amserlen resymol a chynlluniedig.

Cynhaliwyd asesiad ar draws holl adeiladau'r Cyngor yng Nghaerdydd i nodi a ddefnyddiwyd unrhyw Goncrit Awyredig Awtoclafiedig Cydnerth (RAAC) wrth adeiladu adeiladau ysgol neu unrhyw ran o safle'r ysgol ers hynny. Gwnaeth Swyddogion Iechyd a Diogelwch ac Asbestos profiadol sy'n gyfarwydd â thechnegau a deunyddiau adeiladu gynnal y rhaglen asesu i weld a oedd RAAC wedi cael ei ddefnyddio/yn bresennol o fewn ffabrig yr adeilad. Yn dilyn y rhaglen asesu. Yr unig eiddo lle nodwyd RAAC oedd Neuadd Dewi Sant, a oedd yn destun adroddiad a ystyriwyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r eiddo ar gau hyd nes y ceir cadarnhad o strategaeth fuddsoddi. Lle nodwyd problemau sylweddol gyda chyflwr neu'r defnydd o asedau yn ystod y flwyddyn, ceisiwyd prisiadau wedi'u diweddarau, gydag unrhyw amhariad mewn prisiad wedi'i gynnwys yn y cyfrifon. Mae'r prisiadau hyn at ddibenion cyfrifyddu yn unig.

Asedau a Rhwymedigaethau Ariannol

Cynhaliwyd gweithgareddau buddsoddi a benthyca gan y Trysorlys yn unol â gofynion rheoliadol a Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2022/23. Mae buddsoddiadau at ddibenion rheoli'r trysorlys ac arian parod ar £156.901 miliwn ar 31 Mawrth 2023 ac fe'u cynrychiolir yn bennaf gan falansau arian dros dro a adneuir gyda sefydliadau ariannol. Cyfradd gyfartalog y llog a enillwyd ar gyfer y flwyddyn oedd 1.74%.

Mae'r Cyngor yn benthyca arian i reoli ei lifoedd arian parod dyddiol ac i dalu am wariant cyfalaf. Yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys, mae benthyca'n cael ei wneud i reoli'r gofyniad ariannu cyfalaf. Y newid net mewn benthyca allanol yn ystod y flwyddyn oedd gostyngiad o £482,000. Mae Nodyn 15 y cyfrifon yn cynnig rhagor o wybodaeth am asedau a rhwymedigaethau ariannol y Cyngor a natur a helaethrwydd y risgiau perthnasol.

Er mwyn mynd i'r afael â chwyddiant, cynyddodd Cyfradd Banc Banc Lloegr o 0.75% ar ddechrau'r flwyddyn i 4.25% erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn cyrchu'r rhan fwyaf o'i anghenion benthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac mae cyfraddau llog benthyca wedi codi'n sylweddol o ganlyniad i'r cefndir economaidd yn y DU, rhagolygon chwyddiant yn y dyfodol a ffactorau ehangach fel lefel gyffredinol y ddyled genedlaethol. Er nad yw hyn yn cael fawr o effaith ariannol ar y Cyngor yn y tymor byr iawn o gofio bod holl fenthyca allanol y Cyngor ar gyfraddau llog sefydlog, bydd yn effeithio ar fenthyca'r dyfodol y bydd angen i'r Cyngor ei wneud i fodloni ymrwymadau, os bydd cyfraddau'n parhau'n uchel.

Darpariaethau

Mae'r Cyngor yn neilltuo arian ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion tebygol, nad yw'r union swm na dyddiad eu defnyddio'n sicr. Mae hyn yn cynnwys hawliau yswiriant yn ogystal ag ar gyfer ôl-ofal tirlenwi. Yn ystod 2022/23, gostyngodd cyfanswm y darpariaethau gan £1.187 miliwn i £27.815 miliwn. Dangosir manylion trosglwyddo darpariaethau yn nodyn 21 y cyfrifon.

Rhwymedigaethau Pensiwn

Dangosir cyfranogiad y Cyngor yn yr holl gynlluniau pensiwn yn nodyn 13 o'r cyfrifon:

- Y gost i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn am rwymedigaethau pensiwn yw £53.183 miliwn.
- Rhwymedigaeth y Cyngor o ran buddion pensiwn sy'n daladwy yn y dyfodol, o'u cymharu â'r asedau a gedwir, yw £205.809 miliwn ar 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau actiwaraid diweddaraf, gan arwain at ostyngiad o £647.196 miliwn o 2021/22. Manylir ar y rhagdybiaethau yn Nodyn 13.2 - Tabl yn dwyn y teitl Sail ar gyfer amcangyfrif Asedau ac Ymrwymadau, a'r prif ffactor yw newidiadau yn y cyfraddau llog a ragwelir.
- Caiff y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ei ailbriso bob tair blynedd, ac ystyrir bod asedau'r gronfa ar 31 Mawrth 2022 yn talu am 98% o rwymedigaethau'r dyfodol. Mae cynllun adfer 14 mlynedd ar waith er mwyn cwrdd â'r diffyg.

Balansau a Chronfeydd Wrth Gefn

Mae Balansau a Chronfeydd Wrth Gefn yn symiau o arian a gaiff eu neilltuo at ddibenion polisi penodol neu ar gyfer argyfyngau cyffredinol a rheoli llif arian parod. Mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, creu cronfeydd wrth gefn newydd a'r asesiad o'u digonolrwydd hefyd yn ystyried risgiau i wydnwch ariannol. Mae'r cyngor wedi bod mewn sefyllfa dros y blynyddoedd diwethaf i allu cynyddu lefel y cronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn gwella lefel gyffredinol y Cyngor o wydnwch ariannol. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â'r gwerthoedd ar gyfer 31 Mawrth 2023. Manylir refeniw clustnodedig a chronfeydd wrth gefn defnyddiadwy eraill yn nodyn 25 y cyfrifon a nodir cronfeydd wrth gefn anefnyddiadwy yn nodyn 26.

Datganiadau Ariannol

Nodir y Datganiad Cyfrifon yn y ddogfen hon, ynghyd â Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y datganiadau ariannol a'r Adroddiad Archwilio. Caiff y datganiadau endid unigol eu diffinio hefyd fel incwm, gwariant, asedau, rhwymedigaethau, cronfeydd wrth gefn a llifoedd arian parod ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr o fewn rheolaeth yr awdurdod lleol.

Y datganiadau craidd yw:

- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cofnodi holl incwm a gwariant y Cyngor ar gyfer y flwyddyn. Mae hanner uchaf y datganiad yn rhoi dadansoddiad fesul cyfarwyddiaeth. Mae hanner isaf y datganiad yn ymwneud â thrafodion a chyllid corfforaethol.
- Mae'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn grynodedig o'r newidiadau i'n cronfeydd wrth gefn dros y flwyddyn. Caiff cronfeydd wrth gefn eu rhannu'n rhai 'defnyddiadwy', y mae modd eu buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf neu wella gwasanaethau, a'r rhai 'anefnyddiadwy', y mae'n rhaid eu neilltuo at ddibenion penodol.
- Mae'r Fantolen yn rhoi cipolwg ar asedau, rhwymedigaethau, balansau arian parod a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn.
- Dengys y Datganiad Llif Arian Parod y rhesymau am newidiadau ym malansau arian parod y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac a yw'r newid oherwydd gweithrediadau, buddsoddi newydd neu weithgareddau ariannu.

Y datganiadau atodol yw:

- Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn nodi ar wahân swyddogaeth landlord statudol y Cyngor fel darparwr tai cymdeithasol dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.
- Mae Cyfrifon Grŵp yn cyfuno datganiadau ariannol y Cyngor â'i fuddiannau materol mewn is-gwmnïau, cyfranogion a/neu fentrau ar y cyd; yn achos y Cyngor hwn, Cardiff City Transport Services Ltd.
- Mae datganiadau eraill at ddibenion rheoliadol yn cynnwys Cronfeydd Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Harbwr Caerdydd.

Casgliadau

Rwy'n ddiolchgar am waith y tîm cyllid yn cefnogi'r cyfarwyddiaethau ac i'r holl swyddogion sy'n hwyluso tryloywder ein trafodion ariannol a nodir yn y datganiadau hyn. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Archwilio Cymru rôl allweddol hefyd yn yr her a'r adolygiad annibynnol o'r datganiadau hyn. Mae'r cyfrifon hyn nid yn unig yn cael eu paratoi i fodloni gofynion, ond hefyd yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth am sefyllfa ariannol a pherfformiad y cyngor. Bydd paratoi'r datganiadau hyn yn fwy heriol yn y dyfodol oherwydd yr agenda newid uchelgeisiol, gofynion cyfrifyddu ac adrodd ychwanegol ac effeithiau archwilio dilynol.

Yn gefndir i eleni mae ansicrwydd a risg barhaus yn sgil yr adferiad ar ôl y pandemig, cynnydd mewn costau a materion geowleidyddol. Er gwaethaf pwysau yn ystod y flwyddyn, llwyddodd y Cyngor i aros o fewn ei gyllideb refeniw net a bennwyd ar gyfer 2022/23. Mae'r galw am holl wasanaethau'r Cyngor yn parhau i gynyddu gydag effeithiau chwyddiant sylweddol ar y Cyngor yn ogystal â thrigolion y ddinas yn ystod argyfwng costau byw. Mae'r pwysau yma'n her sylweddol i agenda uchelgeisiol y Cyngor; her sy'n gofyn am ddewisiadau anodd a ffocws ar weithio gyda'n partneriaid i gyflawni blaenoriaethau allweddol er mwyn parhau i fod yn ariannol gynaliadwy a gallu cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn y tymor canolig a'r tymor hwy.

Christopher Lee

Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Swyddog Adran 151



Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiadau Ariannol



CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

STRONGER
FAIRER
GREENER



Cyfrifoldebau'r Cyngor

Rhaid i'r Cyngor:

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn gywir i sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn 2022/23, y swyddog hwnnw oedd Christopher Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, sy'n dal y rôl statudol Swyddog Adran 151;
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

Y Cynghorydd Bablin Molik
Arglwydd Faer

Dyddiad:

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol y Cyngor yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 (y Cod).

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau wedi:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson, heblaw os yw newidiadau polisi wedi'u nodi yn y cyfrifon hyn.
- gwneud beirniadaethau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddarbodus; a chydymffurfio â'r Cod.

Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir diweddar
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Tystysgrif y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Mae'r datganiadau ariannol ar gyfer y Cyngor yn rhoi golwg wir a theg o'i incwm a gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2023.

Christopher Lee
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Dyddiad:

Adroddiad Archwilydd Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd

Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd; a
- Grŵp Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn cynnwys y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symudiad ar y Cyfrif Refeniw Tai, Datganiad Incwm a Gwariant Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y prif bolisiâu cyfrifyddu.

Mae datganiadau ariannol Grŵp Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn cynnwys Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn y Grŵp, Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp, Mantolen y Grŵp, Datganiad Llif Arian Parod y Grŵp a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y prif bolisiâu cyfrifyddu.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gafodd ei gymhwyso wrth eu paratoi yn gyfraith gymwys ac yn safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig yn y DU fel y'u dehonglir a'u haddesir gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg wir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd a Grŵp Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ar 31 Mawrth 2023 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglir ac addesir gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (SARhau [DU]) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu hegluro ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y Cyngor a'r grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio sydd wedi dod i law yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi casglu bod y defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'u chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd gyda hynny. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicr arni.

Fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson gyda'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yng nghwrs yr archwiliad, neu'n ymddangos mewn ffordd arall ei bod wedi ei chamddatgan. Os byddaf yn adnabod anghysonderau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae gofyn i mi benderfynu a ydy hyn wedi arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi ei wneud, bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol acyn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23;
- Mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllaw.

Materion rwy'n adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y Cyngor a'r grŵp a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi adnabod camddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Naratif neu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifo a'r ffurflenni.

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol sy'n gyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am:

- baratoi datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau ariannol Grŵp Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, sy'n rhoi golwg wir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau cyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- asesu gallu Grŵp Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Grŵp Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy nod yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed trwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol â SARhau (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddigwydd oherwydd twyll neu wall a chânt eu hystyried yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau materol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd o ran:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth;
 - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r
 - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cydnabod gwariant, cofnodion ariannol anarferol;
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Caerdydd yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Caerdydd; a
- chael dealltwriaeth o gyberthnasau parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau a phrofion y datganiad ariannol i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, y Cabinet a'r Cyngor;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes hefyd gyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, wedi ei effeithio gan anhawster canfod unrhyw afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a ddefnyddir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau archwilio eraill

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod i wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Grŵp Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn unol â gofynion Deddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ



Polisiau, Beirniadaethau Critigol a Rhagdybiaethau



STRONGER
FAIRER
GREENER



Polisiâu cyfrifyddu a ddefnyddir wrth ffurfio'r cyfrifon

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 a'i sefyllfa ariannol ar y dyddiad hwnnw. Caiff y cyfrifon eu paratoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 (y Cod).

Cafodd y cyfrifon eu paratoi ar sail busnes hyfyw. Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiedir yn bennaf yw cost hanesyddol, wedi'i haddasu gan ailbrisiad rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

1. Safonau Cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond sydd heb eu mabwysiadu eto

Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 – Mabwysiadwyd prydles i yng Nghod 2022/23. Yn dilyn ymgynghoriad gydag awdurdodau lleol ac archwilwyr, mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu gofynnol wedi ei gwthio yn ôl i'r flwyddyn ariannol yn dechrau 1 Ebrill 2024 neu'n gynharach os yn bosibl. Mae SAARh 16 yn cyflwyno model cyfrifyddu un prydleswr ac yn gofyn i lesddeiliad gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer y rhan fwyaf o brydlesi gyda thymor o fwy na 12 mis, oni bai bod yr ased sylfaenol o werth isel. Mae angen i brydleswr gydnabod ased hawl-i-ddefnyddio sy'n cynrychioli ei hawl i ddefnyddio'r ased prydles sylfaenol ac atebolrwydd prydles sy'n cynrychioli ei rwymedigaeth i wneud taliadau prydles.

Er na ddisgwylir i hyn gael unrhyw effaith ar dalwyr y Dreth Gyngor na Rhent, mae gwaith wedi parhau yn ystod 2022/23 i sicrhau bod trefniadau tebyg-i-brydlesu sylweddol mewn perthynas ag eiddo a cherbydau'n cael eu nodi a'u cofnodi. Mae hyn yn cynnwys adolygu prosesau cyfredol a chreu prosesau newydd ar gyfer rheoli a chofnodi trefniadau prydlesu.

2. Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir gweithgarwch yn y flwyddyn y digwydd, nid pan gaiff y taliadau arian parod eu gwneud neu eu derbyn. Yn benodol:

- Cydnabyddir referniw o gontractau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed ar gyfer gwasanaethau neu ddarparu nwyddau, pan fydd neu wrth i'r nwyddau neu'r gwasanaethau gael eu trosglwyddo i'r derbynnydd gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad yn y contract.
- cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio
- cofnodir gwasanaethau a ddaw i law fel gwariant pan geir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir y taliadau
- mae trothwy de minimis o £500, na ellir cronni incwm a gwariant oddi tano
- caiff llog sy'n dod i law gyda buddsoddiadau ac sy'n daladwy ar fenthyciadau ei gyfrifo fel incwm a gwariant ar sail y gyfradd log berthnasol ar gyfer yr offeryn ariannol berthnasol yn hytrach na'r llifoedd arian parod sefydlog neu a bennir gan y contract
- Ile cydnabyddir referniw a gwariant ond na chafwyd neu na thalwyd arian parod, cofnodir dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm berthnasol yn y Fantolen. Pan nad ystyrir bod modd casglu dyledion, caiff y balans ei leihau trwy wneud darpariaeth ar gyfer dyled amheus.

3. Asedau a Gedwir i'w Gwerthu

Pan ddaw'n debygol y caiff swm cario ased ei adennill, yn bennaf drwy werthu yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, fe'i hail-ddosberthir yn Ased a Gedwir i'w Werthu os yw'n diwallu'r meini prawf canlynol.

- ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol
- rhaid ei fod yn debygol iawn o gael ei werthu
- rhaid iddo gael ei farchnata'n weithredol neu fod prynwyr arfaethedig wedi'u nodi
- disgwylir i'r broses werthu gael ei chwblhau o fewn blwyddyn.

Caiff yr ased ei ailbriso'n syth ar ôl ei ailddosbarthu ac yna'i ddwyn ymlaen ar y rhan isaf o'r swm hwn ac ar werth teg llai costau gwerthu. Pan fo hyn yn arwain at golled, caiff hwn ei osod yn y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Ni chydabyddir enillion gwerth teg ond at swm unrhyw golledion blaenorol a gydnabyddir yn y Gwarged neu Ddiffyg o ran Darparu Gwasanaethau. Ni chodir dibrisiant ar Asedau a Gedwir i'w Gwerthu. Cynhelir adolygiadau rheolaidd o ran p'un a yw asedau'n dal i ddiwallu'r meini prawf ar gyfer Asedau a Gedwir i'w Gwerthu, a phan nad dyma'r achos cânt eu hailddosbarthu a'u hailbriso yn unol â'r dosbarth priodol.

4. *Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod*

Mae arian parod yn cael ei gynrychioli gan arian parod mewn llaw, y balans net ar holl gyfrifon banc y Cyngor gan gynnwys balansau o ysgolion llyfr siec. Mae'n cynnwys adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n addaladwy ar rybudd o ddim mwy na 24 awr heb gosb sylweddol. Mae hefyd yn cynnwys buddsoddiadau'n aeddfedu a llog a dderbyniwyd ar ddiwrnod gwaith cyntaf mis Ebrill.

5. *Asedau a Rhwymedigaethau Wrth Gefn*

Mae'r rhain yn fuddion neu rwymedigaethau posibl sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y caiff eu bodolaeth ei chadarnhau gan un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt dan reolaeth lwyf y Cyngor. Ni chydabyddir asedau a rhwymedigaethau wrth gefn yn y datganiadau cyfrifyddu ond fe'u datgelir yn y nodiadau i'r cyfrifon pan fo angen.

6. *Rhwymedigaethau Gohiriedig*

Pan gaiff y Cyngor incwm ymlaen llaw gan ddatblygwyr a sefydliadau eraill o ran gwariant refeniw, megis cynnal asedau yn y dyfodol, cedwir y symiau ar y Fantolen fel rhwymedigaethau gohiriedig hyd nes bod y gwariant yn digwydd.

7. *Gwarediadau a Derbyniadau Cyfalaf*

Pan gaiff asedau eu gwaredu neu eu datgomisiynu, defnyddir gwerth yr asedau hynny sydd yn y Fantolen ynghyd ag unrhyw elw o waredu i gyfrifo budd neu golled wrth waredu.

Caiff gwarediadau sy'n fwy na £10,000 eu trin fel derbyniadau cyfalaf a cânt eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

8. *Buddion Cyflogeion*

Buddion Taladwy yn ystod y Gyflogaeth

Caiff buddion cyflogeion byrdymor fel cyflogau, gwyliau blynyddol a delir, absenoldeb salwch a threuliau eu talu'n fisol a'u hadlewyrchu fel gwariant ar sail gronnol yn y llinell wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Buddion Terfynu

Buddion terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol, ac maen nhw'n cael eu codi ar sail gronnol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Buddion Ôl-Gyflogaeth

Mae cyflogeion y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Asiantaeth Pensiynau Athrawon
- y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, trwy aelodaeth o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg a weinyddir gan y Cyngor.

Y Cyngor hefyd yw prif gyflogwr ac unig gyflogwr statudol Cynlluniau Pensiwn Cardiff City Transport Services.

Mae'r Cyngor yn cyfrif costau pensiwn yn y prif ddatganiadau cyfrifyddu yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 (SCRh19). Mae hyn yn gofyn am gydnabyddiaeth o'r ffaith, er nad yw buddion ymddeol yn daladwy nes i gyflogai ymddeol, fod ymrwymiad y Cyngor i wneud y taliadau hynny'n codi ar yr amser y mae cyflogeion yn ennill eu hawliadau i'r dyfodol. Mae'r ffordd yr ymdrinnir â chyfrifon yn dibynnu ar ba un a ydynt yn ymwneud â chynllun budd diffiniedig neu gynllun cyfraniad diffiniedig.

Cynlluniau Cyfraniad Diffiniedig

Mae trefniadau wedi'u canoli ar gyfer y Cynllun Pensiwn Athrawon yn golygu na all rhwymedigaethau ar gyfer y buddion hyn fel arfer gael eu nodi'n benodol i'r Cyngor ac felly y cânt eu nodi fel cynllun cyfraniad diffiniedig ac ni chydabyddir unrhyw rwymedigaeth ar gyfer taliadau buddion yn y dyfodol yn y Fantolen. Mae gan Cardiff City Transport Services gynllun cyfraniad diffiniedig sy'n cynnwys isafswm elw gwarantiedig ar gyfer ei aelodau, sydd ar gau i aelodau newydd. Dangosir asedau a rhwymedigaethau'r cynllun yn y Fantolen.

Cynlluniau Budd Diffiniedig

Mae Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn gynllun budd diffiniedig. Mae yna hefyd Gynllun Budd Diffiniedig Cardiff Transport Services sydd ar gau i aelodau newydd. Mae'r rhwymedigaeth pensiwn net, sy'n cynrychioli cyfradd berthnasol y Cyngor o asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, yn y Fantolen lle:

- mae rhwymedigaethau ar gyfer y cynllun i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned rhagamcanol (asesiad o daliadau yn y dyfodol a wneir mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan gyflogeion, yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant cyflogeion ac enillion rhagamcanol ar gyfer cyflogeion cyfredol).
- mae asedau'r cynllun i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn ôl eu gwerth teg:
 - gwarannau unedol ac wedi'u dyfynnu - pris cynnig cyfredol
 - gwarannau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol
 - eiddo – gwerth y farchnad.

Mae'r newid o ran y rhwymedigaeth pensiwn net wedi'i ddadansoddi yn y cydrannau canlynol:

- costau gwasanaeth cyfredol: mae cynnydd o ran rhwymedigaeth o ganlyniad i bensiwn a enillir gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn yn cael ei godi ar gost net gwasanaethau.
- costau gwasanaeth blaenorol: mae cynnydd o ran y rhwymedigaeth sy'n codi o benderfyniadau blwyddyn gyfredol sy'n effeithio ar bensiwn a enillir gan gyflogeion mewn blynyddoedd cynharach yn cael ei godi ar Reoli Corfforaethol.
- enillion/colledion ar daliadau llawn a chwtogiadau: mae canlyniadau camau i leddfu'r Cyngor o rwymedigaethau neu ddigwyddiadau sy'n lleihau'r gwasanaeth a ddisgwylir yn y dyfodol neu gronni buddion yn cael eu codi ar Reoli Corfforaethol.
- llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig net: costau llog net ar gyfer y cyfnod sy'n codi o dreigl amser ac sy'n cael ei ddangos ar y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- ailfesuriadau: adenillion ar asedau (ac eithrio symiau sydd wedi'u cynnwys yn y llog net) ac enillion/colledion actwaraidd o ganlyniad i dybiaethau actiwaraidd wedi'u diweddarau. Mae'r rhain yn cael eu codi ar y Gronfa Pensiynau Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Arall.

O ran buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i godi ar falans Cronfa'r Cyngor y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn ystod y flwyddyn, nid y swm a gyfrifwyd yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn mae hyn yn golygu bod symiau a briodolir i mewn ac allan o'r Gronfa Pensiynau Wrth Gefn i ddileu'r holl ddebydau a chredydau tybiannol o ran buddion ymddeol a'u disodli gan ddebydau am yr arian parod a delir i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond nas talwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n deillio o'r Gronfa Pensiynau Wrth Gefn felly'n mesur yr effaith fuddiol i Gronfa'r Cyngor o orfod cyfrifo buddion ymddeol ar sail llifoedd arian parod yn hytrach na buddion a enillir gan gyflogeion.

9. Asedau Ariannol

Dosberthir asedau ariannol yn seiliedig ar ddull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu model busnes y Cyngor ar gyfer cadw asedau ariannol a'u nodweddion llif arian parod.

Mae tri phrif ddsbarth o asedau ariannol a fesurir ar:

- gost wedi'i amorteiddio – Cyflawni amcanion drwy gasglu llifoedd arian parod cytundebol e.e. prifswm a llog
- gwerth teg trwy elw neu golled (GTEG) – Cyflawni amcanion drwy gasglu llifoedd arian parod cytundebol a gwerthu asedau
- gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall (GTICA) – Cyflawni amcanion trwy unrhyw ddull arall yn hytrach na chasglu llifoedd arian parod cytundebol a phan fo'r Cyngor wedi dynodi mai dyma'r achos.

O ran gwerth asedau ariannol a gydnabyddir yn y cyfrifon, prif fodel busnes yr awdurdod yw cadw buddsoddiadau i gasglu llifoedd arian parod cytundebol; fodd bynnag, gellir darparu benthyciadau ac offerynnau ecwiti fel gwariant cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf gymeradwy i gyflawni amcanion gwasanaeth. Gan ddibynnu ar y rhesymeg ar gyfer cadw asedau ariannol o'r fath, ecwiti yn bennaf, gall y Cyngor ddynodi eitemau o'r fath i gael eu mesur ar werth teg trwy incwm cynhwysfawr arall.

Caiff technegau mesur gwerth teg eu diffinio yn adran derfynol y polisi hwn.

Asedau Ariannol a Fesurir ar Gost wedi'i Hamorteiddio

Cydnabyddir asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio ar y Fantolen pan ddaw'r awdurdod yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol a chânt eu mesur yn ôl gwerth teg yn y lle cyntaf. Yna cânt eu mesur yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DIGC) ar gyfer llog sy'n dod i law'n seiliedig ar swm cario'r ased, wedi'i luosi gan y gyfradd log gyfredol ar gyfer yr offeryn yn unol ag unrhyw fuddsoddiad neu gytundeb benthyciad. Y swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sy'n weddill (yn ogystal â llog a gronwyd).

Caiff unrhyw enillion neu golledion sy'n codi wrth ddad-gydnabod ased eu credydu/debydu i'r DIGC.

Model Colled Credyd Disgwyliedig

Cyfrifir colledion amhariad i adlewyrchu'r disgwyliad na fydd llifoedd arian parod yn y dyfodol yn digwydd oherwydd gallai'r benthyciwr ddiffygdalu ar ei rwymedigaethau. Gallai adolygiad o'r fath ddisgwydd ar ased ariannol unigol neu ar sail gyfunol, yn seiliedig ar berthnasedd a chost a budd asesiad unigol.

Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad o golledion credyd disgwyliedig ar yr holl asedau ariannol a gedwir ar gost wedi'i hamorteiddio ar sail 12 mis neu gydol oes. Pan na chynhaliwyd darpariaeth ar gyfer colledion o'r fath eisoes e.e. fel rhan o ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg, gwneir addasiadau i werth asedau ariannol a gaiff eu datgelu yn y cyfrifon. Mae risg credyd yn chwarae rhan allweddol o ran asesu colled credyd ddisgwyliedig. Pan fo risg wedi cynyddu'n sylweddol ers i ased ariannol gael ei gydnabod yn y lle cyntaf, caiff darpariaeth ar gyfer colledion ei hasesu ar sail gydol oes. Pan nad yw risg wedi cynyddu'n sylweddol neu mae'n parhau'n isel, caiff darpariaeth ar gyfer colledion ei hasesu ar sail colled ddisgwyliedig 12 mis.

Asedau Ariannol a Fesurir ar Werth Teg trwy Elw neu Golled (GTEG)

Cydnabyddir asedau ariannol a fesurir ar GTEG ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol a chânt eu mesur a'u dwyn ymlaen ar werth teg yn y lle cyntaf. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg yn y Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau.

Caiff unrhyw enillion neu golledion sy'n deillio o ddad-gydnabod yr ased eu credydu/debydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Asedau Ariannol a Fesurir ar Werth Teg trwy Incwm Cynhwysfawr Arall (GTICA)

Caiff asedau ariannol a fesurir fel GTICA eu mesur i ddechrau a'u cario ymlaen ar werth teg ar y Fantolen. Bydd ymdrin ag asedau o'r fath dan y categori hwn yn gofyn am 'Ddynodiad' gan y Cyngor. Mae'r rhain yn debygol o fod yn ddaliadau ecwiti a ddelir fel rhan o amcan gwasanaeth.

Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg mewn Incwm Cynhwysfawr Arall ac mae'r newid o ran swm y buddsoddiad yn y fantolen yn cael ei baru â chofnod yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbriso Offerynnau Ariannol.

Wrth ddad-gydnabod, caiff unrhyw falans ar y Gronfa Wrth Gefn Ailbriso Offerynnau Ariannol ei ailgylchu trwy'r Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau.

Mesur Asedau Ariannol ar Werth Teg

Mae'r mesuriadau gwerth teg ar gyfer y dosbarthiadau asedau ariannol uchod a fesurir ar werth teg yn seiliedig ar y technegau canlynol:

- offerynnau â phrisiau marchnad a ddyfynnir - pris y farchnad
- offerynnau eraill â thaliadau sefydlog ac y gellir eu pennu – dadansoddiad llif arian parod â gostyngiad

Caiff y mewnbynnau i'r technegau mesur eu categorio yn unol â'r lefelau canlynol:

- Lefel 1 – prisiau a ddyfynnir (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau unfath y gall yr awdurdod fanteisio arnynt ar y dyddiad mesur.
- Lefel 2 – mewnbynnau ac eithrio prisiau a ddyfynnir wedi'u cynnwys yn Lefel 1 y gellir eu harsylwi ar gyfer yr ased, un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Lefel 3 – mewnbynnau na ellir eu harsylwi ar gyfer yr ased.

10. Rhwymedigaethau Ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol. Caiff y rhain eu mesur i ddechrau ar bris teg ac yna'u cario ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae'r costau blynyddol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog sy'n daladwy'n seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi gan y gyfradd log gyfredol ar gyfer yr offeryn. Caiff llog sy'n ddyledus ond sydd heb ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn ei ddangos yn y Fantolen fel rhwymedigaeth gyfredol.

Pan fo pris teg a delir i drosglwyddo rhwymedigaeth yn cael ei amcanu a'i ddatgelu, caiff mewnbynnau i'r technegau prisio a ddefnyddir i bennu pris teg eu priodoli i'r un lefelau fel y nodir dan y polisi cyfrifyddu Asedau Ariannol.

Caiff costau trafodion, fel ffioedd brocer a chomisiwn o ran rheoli Offerynnau Ariannol y Cyngor, nas ystyrir yn berthnasol, eu codi ar unwaith i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

11. Grantiau a Chyfraniadau

Cyfrifir am grantiau a chyfraniadau eraill ar sail gronnol ac fe'u cydnabyddir pan fo:

- sicrwydd digonol y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau dros eu derbyn a
- bod sicrwydd digonol y daw'r grant neu'r cyfraniad i law.

Refeniw

Caiff grantiau, na fodlonwyd amodau ar eu cyfer eto, eu dwyn ymlaen yn y Fantolen fel Derbyniadau Grantiau Refeniw Ymlaen Llaw. Pan fo amodau wedi'u bodloni, credydir y grant neu'r cyfraniad i'r gwasanaeth perthnasol (grantiau refeniw penodol a chyfraniadau) neu Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol (grantiau refeniw amhenodol) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Pan nad oes sicrwydd digonol y caiff yr amodau eu bodloni, ni chydabyddir unrhyw arian a ddaw i law fel derbyn arian grant ond fel ad-daliad sy'n ddyledus i'r corff dyfarnu a chaiff ei gadw ar y Fantolen fel rhwymedigaeth os bydd yn parhau heb ei dalu.

Pan gydymffurfir ag amodau grant refeniw neu gyfraniad ond nas defnyddiwyd hwy eto i ariannu gwariant at y diben a nodwyd yn y cytundeb grant, fe'u neilltuir yn y Gronfa Wrth Gefn Glustnodedig.

Cyfalaf

Trinnir grantiau a chyfraniadau yn ystod y flwyddyn i ariannu cynlluniau cyfalaf sy'n Wariant Refeniw a Ariennir gan Gyfalaf dan Statud (GRAGDS) fel incwm refeniw ac fe'u credydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r llinell wasanaeth berthnasol.

Credydwr Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau perthnasol wrth dalu am waith cyfalaf arall i'r llinell Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Pan fo grant cyfalaf neu gyfraniad penodol wedi dod i law ond nad yw wedi ei ddefnyddio eto, fe'i nodir fel credydwr, oherwydd bod modd dychwelyd yr elfen nas defnyddiwyd i'r ariannwr. Pe bai grant amhenodol fel y Grant Cyfalaf Cyffredinol neu'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr yn parhau heb ei ddefnyddio, fe'i cedwir fel Cronfa Grantiau Cyfalaf Heb Eu Defnyddio.

Nodir grantiau cyfalaf a chyfraniadau ar wahân ar y Fantolen.

12. *Asedau Treftadaeth*

Mae'r Cyngor yn cydnabod asedau treftadaeth y gallai fod wedi talu gwariant ar wahân y gellir ei nodi wrth eu caffael neu eu cadw, neu pan fo ganddo wybodaeth am werth yr ased.

Mae asedau treftadaeth wedi'u cynnwys yn y gost hanesyddol os ydynt yn y cyfrifon ac ni chânt eu mesur ar werth teg oni bai bod manteision gwneud hynny'n gorbwysu'r costau. Ni chodir unrhyw gostau dibrisiant ar asedau treftadaeth.

Mae natur unigryw asedau treftadaeth yn gwneud prisiadau dibynadwy'n gymhleth. Cydnabyddir yr anawsterau hyn gan y Cod ac felly ni chofnodir llawer o asedau unigol yn y cyfrifon, ond gwneir datgeliadau naratif ychwanegol am natur a maint asedau o'r fath yn y nodiadau i'r cyfrifon. Cynhelir prisiad bob 3 blynedd gan arbenigwr allanol at ddibenion yswiriant. Cynhaliwyd prisiad o baentiadau, arteffactau, regalia dinesig a llyfrau hynafiaethol yn ystod 2022/23.

13. *Asedau Anghyfredol Anniriaethol*

Mae gwariant ar asedau anffisegol ond a all gael eu nodi a'u rheoli gan y Cyngor wedi'i gyfalafu. Yn achos meddalwedd a thrwyddedau cyfrifiadurol, cyfalafir hyn pan fo'n berthnasol i wella neu ddatblygu systemau, y credir y bydd gwario arnynt o fudd economaidd hirdymor i'r Cyngor ar ffurf arbedion a gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau. Mae asedau anniriaethol wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar gost hanesyddol net amorteiddio, ac yn cael eu hadolygu ar gyfer amhariad a'u hail-brisio pan fo gwerth marchnad parod ganddynt.

Caiff yr asedau eu hamorteiddio i'r gwasanaeth perthnasol dros oes economaidd y buddsoddiad a bennir yn y lle cyntaf rhwng 3 a 7 mlynedd, a'u gwrthdroi yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn trwy drosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf. Unwaith y bydd asedau anniriaethol wedi'u hamorteiddio'n llawn, cânt eu hadolygu o ran perthnasedd ac, os oes angen, eu gwaredu gyda'r gwerth cario wedi'i dynnu oddi ar y gofrestr asedau.

Cydnabyddir enillion a cholledion o waredu yn y gwaredu neu'r diffyg o ran darparu gwasanaethau.

14. *Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill*

Mae gan y Cyngor fuddiannau mewn cwmnïau ac endidau eraill. Yn amodol ar lefel y perthnasedd a'r amlygrwydd i risg, mae'r rhain wedi'u cysoni i greu Cyfrifon Grŵp.

15. Rhestrau Eiddo

Caiff stocrestrau eu mesur a'u cadw ar gost is neu werth net gwireddadwy. Pan gaiff stocrestrau eu gwerthu, eu cyfnewid neu eu dosbarthu, cydnabyddir y swm cario fel gwariant.

Mae balans y stocrestrau sydd wedi'u rhoi yn hytrach na'u prynu yn cael ei gadw yn y Cyfrif Stocrestr a Roddwyd.

16. Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r rheini a gedwir i ennill rhent a/neu arbrisiant cyfalaf megis prydlesi tir, tir a gedwir ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol fel safleoedd strategol a thir ac adeiladau eraill sy'n diwallu meini prawf eiddo buddsoddi.

Mesurir eiddo buddsoddi ar werth teg, yn seiliedig ar bris y farchnad a fyddai'n cael ei dderbyn wrth werthu ased mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranogwyr yn y farchnad a'r dyddiad mesur, gan adlewyrchu defnydd uchaf a gorau'r ased. Cwblheir prisiad bob blwyddyn, a chynhaliwyd y diweddaraf gan Jones Lang LaSalle yn 2022/23.

Nid yw eiddo buddsoddi yn cael eu dibrisio. Caiff enillion a cholledion ailbrisiu a gwaredu yn ychwanegol at renti sy'n dod i law eu gosod yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, ni chaniateir i enillion a cholledion ailbrisiadau a gwarediadau gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor ac felly cânt eu gwaredu o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u gosod yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

17. Cydbwyllgorau

Yn amodol ar berthnasedd a chysylltiad â risg, cynhwysir y gyfran berthnasol o Gydbwyllgorau yng nghyfrifon y Cyngor sy'n adlewyrchu'r trafodion a'r balansau ar gyfer y Cydbwyllgorau hynny. Lle nad oes gwybodaeth ar gael, cynhwysir balansau'r flwyddyn flaenorol.

18. Prydlesi

Mae prydlesi'n cael eu hystyried yn brydlesi cyllid pan fo telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a gwobrwyau, o ran perchenogaeth eiddo, peiriannau neu offer o'r prydleswr i'r prydlesai. Mae pob prydles arall yn cael ei hystyried yn brydles weithredu. Pan fydd prydles yn cwmpasu tir ac adeiladau, ystyrir yr elfennau tir ac adeiladau ar wahân i'w dosbarthu.

Y Cyngor fel Prydlesai

Prydlesi Cyllid

O ran peiriannau ac offer, mae gan y Cyngor lefel de-minimis o £75,000 ar gyfer prydlesi i'w cydnabod fel prydlesi cyllid. Nid yw'r Cyngor yn cydnabod unrhyw brydlesi fel hyn.

Prydlesi Gweithredu

Codir taliadau ar gyfer prydlesi gweithredu i'r gwasanaeth perthnasol ar sail gronnol.

Y Cyngor fel Prydleswr

Prydlesi Cyllid

Nid yw'r Cyngor yn cydnabod unrhyw brydlesi fel hyn.

Prydlesi Gweithredu

Pan fo'r Cyngor yn dyfarnu prydles weithredu dros eiddo, peiriannau neu offer, caiff yr ased perthnasol ei gadw yn y Fantolen. Credydir incwm rhent i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

19. Ysgolion a Gynhelir gan yr Awdurdod Lleol

Mae'r Cod yn cadarnhau mai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gydbwysedd rheolaeth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol (h.y. y categorïau hynny o ysgolion a nodir yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd). Mae'r Cod hefyd yn nodi bod asedau, rhwymedigaethau, cronfeydd wrth gefn a llifoedd arian parod yr ysgolion hynny yn cael eu cydnabod yn natganiadau ariannol yr awdurdod lleol. Felly cydnabyddir trafodion, llifoedd arian parod a balansau ysgolion ym mhob un o ddatganiadau ariannol yr awdurdod fel pe baent yn drafodion, llifau arian parod a balansau'r awdurdod.

20. Eiddo, Peiriannau, Offer

Yr asedau hyn yw'r rhai â sylwedd ffisegol a ddefnyddir wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, y bwriedir eu cadw am gyfnod amhenodol a'r rhai ar gyfer hyrwyddo diwylliant neu wybodaeth ac y disgwylir eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol.

Cydnabyddiaeth

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella asedau o'r fath ei gyfalafu ar sail gronnol. Rhagdybir bod gwariant ar asedau presennol yn arwain at wella'r ased ac fe'i dangosir yn y cyfrifon fel ychwanegiad at yr ased.

Codir gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflawni buddion neu botensial gwasanaeth (h.y. atgyweirio a chynnal) ar refeniw pan gaiff ei wario.

Mae gan y Cyngor bolisi de-minimis o £1,000 o ran cyfalafu gwariant mewn cysylltiad ag aneddiadau'r Cyngor.

Unwaith y bydd asedau wedi dibrisio'n llawn, cânt eu hadolygu o ran perthnasedd ac, os oes angen, eu gwaredu gyda'r gwerth cario wedi'i dynnu oddi ar y gofrestr asedau.

Mesuriad

Mesurir asedau i ddechrau ar gost, gan gynnwys yr holl wariant sy'n deillio'n uniongyrchol o ddod â'r ased dan sylw i gyflwr gweithio ar gyfer y defnydd a fwriedir, ac eithrio costau benthyca na chaiff eu cyfalafu. Codir dibrisiant blwyddyn lawn ar wariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Ni chodir unrhyw gostau dibrisiant yn ystod y flwyddyn waredu. Felly caiff asedau eu cario ymlaen ar y fantolen fel a ganlyn:

Math yr Ased	Mesuriad	Amllder Priso	Prisiad Diwethaf	Syrfêwr ar gyfer y Prisiad Diwethaf	Prisiad Nesaf	Dibrisiant*
Asedau sy'n cael eu Hadeiladu	Cost Hanesyddol Ddibrisiedig	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B
Asedau Cymunedol	Cost Hanesyddol Ddibrisiedig	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B
Anheddau'r Cyngor	Gwerth Defnydd Presennol ar gyfer Tai Cymdeithasol	Pob 2 flynedd	2021/22	Savills	2023/24	Tir: dd/b Adeiladau: 50 mlynedd
Seilwaith	Cost Hanesyddol Ddibrisiedig	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B	7-120 mlynedd**
Tir ac Adeiladau Gweithredol Eraill	Gwerth Defnydd Presennol neu Gost Newid Ddibrisiedig os yw o natur arbenigol heb dystiolaeth yn seiliedig ar y farchnad	Pob 3 blynedd	2021/22	Cooke & Arkwright	2024/25	Tir: dd/b Adeiladau: 1-100 mlynedd
Asedau Ysgol	Cost Newid Ddibrisiedig Fanwl (Ased Cyfwerth Modern)	Pob 3 blynedd	2021/22	Cooke & Arkwright	2024/25	Tir: dd/b Adeiladau: 2-50 mlynedd
Asedau Gwarged	Gwerth Teg	Bob blwyddyn	2022/23	Jones Lang LaSalle	2023/24	Dd/B
Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer	Cost Hanesyddol Ddibrisiedig	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B	5-20 oed

* Wedi'i gyfrifo ar sail llinell syth dros yr oes ddefnyddiol amcangyfrifedig isod, oni bai nad oes yna oes ddefnyddiol feidrol benodol.

** Wedi'i gynnwys o fewn Seilwaith mae Morglawdd Bae Caerdydd, sy'n cael ei ddibrisio dros oes ddylunio o 120 mlynedd.

Ailbriso

Mae gofyn i anheddau'r Cyngor, tir ac adeiladau eraill, gan gynnwys ysgolion, gael eu hailbriso'n gyfnodol. Mae'r prisiadau'n ystyried nid yn unig amrywiannau cost ond nifer o amrywiannau hanfodol eraill fel cyflwr a newidiadau mewn defnydd. Mae prisiadau asedau'n digwydd gyda dyddiad gweithredol ar 1 Ebrill neu 31 Mawrth lle mae prisiad proffesiynol llawn o ddsbarth llawn o asedau yn dangos y gallai fod newid materol yn sefyllfa derfynol y fantolen.

Rhaid i'r Cyngor gydbwyso'r gofyniad i sicrhau nad yw symiau cario yn faterol wahanol o'u gwerth teg neu gyfredol ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r amser, costau ac adnoddau sydd ynghlwm wrth gynnig gwasanaethau prisiant at ddibenion cyfrifyddu. Mae'n gwneud hyn drwy:

- gynnal adolygiad amhariad blyneddol o eiddo gyda thîm priso mewnol y Cyngor i nodi newidiadau sylweddol,
- defnyddio profiad a gwybodaeth leol y tîm priso mewnol i gynnig neu ddefnyddio unrhyw wasanaethau priso allanol. Mae hyn yn sicrhau bod yr adran gyllid yn cael gwybod am unrhyw faterion eiddo sy'n effeithio ar y Cyngor,

- gweithredu rhaglen ailbriso dreigl y cytunwyd arni sy'n sylweddol fyrrach na'r cylch 5 mlynedd gofynnol sy'n angenrheidiol dan y Cod i sicrhau craffu digonol, rheolaidd a chyson ar bob dosbarth o asedau a bod newidiadau pridio'n cael eu cyfartalu dros gyfnod o dair blynedd o leiaf.

Caiff asedau eiddo'r Cyngor eu hailbriso ar sail rhaglen dreigl 3 blynedd, neu os yw ased yn cael ei adnewyddu'n sylweddol, gwneir ymdrech i'w ailbriso yn y flwyddyn y caiff ei gwblhau, a gwneir addasiad i'w oes ddisgwyliedig. Dylid nodi bod symudiadau ailbriso yn ymarfer cyfrifo yn unig ac nad ydynt yn effeithio ar berfformiad ariannol y Cyngor, gan gynnwys lle mae asedau o'r fath yn parhau i gael eu cynnal at ddibenion darparu gwasanaethau.

Mae'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbriso a gydnabyddir ers 1 Ebrill 2007 yn unig: y dyddiad gweithredu swyddogol. Mae enillion sy'n codi cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cysoni yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Amhariad ac Ailbriso Ar-i-Lawr

Asesir asedau ar ddiwedd pob blwyddyn o ran a oes unrhyw awgrym y gallai ased fod yn llai gwerthfawr, boed hynny oherwydd gostyngiad sylweddol ym mhotensial gwasanaeth neu ostyngiadau parhaol sylweddol yng ngwerth y farchnad. Pan nodir newid materol o ran gwerth, mae'r driniaeth gyfrifyddu fel a ganlyn:

- pan fo balans o enillion ailbriso ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn, caiff swm cario'r ased ei ysgrifennu yn erbyn y balans hwnnw, hyd at swm yr enillion cronedig
- neu pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn, caiff swm cario'r ased ei ysgrifennu'n erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo colled amhariad yn cael ei gwrthdroi'n ddilynol, caiff honno ei chredydu i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer dibrisiant a fyddai wedi'i godi pe na chydabyddid y golled.

Cyfrifyddu Cydrannau

Lle gallai ased unigol fod â nifer o gydrannau gwahanol, a phob un ag oes ddefnyddiol wahanol, ystyrir tri ffactor i benderfynu a ddylid cydnabod prisiant ar wahân o gydrannau yn y cyfrifon er mwyn darparu ffigur cywir ar gyfer dibrisiant.

Mae'r ffactorau fel a ganlyn:

- perthnasedd o ran datganiadau ariannol y Cyngor. Nid ystyrir cydranoli ond ar gyfer asedau unigol nad ydynt yn dir ac sydd â gwerth ased net o fwy nag £1.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- arwyddocâd y gydran. Ar gyfer asedau unigol sy'n cyrraedd y trothwy uchod, pan fo gwasanaethau mewn adeilad (boeleri/gwresogi/goleuadau/awyru ac ati) neu eitemau sefydlog o offer (ceginau/cypyrddau) yn gydran berthnasol o gost yr ased hwnnw (>30%), yna caiff y gwasanaethau/offer hynny eu prisio ar wahân ar sail cydran.
- y gwahaniaeth yn y gyfradd neu ddull dibrisio o'i gymharu â'r ased cyffredinol. Dim ond elfennau sydd fel arfer yn dibrisio ar gyfradd sylweddol wahanol o'r elfen nad yw'n dir, yn ei chyfanrwydd, neu sydd angen dull dibrisio gwahanol, a gaiff eu nodi i'w cydranoli.

Gall asedau sy'n is na'r profion uchod gael eu diystyru o ran cydranoli ar y sail na fyddai unrhyw addasiad i'r costau dibrisiant yn arwain at gamdatganiad perthnasol yn y cyfrifon.

21. *Darpariaethau*

Codir am ddarpariaethau fel gwariant i'r gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a fesurir yn ôl yr amcan gorau ar ddyddiad mantolen y gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth, gan ystyried y risgiau a'r ansicrwydd perthnasol. Pan wneir taliadau, fe'u codir i'r ddarpariaeth, a ddelir ar y Fantolen. Caiff darpariaethau eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a chaiff darpariaethau nad oes eu hangen mwyach eu credydu'n ôl i'r llinell wasanaeth berthnasol.

22. *Gwariant Refeniw a Ariennir gan Gyfalaf dan Statud (GRAGDS)*

Gallai gwariant a wneir yn ystod y flwyddyn gael ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol, ond nid yw hynny'n arwain at greu ased anghyfredol, a chodwyd hynny fel gwariant i'r llinell wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu talu cost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu drwy fenthycu, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn diystyru'r symiau a godir fel nad oes effaith ar lefel y Dreth Gyngor.

23. *Cronfeydd Wrth Gefn*

Ceidw'r Cyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy at ddibenion polisi yn y dyfodol neu i dalu am daliadau argyfwng. Mae rhai cronfeydd wrth gefn yn anefnyddiadwy ac yn cael eu cynnal i reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, a buddiannau ymdeol a chyflogai. Nid ydynt yn adnoddau defnyddiadwy i'r Cyngor ac nid effeithir ar dreth gyngor neu rent.

24. *Treth Ar Werth (TAW)*

Mae TAW daladwy wedi'i heithrio o wariant ac eithrio pan na ellir ei hadennill gan CThEF. Eithrir TAW dderbyniadwy rhag incwm.

Beirniadaethau a Rhagdybiaethau Critigol

Barn allweddol ar weithredu polisiâu cyfrifyddu

Nid yw polisiâu cyfrifyddu ond yn berthnasol i drafodion sy'n ymwneud â'r Cyngor. Wrth roi polisiâu ar waith, rhaid i'r Cyngor wneud beirniadaethau penodol am drafodion cymhleth neu'r rhai sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynghylch y dyfodol. Mae'r beirniadaethau critigol a wneir yn y Datganiad Cyfrifon fel a ganlyn:

Nid yw polisiâu cyfrifyddu ond yn berthnasol i drafodion sy'n ymwneud â'r Cyngor. Wrth roi polisiâu ar waith, rhaid i'r Cyngor wneud beirniadaethau penodol am drafodion cymhleth neu'r rhai sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynghylch y dyfodol. Mae'r beirniadaethau critigol a wneir yn y Datganiad Cyfrifon fel a ganlyn:

- mae llawer o ansicrwydd o hyd ynghylch lefelau incwm a gwariant y Cyngor a'i is-gwmnïau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn dynodi y gallai'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau o ddarpariaeth gwasanaeth amharu ar asedau'r Cyngor.
- yn 2014/15, esboniodd CIPFA y gofynion o ran cydnabod eiddo ysgolion ar Fantolenni'r Cyngor. Amlygodd hyn yr angen i 'reoli' asedau, gyda meini prawf allweddol i gydnabod perchnogaeth gyfreithiol. Mae'r Cyngor yn cynnwys Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr, Ysgolion Gwirfoddol a Reolir ac Ysgolion Sefydledig yn ei fantolen dim ond os yw'n berchen ar y tir ac y gall gyfarwyddo defnydd o'r asedau. Yn y mwyafrif o achosion mae'r rhain ym mherchnogaeth cyrff crefyddol neu ymddiriedolwyr neu gorff llywodraethu'r ysgol.

Rhagdybiaethau am y dyfodol a ffynonellau eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigurau a amcangyfrifir sy'n seiliedig ar ragdybiaethau am y dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Er bod y rhain yn ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol, canllawiau proffesiynol a ffactorau perthnasol eraill, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol. Mae'r prif eitemau ym Mantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2023 lle mae perygl o addasiadau yn y blynyddoedd ariannol yn y dyfodol fel a ganlyn:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith Petai'r Canlyniadau Gwirioneddol yn Wahanol i'r Rhagdybiaethau
Prisio, lle bo angen, asedau Eiddo, Peiriannau ac Offer, Asedau Treftadaeth ac Eiddo Buddsoddi	<p>Mae prisio budd eiddo yn cynnwys asesu nifer o bethau fel cyflwr y farchnad, oes ddefnyddiol, cost ailadeiladu, asesu cyflwr, a'r defnydd o ffactorau disgownt ar gyfer tai cymdeithasol ac ati. Cynhelir prisiannau gan syrfewr siartredig cymwys, neu arbenigwyr yn y maes perthnasol, yn unol â'r Datganiadau Arfer a Nodiadau Canllaw a nodir yn Safonau Prisio (Y Llyfr Coch) Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) ac unrhyw ganllawiau perthnasol eraill.</p> <p>Bydd dull y Cyngor o gynnal prisiadau'n amlach na'r cyfnod o 5 mlynedd o leiaf sy'n ofynnol gan God CIPFA yn sicrhau bod newidiadau ym mhob amrywiad sy'n effeithio ar brisiad yn cael eu cofnodi cyn gynted â phosibl yn y prisiad llawn a phroffesiynol nesaf.</p>	<p>Mae angen i unrhyw newidiadau i brisiadau ac unrhyw gostau dibrisiant cysylltiedig i wasanaethau ar gyfer asedau anghyfredol gael eu diystyru yn y cyfrifon hyn fel na chânt effaith ar y Dreth Gyngor neu renti.</p>
Asedau Offerynnau Ariannol	<p>Caiff y rhain eu hadolygu'n flyneddol am amhariad sylweddol gan ddefnyddio data fel risg hanesyddol o ddiffyg ac adolygiadau eraill o adenilladwyedd.</p> <p>Ar gyfer asedau ariannol nad ydynt wedi'u dyfynnu ar gyfnewidfa gydnabyddedig neu lle mae'n anodd darparu prisiadau cyfrifo e.e. prisiadau o gyfranddaliadau'r Cyngor yn Cardiff City Transport Services Ltd. ystyrir bod y gwerth teg yn Werth Net.</p>	<p>Nid yw unrhyw newid yng ngwerth teg Cardiff City Transport Services Ltd yn cael unrhyw effaith ar y dreth gyngor gan fod newidiadau'n cael eu hadlewyrchu gan newid cyfatebol yn y Gronfa Ailbrizio Offerynnau Ariannol Wrth Gefn.</p>
Darpariaethau	<p>Mae'r Cyngor yn gwneud nifer o ddarpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau y gallai eu hwynebu pan mae modd gwneud amcangyfrif rhesymol o werth ar ddyddiad y fantolen. Yn y mwyafrif o achosion mae'r rhain yn destun hawliadau cyfreithiol, fel y rheini ar gyfer yswiriant. Mae darpariaethau mewn perthynas â safleoedd tirlenwi yn destun lefel amcangyfrif uchel, yn bennaf oherwydd hyd y cyfnod y cânt eu hystyried. Defnyddir cyngor mewnlol ac allanol proffesiynol i bennu angen a gwerth darpariaethau.</p>	<p>Caiff canlyniadau rhagdybiaethau effaith ar yr Alldro yn y dyfodol, ond oherwydd natur ansicr y digwyddiadau hyn, mae'n anodd eu mesur.</p>
Ôl-ddyledion	<p>Roedd symiau'n ddyledus i'r Awdurdod am eitemau megis dyledwyr amrywiol, y Dreth Gyngor, Ardrethi Annomestig a rhenti. Ar ôl ystyried tueddiadau wrth gasglu yn y gorffennol a newidiadau perthnasol eraill a allai effeithio ar y gallu i gasglu, rhagdybir lefel o amhariad neu ddarpariaeth ar gyfer colledion credyd disgwylidig. Fodd bynnag, nid yw'n sicr y byddai'r lwfans amhariad hwn yn ddigonol gan na all y Cyngor asesu â sicrwydd pa ddyledion gaiff eu casglu neu beidio.</p>	<p>Bydd gwelliannau wrth gasglu'n gwella'r sefyllfa Alldro ac adrodd yn y dyfodol, ond pan fo cwsmeriaid yn cael trafferth talu, bydd angen cynnydd yn lefel y darpariaethau sydd eisoes wedi'u neilltuo.</p>

Eitem	Ansicrwydd	Effaith Petai'r Canlyniadau Gwirioneddol yn Wahanol i'r Rhagdybiaethau
	Mae sefyllfa economaidd bresennol wedi gwneud amcangyfrif amhariad dyled yn anos gan fod mwy o ansicrwydd ynghylch hyfywedd economaidd dyledwyr ac felly eu gallu i setlo eu dyledion a allai fod yn ddigonol neu beidio.	
Rhwymedigaeth Pensiwn	<p>Mae amcangyfrif rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o feirniadaethau cymhleth o ran y gyfradd ostyngol a ddefnyddir, chwyddiant, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marw ac elw disgwylidig ar asedau'r gronfa pensiwn. Mae hyn hefyd yn cynnwys anwadalwch y farchnad a achosir gan ffactorau geowleidyddol a macro-economaidd.</p> <p>Defnyddir actiwariaid proffesiynol i roi cyngor arbenigol i'r Cyngor ar y rhagdybiaethau i'w defnyddio.</p>	Mae'n anodd mesur yr effeithiau ar rwymedigaeth pensiwn net o newidiadau mewn tybiaethau unigol, gan y gallant arwain at amrywiadau lluosog i'r ffigur. Darperir dadansoddiad sensitifrwydd yn Nodyn 13.



Datganiadau Ariannol Craidd a Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol



CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

STRONGER
FAIRER
GREENER



Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r datganiad hwn yn cofnodi holl incwm a gwariant y Cyngor drwy gydol y flwyddyn ac o ganlyniad mae'n dangos cost cyfrifyddu darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol. Mae'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllido (Nodyn 2) yn dangos sut cafodd y cyllid sydd ar gael i'r Cyngor ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir o dan Arferion Cyfrifyddu sy'n Gyffredinol Dderbyniol (ACGDd).

2021/22				2022/23			
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Nodyn	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£000	£000	£000			£000	£000	£000
30,048	(26,007)	4,041	Rheolaeth Gorfforaethol		16,471	(8,340)	8,131
104,625	(45,208)	59,417	Datblygu Economaidd		140,974	(40,273)	100,701
437,111	(111,419)	325,692	Addysg a Dysgu Gydol Oes		461,993	(106,644)	355,349
9,633	(2,015)	7,618	Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol		9,951	(652)	9,299
9,314	(5,959)	3,355	Awdurdod yr Harbwr		10,005	(6,862)	3,143
236,580	(178,996)	57,584	Tai a Chymunedau		235,524	(181,024)	54,500
96,295	(92,571)	3,724	Cyfrif Refeniw Tai		82,433	(94,991)	(12,558)
10,097	(6,793)	3,304	Perfformiad a Phartneriaethau		17,700	(13,944)	3,756
76,295	(44,360)	31,935	Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd		79,187	(45,521)	33,666
45,573	(25,730)	19,843	Adnoddau		44,681	(23,425)	21,256
172,719	(52,256)	120,463	Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion		169,349	(31,023)	138,326
100,358	(25,175)	75,183	Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant		116,354	(21,390)	94,964
259	(4,484)	(4,225)	Cyfrif Refeniw Cryno		2,062	(952)	1,110
1,328,907	(620,973)	707,934	Cost Net Gwasanaethau		1,386,684	(575,041)	811,643
42,523	0	42,523	Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru	3	45,047	0	45,047
458	0	458	Praeseptau Cyngor Cymuned		495	0	495
18,632	0	18,632	Ardollau a Chyfraniadau		19,040	0	19,040
719	(1,965)	(1,246)	(Elw)/colled ar werthu asedau anghyfredol		2,150	(4,622)	(2,472)
62,332	(1,965)	60,367	Gwariant Gweithredu Arall		66,732	(4,622)	62,110
34,108	0	34,108	Llog yn Daladwy ar Ddyled	15	34,175	0	34,175
22,180	0	22,180	Llog ar rwymedigaeth budd ddiffiniedig net/(ased)	13	22,304	0	22,304
0	(388)	(388)	Llog ac Incwm Buddsoddi	15	0	(3,589)	(3,589)
30,453	(12,658)	17,795	Incwm a Gwariant mewn perthynas ag Eiddo Buddsoddi a newidiadau yn eu gwerth teg	14	15,315	(20,815)	(5,500)
0	0	0	Symudiad mewn Offerynnau Ariannol		0	(63)	(63)
86,741	(13,046)	73,695	Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi		71,794	(24,467)	47,327
0	(127,032)	(127,032)	Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf Cydnabyddedig	24	0	(114,112)	(114,112)
0	(373,452)	(373,452)	Grant Cynnal Refeniw		0	(413,544)	(413,544)
0	(121,062)	(121,062)	Ardrethi Annomestig	6	0	(131,182)	(131,182)
3,081	(240,341)	(237,260)	Incwm Treth Gyngor	5	1,520	(248,520)	(247,000)
0	(6,022)	(6,022)	Stocrestrau a Roddwyd		1,273	0	1,273
116	0	116	Treth Gorfforaeth (BDdPRC)		0	(37)	(37)
3,197	(867,909)	(864,712)	Trethiant ac Incwm o Grantiau Amhenodol		2,793	(907,395)	(904,602)

Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

2021/22				2022/23			
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Nodyn	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£000	£000	£000			£000	£000	£000
1,481,177	(1,503,893)	(22,716)	(Gwarged)/Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau		1,528,003	(1,511,525)	16,478
		(32,036)	(Gwarged)/Diffyg ar ailbriso asedau anghyfredol	26			(19,206)
		(3,475)	(Gwarged)/Diffyg ar y Gronfa Ailbriso Offerynnau Ariannol Wrth Gefn				(1,376)
		(307,373)	Ailfesur rhwymedigaeth/(ased) budd diffiniedig net	13			(726,020)
		(342,884)	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall				(746,602)
		(365,600)	(Gwarged)/Diffyg Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				(730,124)

Mae dadansoddiad 2021/22 o Gost Net Gwasanaethau wedi'i ddiwygio i ystyried y newidiadau mewn strwythur yn 2022/23.

Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn

Rhennir y datganiad yn Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy ac Annefnyddiadwy. Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy yw'r rhai y gall y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau megis y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn a'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac ni ellir defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy megis y Gronfa Bensiwn a'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf gan eu bod at ddibenion cyfrifyddu yn unig.

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei gyflogeion, mae'r Cyngor yn cynnig buddion ymddeol. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy nes i gyflogeion ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud taliadau ac mae angen i'r ymrwymiad hwn gael ei ddatgelu ar yr adeg y mae cyflogeion yn ennill eu hawliad yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cyfranogi yn y cynlluniau pensiwn canlynol sy'n rhoi buddion i aelodau sy'n gysylltiedig â thâl a gwasanaeth:

- Cynllun Pensiwn Athrawon
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Cynllun Pensiwn Cardiff City Transport Services

13.1 Cynllun Pensiwn Athrawon

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon onid ydynt yn eu hepgor eu hunain ohono. Fe'i gweinyddir gan yr Asiantaeth Pensiynau Athrawon ar ran yr Adran Addysg. Mae'n gynllun budd diffiniedig ac er nad yw'n cael ei ariannu, defnyddir cronfa dybiannol ar gyfer cyfrifo cyfradd gyfrannu'r cyflogwr. Fodd bynnag, nid oes modd i'r Cyngor nodi ei gyfran o rwymedigaethau sylfaenol y cynllun sy'n deillio o'i gyflogeion ei hun felly at ddibenion y Datganiad Cyfrifon fe'i cyfrifir ar yr un sail â chynllun cyfraniad diffiniedig h.y. y gost a godir i Gost Net Gwasanaethau yn y flwyddyn yw cost cyfraniadau'r Cyngor i'r cynllun.

Yn 2022/23 talodd y Cyngor £33.870 miliwn mewn perthynas â chostau pensiwn athrawon, sy'n cynrychioli 23.7% o dâl pensiynadwy athrawon ar gyfer 2022/23 (£32.252 miliwn yn cynrychioli 23.7% o dâl pensiynadwy athrawon ar gyfer 2021/22). Yn ogystal, mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddion ychwanegol a ddyfernir ar ymddeoliad cynnar y tu allan i'r cynllun Athrawon. Mae'r buddion hyn yn cael eu cronni'n llawn yn y rhwymedigaeth pensiwn o ran rhwymedigaethau heb eu hariannu.

13.2 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Caiff cyflogeion y Cyngor nad ydynt yn addysgu eu cofrestru'n awtomatig oni bai eu bod yn dewis hepgor eu hunain o ymuno â Chronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro (Y Gronfa), y mae'r Cyngor yn Awdurdod Gweinyddu arno. Mae hwn yn gynllun budd diffiniedig yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy cyfartalog gyrfa. Mae'r Cyngor a'r cyflogeion yn talu cyfraniadau i'r Gronfa, wedi'u cyfrifo ar lefel y bwriedir iddi fantoli ei rhwymedigaethau a'i hasedau.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun a ariennir h.y. mae ganddo asedau yn ogystal â rhwymedigaethau. Hefyd, mae gan y Cyngor rhwymedigaethau pensiwn heb eu hariannu o ran ei ymrwymiad i wneud taliadau'n uniongyrchol i bensiynwyr penodol, sy'n deillio o drefniadau a wnaed mewn blynyddoedd cynt i ddyrannu buddion gwell.

Mae'r datgeliadau isod yn ymwneud â'r Gronfa a, lle y bo'n berthnasol, fuddion penodol nas ariennir a ddarperir gan y Cyflogwr fel y cyfeirir ato uchod.

Yn ystod 2020/21 ymrwymodd y Cyngor i Weithred Cytundeb sy'n cadarnhau cynhwysiad rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) Cardiff City Transport Services Ltd fel y bwriadwyd yn wreiddiol ar greu'r Cwmni ym 1986.

Trafodion sy'n ymwneud â buddion ymddeol

Cwblhawyd y datganiadau cyfrifyddu craidd yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 - Buddiannau Cyflogeion (SCRh19) ac, ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, maent yn cynnwys y gost i'r Cyngor o hawliadau pensiwn a enillwyd ar gyfer y flwyddyn yn hytrach na chost cyfraniadau a delir i'r Gronfa. Cydnabuwyd cost yr hawliadau a enillwyd, sef y Gost Gwasanaeth Cyfredol, yng Nghost Net Gwasanaethau'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'r taliad sydd ei angen yn erbyn y Dreth Gyngor o ran pensiynau yn seiliedig ar y swm sy'n daladwy i'r gronfa pensiwn yn ystod y flwyddyn. I gyflawni hyn, caiff costau SCRh19 eu gwrthdroi yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u disodli gan gyfraniad taladwy cyflogwyr yn ystod y flwyddyn.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r trafodion archebu ar gyfer CPLIL a wnaed gan Gyngor Caerdydd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

2021/22				2022/23		
Cynllun a ariennir	Rhwymedigaethau nas ariennir	Cyfanswm		Cynllun a ariennir	Rhwymedigaethau nas ariennir	Cyfanswm
£000	£000	£000	£000	£000	£000	
			Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DIGC)			
			Cost Net Gwasanaethau			
104,900	0	104,900	Cost gwasanaeth cyfredol	108,573	0	
1,470	0	1,470	Costau gwasanaeth yn y gorffennol	1,130	0	
			Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi			
21,260	910	22,170	Llog ar rwymedigaeth budd ddifiniedig net/(ased)	21,320	980	
127,630	910	128,540	Tâl net i DIGC	131,023	980	
			Ailfesur cynnwys rhwymedigaeth ddiffiniedig net			
(124,670)	0	(124,670)	Enillion ar asedau cynllun ac eithrio symiau wedi eu cynnwys mewn llog net	63,503	0	
(160,590)	(1,210)	(161,800)	(Enillion)/colledion actiwaraid oherwydd newid mewn rhagdybiaethau ariannol	(926,800)	(5,780)	
(24,350)	(560)	(24,910)	(Enillion)/colledion actiwaraid oherwydd newid mewn rhagdybiaethau demograffig	(5,200)	(650)	
7,570	(3,210)	4,360	Profiad ac addasiadau actiwaraid eraill	145,267	3,290	
(302,040)	(4,980)	(307,020)	Cyfanswm ailfesuriadau a gydnabuwyd dan Incwm Cynhwysfawr Arall	(723,230)	(3,140)	
(174,410)	(4,070)	(178,480)	Cyfanswm a godwyd i'r DIGC	(592,207)	(2,160)	

2021/22				2022/23		
Cynllun a ariennir £000	Rhwymedigaethau nas ariennir £000	Cyfanswm £000		Cynllun a ariennir £000	Rhwymedigaethau nas ariennir £000	Cyfanswm £000
			Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn			
(127,630)	(910)	(128,540)	Gwrthdroi taliadau net ar gyfer buddion ymddeol yn unol â SCRh19	(131,023)	(980)	(132,003)
			Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn y Dreth Gyngor o ran pensiynau ar gyfer y flwyddyn			
45,850	0	45,850	Cyfraniadau cyflogwyr yn daladwy i'r cynllun	50,353	0	50,353
0	2,790	2,790	Taliadau o ran rhwymedigaethau pensiwn nas ariennir *	0	2,830	2,830
45,850	2,790	48,640	Cyfanswm	50,353	2,830	53,183

* Wedi'u cynnwys yn y ffigur hwn mae buddion gwell a roddir i athrawon y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt a rhai rhwymedigaethau nas ariennir a weinyddir gan Gyngor Rhondda Cynon Taf (RhCT) ar ran y Cyngor.

Mae'r rhwymedigaeth pensiwn net a adroddir yn y cyfrifon yn cynnwys rhwymedigaeth bosibl sy'n gysylltiedig â dyfarniad McCloud. Mae'r dull o ymdrin â'r elfen hon o'r prisiad gan actiwari'r Gronfa Bensiwn, Aon, yn gyson â'r dull a argymhellir.

Cysoni Statws a Ariennir i'r Fantolen

31 Mawrth 2022				31 Mawrth 2023		
Cynllun a ariennir £000	Rhwymedigaet hau nas ariennir £000	Cyfansw m £000		Cynllun a ariennir £000	Rhwymedigaet hau nas ariennir £000	Cyfanswm £000
(2,476,000)	(44,720)	(2,520,720)	Rhwymedigaethau gwerth agoriadol cyfredol	(2,412,110)	(37,860)	(2,449,970)
(104,900)	0	(104,900)	Cost gwasanaeth cyfredol	(108,573)	0	(108,573)
(51,540)	(910)	(52,450)	Cost llog	(64,520)	(980)	(65,500)
(13,410)	0	(13,410)	Cyfraniadau gan gyfranogwyr	(15,030)	0	(15,030)
177,330	4,980	182,310	Ailfesuriadau mewn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	786,733	3,140	789,873
57,880	2,790	60,670	Buddion net a delir *	61,550	2,830	64,380
(1,470)	0	(1,470)	Costau gwasanaeth yn y gorffennol	(1,130)	0	(1,130)
(2,412,110)	(37,860)	(2,449,970)	Gwerth cyfredol rhwymedigaethau wrth gau	(1,753,080)	(32,870)	(1,785,950)
1,440,850	0	1,440,850	Gwerth teg agoriadol asedau	1,597,220	0	1,597,220
30,280	0	30,280	Incwm llog	43,200	0	43,200
124,710	0	124,710	Enillion/(colledion) ailfesur	(63,503)	0	(63,503)
45,850	2,790	48,640	Cyfraniadau gan gyflogwr	50,353	2,830	53,183
13,410	0	13,410	Cyfraniadau gan gyfranogwyr	15,030	0	15,030
(57,880)	(2,790)	(60,670)	Buddion net a delir *	(61,550)	(2,830)	(64,380)

1,597,220	0	1,597,220	Gwerth teg asedau wrth gau	1,580,750	0	1,580,750
(814,890)	(37,860)	(852,750)	Ased/(rhwymedigaeth) pensiwn net	(172,330)	(32,870)	(205,200)

*Mae'r ffigurau ar gyfer buddion net a delir yn cynnwys llif arian parod net allan o'r Gronfa o ran y cyflogwr ac eithrio cyfraniadau ac unrhyw gyfandaliadau marwolaeth yn y swydd a delir gan gynnwys darpariaeth fras ar gyfer cost ddisgwyliedig cyfandaliadau marwolaeth yn y swydd.

Mae'n bwysig nodi mai cipolwg ar y sefyllfa yw hon, ar 31 Mawrth 2023. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gynllun budd diffiniedig, sy'n golygu nad yw buddion aelodau'n gysylltiedig â pherfformiad y farchnad stoc. Mae'r Gronfa Bensiwn yn fuddsoddwr hirdymor a gall aelodau fod yn sicr bod cyfraniadau'n cael eu hadolygu fel rhan o'r prisiaid bob tair blynedd.

Roedd gostyngiad sylweddol yn y rhwymedigaeth pensiwn ar 31 Mawrth 2023 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn bennaf oherwydd y newid yn y cyfraddau llog sy'n effeithio ar y gyfradd ostyngol a ddefnyddir yn y tybiaethau actiwaraid fel y dangosir yn y tabl isod sy'n nodi'r sail ar gyfer amcangyfrif asedau a rhwymedigaethau.

Cyfraniadau ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2024

Cynllun Llywodraeth Leol – amcangyfrifir bod cyfraniadau rheolaidd cyflogwyr at y Gronfa ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024 yn £50.550 miliwn. Gallai cyfraniadau ychwanegol hefyd ddod i'r amlwg o ran unrhyw ddisgresiwn gan gyflogwr i wella buddion aelodau yn y Gronfa dros y cyfnod cyfrifyddu nesaf.

Rhwymedigaethau nas ariennir – yn ystod y cyfnod cyfrifyddu yn dod i ben 31 Mawrth 2024 mae'r Cyngor yn disgwyl talu £3.261 miliwn yn uniongyrchol i fuddiolwyr.

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau a rhwymedigaethau

Mae'r prif ragdybiaethau CPLIL a ddefnyddiwyd gan yr actiwaraid cymwys annibynnol wrth ddiweddaru ffigurau prisiant llawn Mawrth 2022, fel ar 31 Mawrth 2023, at ddibenion SCRh19, wedi eu nodi yn y tabl canlynol:

31 Mawrth 2022	Tybiaethau	31 Mawrth 2023
	Hirhoedledd yn 45 oed ar gyfer pensiynwyr cyfredol (blynnyddoedd)	
23.2	Dynion	23.2
26.0	Menywod	25.8
	Hirhoedledd yn 65 oed ar gyfer pensiynwyr cyfredol (blynnyddoedd)	
22.1	Dynion	22.6
24.6	Menywod	24.7
	Ardrethi	
3.0%	Cyfradd chwyddiant – Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD)	2.7%
4.0%	Cyfradd cynnydd cyffredinol mewn cyflogau	3.7%
3.0%	Cyfradd cynnydd i bensiynau wrth eu talu	2.7%
3.0%	Cyfradd cynnydd i bensiynau gohiriedig	2.7%
2.7%	Cyfradd ostyngol ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun	4.7%

Dyrannu Asedau

Mae hollt fras yr asedau i'r Gronfa yn ei chyfanrwydd wedi'i dangos yn y tabl canlynol. Mae'r dyraniad asedau yn y gronfa hon yn dybiannol a rhagdybir bod yr asedau'n cael eu buddsoddi'n unol â buddsoddiadau'r Gronfa a nodir isod at ddibenion cyfrifo'r elw i'w osod i'r asedau tybiannol hynny.

Nid yw'r Cyngor yn buddsoddi mewn eiddo nac asedau sy'n gysylltiedig â'i hun. Fodd bynnag, mae'n bosib y gellid buddsoddi mewn asedau mewn cyfranddaliadau sy'n gysylltiedig â rhai o'r cyflogwyr sector cyhoeddus sy'n cymryd rhan yn y Gronfa os yw'n ffurfio rhan o strategaeth fuddsoddi gytbwys.

31 Mawrth 2022			Asedau	31 Mawrth 2023		
Dyfynnwyd %	Heb ei ddyfynnu %	Cyfanswm %		Dyfynnwyd %	Heb ei ddyfynnu %	Cyfanswm %
63.8	3.7	67.5	Ecwitiâu	63.4	4.5	67.9
6.9	0.0	6.9	Eiddo	7.2	0.0	7.2
9.2	0.0	9.2	Bondiau Llywodraeth	8.8	0.0	8.8
8.4	0.0	8.4	Bondiau Corfforaethol	7.6	0.0	7.6
5.7	0.0	5.7	Credyd Aml-Ased	5.3	0.0	5.3
2.3	0.0	2.3	Arian Parod	3.2	0.0	3.2
96.3	3.7	100.0	Cyfanswm	95.5	4.5	100.0

Hanes Gwerthoedd Asedau, Gwerth Presennol Rhwymedigaethau a Gwarged/(Diffyg)

	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023
	£000	£000	£000	£000	£000
Gwerth teg asedau	1,317,980	1,183,130	1,440,850	1,597,220	1,580,750
Gwerth cyfredol rhwymedigaethau a ariennir	(1,931,978)	(1,974,720)	(2,476,000)	(2,412,110)	(1,753,080)
Gwerth cyfredol rhwymedigaethau nas ariennir	(48,720)	(44,120)	(44,720)	(37,860)	(32,870)
Gwarged/(diffyg)	(662,718)	(835,710)	(1,079,870)	(852,750)	(205,200)

Dadansoddiad Sensitifrwydd o Werth Presennol y Rhwymedigaethau a Ariennir

Ceir canlyniadau sensitifrwydd isod. Ym mhob achos, dim ond y rhagdybiaeth a nodir a gaiff ei haddasu; mae'r lleill yn aros yr un fath. Nid yw sensitifrwydd buddion nas ariennir wedi'i gynnwys ar sail perthnasedd.

Rhwymedigaeth budd diffiniedig a ariennir £205,200,000	+0.1% y flwyddyn		-0.1% y flwyddyn	
Newid mewn tybiaethau ar werth presennol y rhwymedigaethau budd diffiniedig a ariennir	£000	% Cynnydd / Gostyngiad i Rwymedigaeth Budd Diffiniedig		£000
Addasiad i'r gyfradd ostyngol	1,723,280	-1.7%	1.7%	1,782,880
Addasiadau i'r gyfradd cynyddu cyflog	1,756,590	0.2%	-0.2%	1,749,570
Addasiad i gyfradd cynnydd pensiwn	1,779,380	1.5%	-1.5%	1,726,780
	-1 flwyddyn		1 flwyddyn	

Addasiad i'r gyfradd marwolaethau	1,800,410	2.7%	-2.7%	1,705,750
-----------------------------------	-----------	------	-------	-----------

13.3 Cynlluniau Pensiwn Bws Caerdydd

Ym mis Mawrth 2021, ymrwymodd y Cyngor i Drefniant Dosrannu Hyblyg (TDH) mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Cardiff City Transport Services Limited (Bws Caerdydd). O dan y trefniant hwn, peidiodd y cwmni â bod yn gyflogwr y cynllun a daeth y Cyngor yn brif gyflogwr y Cynllun ac yn unig gyflogwr statudol y cynllun. Mae'r cynllun yn ymwneud â dau gynllun pensiwn a ariennir drwy fudd diffiniedig ac a weinyddir gan Ymddiriedolwyr o dan Weithred a sydd ar gau i unrhyw newydd-ddyfodiaid a chroniadau yn y dyfodol. Buddsoddir asedau a ddelir mewn cronfeydd trydydd parti a reolir yn broffesiynol. Mae lefel y cyfraniadau a wneir i'r cynlluniau a chost y cyfraniadau a gynhwysir yn y datganiadau ariannol yn seiliedig ar argymhellion actiwaiaid annibynnol a chaiff ei diweddarau fel rhan o'r prisiad tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2024. Mae'r trosglwyddiad hefyd yn cynnwys cynllun cyfraniad diffiniedig sy'n cynnwys isafswm elw gwarantiedig ar gyfer ei aelodau, sydd hefyd ar gau i aelodau newydd.

Cysoni Statws a Ariennir i'r Fantolen

31 Mawrth 2022 £000	Cynllun Pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig Bws Caerdydd	31 Mawrth 2023 £000
(13,138)	Rhwymedigaethau gwerth agoriadol cyfredol	(12,980)
(242)	Cost llog	(342)
(468)	(Enillion)/colledion ailfesur	4,768
868	Buddion net a delir	363
(12,980)	Gwerth cyfredol rhwymedigaethau wrth gau	(8,191)
11,891	Gwerth teg agoriadol asedau	10,925
218	Incwm llog	286
(316)	Enillion/(colledion) ailfesur	(3,204)
(868)	Buddion net a delir	(363)
10,925	Gwerth teg asedau wrth gau	7,644
(2,055)	Ased/(rhwymedigaeth) pensiwn net	(547)

31 Mawrth 2022 £000	Cynllun Pensiwn Budd Diffiniedig Bws Caerdydd	31 Mawrth 2023 £000
(40,045)	Rhwymedigaethau gwerth agoriadol cyfredol	(38,142)
(751)	Cost llog	(1,012)
1,596	(Enillion)/colledion ailfesur	10,310
1,058	Buddion net a delir	1,323
(38,142)	Gwerth cyfredol rhwymedigaethau wrth gau	(27,521)
40,694	Gwerth teg agoriadol asedau	39,942
765	Incwm llog	1,064
(459)	Enillion/(colledion) ailfesur	(12,224)
(1,058)	Buddion net a delir	(1,323)
39,942	Gwerth teg asedau wrth gau	27,459
1,800	Ased/(rhwymedigaeth) pensiwn net	(62)

31 Mawrth 2022 %	Cynllun Pensiwn Budd Diffiniedig Bws Caerdydd Asedau	31 Mawrth 2023 %
0.0	Ecwitiau	19.7
24.3	Cyllid Twf a Arallgyfeirir	19.5
21.7	Arian Parod a Buddsoddiadau a Yrrir gan Atebolrwydd	12.4
54.0	Bondiau	48.4
100.0	Cyfanswm	100.0

14. Asedau Anghyfredol

Eiddo, Peiriannau ac Offer	Anheddau' r Cyngor	Tir ac Adeiladau Eraill	Cerbydau, Peiriannau ac Offer	Asedau Cymunedol	Asedau Gwarged	EPO sy' n cael eu hadeiladu	Cyfanswm Eiddo, Peiriannau ac Offer
Symudiadau o ran Cost neu Werth	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
1 Ebrill 2021	630,782	851,257	49,430	19,897	74,686	66,854	1,692,906
Ychwanegiadau	28,529	27,589	16,678	727	8,928	56,727	139,178
Cynnydd/(Gostyngiad) Ailbriso a gydnabuwyd yn y CAWG*	11,734	4,629	0	0	(839)	0	15,524
Cynnydd/(Gostyngiad) Ailbriso a gydnabuwyd yn y GDdDG**	(30,337)	(50,081)	0	(96)	(5,459)	0	(85,973)
Colledion/Gwrthdroadau Amhariad i'r CAWG	0	(541)	0	0	(40)	0	(581)
Colledion/Gwrthdroadau Amhariad i GDdDG	600	(1,374)	0	0	(560)	(36)	(1,370)
Dadgydnabod - Gwarediadau	0	(781)	(3,451)	0	0	(36)	(4,268)
Ailddosbarthu (i)/o Cedwir i'w Gwerthu	0	0	0	0	395	0	395
Ailddosbarthiadau eraill - Trosglwyddiadau	12,292	6,592	2,280	3,048	(803)	(34,289)	(10,880)
31 Mawrth 2022	653,600	837,290	64,937	23,576	76,308	89,220	1,744,931
Ychwanegiadau	30,458	28,746	7,244	1,704	240	86,794	155,186
Cynnydd/(Gostyngiad) Ailbriso a gydnabuwyd yn y CAWG	846	3,584	0	0	377	0	4,807
Cynnydd/(Gostyngiad) Ailbriso a gydnabuwyd yn y GDdDG	0	(8,146)	0	0	(660)	0	(8,806)
Colledion/Gwrthdroadau Amhariad i'r CAWG	0	(112)	0	0	0	0	(112)
Colledion/Gwrthdroadau Amhariad i GDdDG	(1,362)	(17,011)	0	0	(3,786)	(13)	(22,172)
Dadgydnabod - Gwarediadau	0	(1)	(5,248)	0	(3,450)	(13)	(8,712)
Ailddosbarthu (i)/o Cedwir i'w Gwerthu	0	0	0	0	(4,000)	0	(4,000)
Ailddosbarthiadau eraill - Trosglwyddiadau	15,276	(784)	636	168	1,743	(20,417)	(3,378)
31 Mawrth 2023	698,818	843,566	67,569	25,448	66,772	155,571	1,857,744
Symudiadau mewn Dibrisiant/Amhariad							
1 Ebrill 2021	9,325	50,112	20,962	0	0	0	80,399
Tâl Dibrisiant	9,534	22,841	8,317	0	0	0	40,692
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu allan ar Amhariad	0	0	0	0	0	0	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu allan i'r CAWG	0	(17,093)	0	0	0	0	(17,093)
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu allan i'r GDdDG	(9,324)	(32,939)	0	0	0	0	(42,263)
Dadgydnabod - Gwarediadau	0	(781)	(3,440)	0	0	(36)	(4,257)
Ailddosbarthiadau - Trosglwyddiadau	600	0	0	0	(600)	0	0
31 Mawrth 2022	10,135	22,140	25,839	0	(600)	(36)	57,478
Tâl Dibrisiant	10,439	25,754	8,646	0	0	0	44,839
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu allan ar Amhariad	0	0	0	0	0	0	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu allan i'r CAWG	0	(5,603)	0	0	(21)	0	(5,624)
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu allan i'r GDdDG	0	(12,674)	0	0	0	0	(12,674)
Dadgydnabod - Gwarediadau	0	(1)	(5,248)	0	(3,450)	(13)	(8,712)
Ailddosbarthiadau - Trosglwyddiadau	0	(24)	0	0	24	0	0
31 Mawrth 2023	20,574	29,592	29,237	0	(4,047)	(49)	75,307
Gwerth Ased Net							
Ar 31 Mawrth 2022	643,465	815,150	39,098	23,576	76,908	89,256	1,687,453
Ar 31 Mawrth 2023	678,244	813,974	38,332	25,448	70,819	155,620	1,782,437

*CAWG Cronfa Ailbriso Wrth Gefn

**GDdDG Gwarged neu Ddiffyg o ran Darparu Gwasanaethau

2021/22	Gwerth Ased Net	2022/23
304,749	Asedau Seilwaith	310,542
1,687,453	Asedau EPO Eraill	1,782,437
1,992,202	Cyfanswm Asedau EPO	2,092,979

Yn unol â'r Rhyddhad Dros Dro a gynigir gan y diweddariad i'r Cod ar asedau seilwaith nid yw'r nodyn hwn yn cynnwys datgelu cost gros a dibrisiant cronedig ar gyfer asedau seilwaith oherwydd bod arferion adrodd hanesyddol a diffygion gwybodaeth canlyniadol yn golygu na fyddai hyn yn cynrychioli'r sefyllfa asedau yn gywir i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol.

Fel y manylir yn y canllawiau diwygiedig sy'n berthnasol i bob awdurdod, mae'r awdurdod wedi dewis peidio â datgelu'r wybodaeth hon gan fod yr arferion a adroddwyd yn flaenorol a diffygion gwybodaeth canlyniadol yn golygu nad yw cost gros a dibrisiant cronedig yn cael eu mesur yn gywir ac ni fyddai darparu sail i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol wneud penderfyniadau economaidd neu benderfyniadau eraill sy'n ymwneud ag asedau seilwaith.

Mae'r awdurdod wedi penderfynu, yn unol â Rheoliad 24L Cymru o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd), bod y symiau cario i'w dadgydnabod ar gyfer asedau seilwaith pan fo gwariant newydd yn ddim.

Mae Gwerth Ased Net Asedau Seilwaith fel a ganlyn:

2021/22 £000		2022/23 £000
285,682	Gwerth Ased Net ar 1 Ebrill	304,749
33,063	Ychwanegiadau	27,637
(22,701)	Dibrisiant	(23,614)
8,705	Symudiadau eraill mewn cost (Ailddosbarthiad)	1,770
304,749	Gwerth Ased Net ar 31 Mawrth	310,542

Asedau Treftadaeth

2021/22 £000		2022/23 £000
58,682	Balans ar 1 Ebrill	58,849
167	Ychwanegiadau	219
0	Cynnydd/(gostyngiad) ailbriso i'r CAWG	8,887
58,849	Balans ar 31 Mawrth	67,955

Mae gan y Cyngor asedau treftadaeth diriaethol sy'n cynnwys y tri phrif gategori hyn yn bennaf:-

- celf gyhoeddus
- henebion cofrestredig y mae'n gyfrifol amdanynt
- paentiadau, arteffactau a regalia dinesig a llyfrau hynafiaethol

Mae'r nodiadau isod yn dynodi sut i drin pob un o'r tri chategori uchod yn y cyfrifon hyn.

Celf Gyhoeddus – mae dros 100 darn o gelf gyhoeddus y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ledled y ddinas, gan gynnwys gwaith celf rhydd a darnau arwyddocaol wedi'u hintegreiddio i ddyluniad adeiladau. Ni nodir na phrisir yr asedau hyn ar wahân ym Mantolen y Cyngor gan fod dulliau prisio arferol yn ddiffygiol o ran dibynadwyedd. Ar ben hynny, byddai costau sicrhau prisiannau i'r eitemau hyn yn anghymesur i'r buddion. Cedwir manylion am yr asedau hyn yng Nghofrestr Celf Gyhoeddus Caerdydd sydd ar gael ar wefan y Cyngor <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlyydd/Cynllunio/Cynllun-y-ddinas-a-chelf-gyhoeddus/Pages/Cynllun-y-ddinas-a-chelf-gyhoeddus.aspx>.

Henebion Cofrestredig – mae'r Cyngor yn gyfrifol am 20 o'r 31 heneb gofrestredig yn y ddinas. Rhaid diogelu'r rhain am eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant, gan gynnwys safleoedd a thomenni claddu hynafol, cestyll a chaerau, safleoedd crefyddol, amddiffynfeydd a safleoedd eraill o bwysigrwydd diwydiannol. Oni werid ar yr asedau hynny'n flaenorol, nid yw'r safleoedd hyn wedi'u cynnwys yng nghyfrifon y Cyngor o ran cost neu werth hanesyddol. O ystyried natur unigryw ac yn aml amrywiol yr asedau hyn, nid yw dulliau prisio arferol yn ddigon dibynadwy a byddai costau cael prisiannau i'r eitemau hyn yn anghymesur i'r buddion. Delir manylion am yr henebion hyn yn y daflen wybodaeth Henebion Cofrestredig yng Nghaerdydd sydd ar gael ar www.caerdydd.gov.uk/cadwraeth.

Paentiadau, arteffactau, regalia dinesig a llyfrau hynafiaethol – mae gan y Cyngor gasgliad o baentiadau, arteffactau, regalia dinesig a llyfrau hynafiaethol, y mae llawer ohono o ddiddordeb lleol. Y prif eitemau o ran nifer a gwerth yw casgliadau yng Nghastell Caerdydd sy'n adlewyrchu ei arwyddocâd hanesyddol ac yn ei ddehongli i ymwelwyr. Cronwyd eitemau eraill a gedwir mewn adeiladau cyhoeddus dros nifer o flynyddoedd. Mae paentiadau, arteffactau a regalia dinesig wedi'u cynnwys yn y fantolen ar £42.379 miliwn ac fe'u prisiwyd gan Mr. A.N. Schoon, Antiques and Fine Art Valuer yn 2022/23. Prisiwyd llyfrau hynafiaethol am y tro cyntaf i'w cynnwys yn y Cyfrifon, gan Bernard Quaritch Ltd. ar £9.101 miliwn yn 2022/23.

Polisi'r cyngor ar gaffaeliadau, gwarediadau, gofal a chadwraeth – pan fydd adnoddau'n caniatáu hynny, bydd y Cyngor yn ceisio creu, caffael a chadw adnoddau treftadaeth er budd ei ddinasyddion mewn partneriaeth â chyrff y sector cyhoeddus a phreifat gan ddefnyddio grantiau a chyfleoedd eraill ar gyfer cyllido. Mae gaffaeliadau'n brin, ond mae celf gyhoeddus yn aml yn cael ei chomisiynu fel rhan o gynlluniau adfywio.

O ran asedau a gedwir yn y castell, sicrheir bod caffael, gwaredu a gofal yn cael eu cyflawni'n unol â'r cynllun achredu amgueddfa. Mae'r gofynion statudol sydd ar berchenogion henebion cofrestredig yn debygol o wneud gwaredu asedau ym mherchenogaeth y Cyngor yn anymarferol. Cyn unrhyw waith, addasiad neu waith cloddio archeolegol a reolir, rhaid cael caniatâd gan Lywodraeth Cymru.

Eiddo Buddsoddi

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi symudiadau yng ngwerth teg eiddo buddsoddi dros y flwyddyn:

2021/22 £000		2022/23 £000
156,238	Balans ar 1 Ebrill	150,718
17,180	Ychwanegiadau	20,033
(12)	Amhariad	0
(50)	Gwarediadau	(2,150)
0	Ailddosbarthu (i)/o Cedwir i'w Gwerthu	0
2,175	Ailddosbarthiadau eraill	1,397
0	Cynnydd/(gostyngiadau) ailbriso i'r CAWG*	0

(24,813)	Cynnydd/(gostyngiadau) ailbriso i'r GDdDG**	(2,438)
150,718	Balans ar 31 Mawrth	167,560

* Cronfa Ailbriso Wrth Gefn ** Gwarged/Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau

Cyfrifwyd am yr eitemau canlynol o fewn Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2021/22 £000		2022/23 £000
(10,318)	Incwm rhent o eiddo buddsoddi	(12,066)
3,273	Treuliau gweithredu uniongyrchol sy'n deillio o eiddo buddsoddi	4,128
(7,045)	(Gwarged)/Diffyg ar Eiddo Buddsoddi	(7,938)

Asedau Anniriaethol

Crynohir symudiadau mewn asedau anniriaethol yn ystod 2022/23 isod:

2021/22 £000		2022/23 £000
	Cost neu Brisiant	
4,418	Balans ar 1 Ebrill	4,740
352	Ychwanegiadau	359
0	Ailddosbarthu - Trosglwyddiadau	209
(30)	Dadgydnabod - Gwarediadau	(2,134)
4,740	Balans ar 31 Mawrth	3,174
	Amorteiddio	
2,707	Balans ar 1 Ebrill	3,605
928	Amorteiddio	604
(30)	Dadgydnabod - Gwarediadau	(2,133)
3,605	Balans ar 31 Mawrth	2,076
	Gwerth Ased Net:	
1,135	Balans ar 31 Mawrth	1,098

Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf

Dangosir gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn yn y tabl canlynol, ynghyd ag adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Pan fo gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu yn y dyfodol drwy fenthycia, mae'n arwain at gynnydd yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (GAC), mesur o wariant cyfalaf y mae'r Cyngor yn mynd iddo yn hanesyddol y mae eto i dalu amdano. Mae darpariaeth ddarbodus ar gyfer ad-dalu benthycia allanol yn lleihau'r GAC.

2021/22 £000		2022/23 £000
858,757	Gofyniad Ariannu Cyfalaf Agoriadol*	885,949
	Gwariant Cyfalaf:	
172,241	Eiddo, Peiriannau ac Offer gan gynnwys Asedau Seilwaith	182,823
167	Asedau Treftadaeth	219
137	Asedau a Gedwir i'w Gwerthu	0
17,180	Eiddo Buddsoddi	20,033
352	Asedau Anniriaethol	359
7,751	Benthyciadau/Ecwiti	449
19,306	Gwariant ar GRAGDS	25,303
	Ffynonellau Cyllid:	
(3,781)	Derbyniadau Cyfalaf	(10,378)
(136,674)	Grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau eraill	(131,009)
0	Cyllid ychwanegol y Fargen Ddinesig	(2,600)
(3,940)	Cyfraniadau a chronfeydd refeniw wrth gefn uniongyrchol	(3,995)
(45,547)	Darpariaeth refeniw a chyfalaf ddarbodus ar gyfer ad-dalu benthyciadau	(40,825)
0	Diwygiad ar gyfer addasiadau llaw blaenorol**	10,688
885,949	Gofyniad Ariannu Cyfalaf Clo*	937,016
	Eglurhad o symudiadau yn ystod y flwyddyn:	
0	Diwygiad ar gyfer addasiadau llaw blaenorol**	10,688
2,437	Cynnydd/(Gostyngiad) yn yr angen sylfaenol i fenthycia (a gefnogir gan gymorth ariannol y llywodraeth)	2,414
24,755	Cynnydd/(Gostyngiad) yn yr angen sylfaenol i fenthycia (nas cefnogir gan gymorth ariannol y llywodraeth)	37,966
27,192	Cynnydd yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf	51,068

*Mae hyn yn cynnwys swm tybiannol mewn perthynas â darpariaeth Tirlenwi o 2022/23 (£15.309 miliwn) a 2021/22 (£16.329 miliwn) ar gyfer adfer safle tirlenwi ac ôl-ofal. Lle caiff amcangyfrifon cost yn y dyfodol eu hadolygu, mae hyn yn arwain at gynnydd neu ostyngiad yn y ddarpariaeth.

**addasiad i wrthdroi addasiadau llaw hanesyddol i'r nodyn GAC na ddylent fod wedi cael effaith ar falans GAC y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys addasiadau a wnaed ar gyfer trafodion BDDPRC a TAW tybiannol. Mae'r diwygiadau cywiro yn alinio'r nodyn datgelu hwn i falans y GAC fel y'i cyfrifwyd yn unol â'r fantolen.

Darpariaeth Refeniw Ddarbodus

Mae'n ofynnol i'r Cyngor neilltuo yn flynyddol o'i gyllideb refeniw swm darbodus i ad-dalu benthycia hanesyddol a wnaed i dalu am wariant cyfalaf. Pennir y swm gan ystyried Canllawiau Llywodraeth Cymru a pholisi y cytunir arno gan y Cyngor fel rhan o'i gynigion cyllidebol bob blwyddyn. Mae'r swm hwn yn lleihau angen sylfaenol y Cyngor i fenthycia, y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (GAC).

Mae'r dibrisiant, taliadau amhariad a thaliadau prydles ariannol sydd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn daliadau cyfrifyddu. Caiff y rhain eu gwrthdroi a'u disodli gan y ddarpariaeth refeniw ddarbodus drwy ddyraniad i/o y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

2021/22		2022/23
£000		£000
31,523	Darpariaeth Cronfa'r Cyngor	27,928
13,015	Darpariaeth Cyfrif Refeniw Tai	12,566
44,538	Darpariaeth Refeniw Ddarbodus	40,494

Gwariant Refeniw a Ariennir gan Gyfalaf dan Statud (GRAGDS)

Ystyriwyd y symiau refeniw canlynol yn wariant cyfalaf i'w dalu o adnoddau cyfalaf. Mae'r tabl yn cynnwys gwariant ar eitemau nad ydynt yn arwain at greu neu wella ased i'r Cyngor neu, lle rhoddwyd cymeradwyaeth benodol gan Lywodraeth Cymru, i ystyried gwariant o'r fath yn wariant cyfalaf a'i dalu o adnoddau cyfalaf.

2021/22		2022/23
£000		£000
	Gwariant:	
5,117	Grantiau Gwella Tai	6,303
9,837	Adeiladau nad yw Cyngor Caerdydd yn berchen arnynt	8,836
4,352	Grantiau a ddyfarnwyd (nid Grantiau Tai)	3,683
0	Ad-dalu Grant	6,481
19,306	Codi i'r Datganiad Incwm a Gwariant	25,303
	Ariannwyd gan:	
(16,613)	Grantiau a Chyfraniadau	(16,896)
(2,693)	Benthyca, Derbyniadau ac Adnoddau Cyfalaf eraill	(8,407)
(19,306)		(25,303)

Ymrwymadau contract Gwariant Cyfalaf sylweddol

Ar 31 Mawrth 2023, dangosir y ffigur ar gyfer ymrwymadau gwariant cyfalaf sylweddol a drefnwyd i'w cwblhau yn 2022/23 ac yn y dyfodol isod (£117.758 miliwn yn 2021/22):

Cynllun Cyfalaf	£000
Gwaith Galluogi Campws y Tyllgoed	22,747
Tai Newydd - Byw yn y Gymuned Stryd Bute	14,460
Tai Newydd - Byw yn y Gymuned Heol Lecwydd	13,300
Ysgol Gynradd Moorland	5,977
Cytundeb Gwasanaeth Cyn Contract yr Arena	5,000
Tai Cartrefi Caerdydd - Ysgol Uwchradd y Dwyrain	4,804
Ysgol Uwchradd Fitzalan	4,704
Tai Cartrefi Caerdydd - Brookfield Drive	4,498
Cludiant Dwyrain Canol y Ddinas a Gwaith Tir Cyhoeddus y Gamlas	3,429

Cynllun Cyfalaf	£000
Estyniad a Meithrinfa Ysgol Gynradd Pentyrch	2,646
Tai Newydd - Canolfan Iorwerth Jones	2,445
Ailgladio Fflatiau Lydstep	1,840
Cynllun Newid To Allensbank	1,749
Cynllun Newid To Ysgol Gynradd Gladstone	1,329
Cynllun Priffordd Mynedfa'r De y Gyfnewidfa Drafnidiaeth	1,205
Adnewyddu Oak House	1,045
Gwasanaethau Proffesiynol Campws y Tyllgoed	815
Tai Newydd - Wakehurst Place	765
Goleuadau Strydoedd Preswyl LED	607
Canolfan Derbyn Larymau (CDL) a Theleofal Neuadd y Sir	593
A4119 Gwelliannau Coridor Bws	579
Tai Cartrefi Caerdydd - Howardian	535
Cyfanswm	95,072

15. Offerynnau Ariannol

Balansau Offerynnau Ariannol

Mae'r categorïau canlynol o Offerynnau Ariannol (Asedau a Rhwymedigaethau) wedi'u cynnwys yn y Fantolen. Maen nhw'n deillio o ganlyniad i weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ogystal ag Offerynnau Ariannol a gyflwynwyd i ddatblygu amcanion gwasanaeth. Dangosir rhagor o fanylion a, lle y bo'n berthnasol a materol, Werth Teg yn yr adrannau isod ynghyd â dull o benderfynu ar werth teg yn unol â pholisïau cyfrifyddu ar gyfer Asedau a Rhwymedigaethau Ariannol, a hefyd ystyriaeth o'r model busnes ar gyfer cadw buddsoddiadau. Dangosir credydwy'r ar wahân yn y nodiadau perthnasol yn hytrach na fel offerynnau ariannol:

31 Mawrth 2022				31 Mawrth 2023		
Hirdymor	Byrdymor	Cyfanswm		Hirdymor	Byrdymor	Cyfanswm
£000	£000	£000		£000	£000	£000
			Asedau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio:			
0	210,012	210,012	Buddsoddiadau - Prif	0	96,736	96,736
0	93	93	Buddsoddiadau - Llog Cronnol	0	512	512
0	23,718	23,718	Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	0	56,514	56,514
0	33	33	Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod - Llog Cronnol	0	80	80
0	233,856	233,856	Cyfanswm Buddsoddiadau ar Gost wedi'i Hamorteiddio wedi'u Cynnwys mewn Buddsoddiadau	0	153,842	153,842
24,749	0	24,749	Cyfanswm Buddsoddiadau ar Werth Teg trwy Incwm Cynhwysfawr Arall	27,596	0	27,596
2,103	449	2,552	Benthyciadau	1,336	1,339	2,675
8,803	183,851	192,654	Dyledwyr eraill	10,436	186,467	196,903
10,906	184,300	195,206	Cyfanswm Dyledwyr	11,772	187,806	199,578

35,655	418,156	453,811	Cyfanswm Asedau Ariannol	39,368	341,648	381,016
			Rhwymedigaethau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio:			
(832,819)	(22,802)	(855,621)	Benthyciadau - Prif	(850,737)	(4,419)	(855,156)
0	(8,509)	(8,509)	Benthyciadau - Llog Cronnol	0	(8,431)	(8,431)
(832,819)	(31,311)	(864,130)	Cyfanswm Benthycia	(850,737)	(12,850)	(863,587)

Mae buddsoddiadau ar gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys:

- buddsoddiadau dros dro wedi eu gwneud ar gyfer taliadau aeddfedu amrywiol gyda sefydliadau ariannol. Tybir mai'r gwerth teg yw'r gwerth cario (Lefel 2).

Mae Buddsoddiadau ar Werth Teg trwy Incwm Cynhwysfawr Arall yn cynnwys:

- cyfran 100% y Cyngor yn Cardiff City Transport Services Limited. Ni restrir cyfranddaliad y Cyngor ar unrhyw farchnad â dyfynbris, ond yn unol â rheolau cyfrifyddu rhaid amcangyfrif gwerth teg. Seilir yr amcangyfrif prisio ar werth net y cwmni yn ôl ei set ddrafft o gyfrifon ariannol (Lefel 3). Gall y prisiad amrywio yn ddibynnol ar berfformiad y cwmni, addasiadau cyfrifyddu technegol a'r hinsawdd economaidd ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio unrhyw brisiad cyfrifyddu. Caiff unrhyw newid mewn gwerth ei dalu gan symudiad cyfatebol i'r 'Gronfa Ailbriso Offerynnau Ariannol Wrth Gefn'; felly nid oes effaith ar y Dreth Gyngor sy'n daladwy. Yn ystod 2021/22, awdurdododd Bwrdd Bws Caerdydd gyhoeddi cyfranddaliadau ychwanegol a chytunodd y Cyngor i gaffael y cyfranddaliadau hyn am £6.6 miliwn fel rhan o weithrediad pecyn cymorth ariannol. Ni chyhoeddwyd unrhyw gyfranddaliadau pellach yn ystod 2022/23. Amcangyfrifir mai gwerth teg y buddsoddiad ar 31 Mawrth 2023 yw £25.451 miliwn (£24.046 miliwn yn 2021/22)
- mae amryw ddaliadau ecwiti lleiafrifol mewn cwmnïau wedi'u cynnwys naill ai ar gost neu ar ddyfynbrisiau lle bônt ar gael.

Cedwir neu caffaelir yr uchod at ddibenion polisi'r Cyngor ac maent wedi eu dethol i'w hystyried yn Werth Teg trwy Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae dyledwyr yn cynnwys:

- benthyciadau i fusnesau bach a chanolig gan gynnwys y rheiny sydd ar gyfer adfywio canol y dref a benthyciadau car i staff Cyngor cymwys
- grantiau, incwm dyledus gan ddefnyddwyr gwasanaeth, partneriaid, derbyniadau cyfalaf gohiriedig i'w derbyn ac a wrthbwysir gan amhariad ar gyfer colledion credyd, lle y bo'n berthnasol.

Mae Rhwymedigaethau ar Gost wedi'i Hamorteiddio yn cynnwys:

- benthycia allanol a gyflawnwyd i ariannu gofynion gwariant cyfalaf a gofynion llif arian parod byrdymor. Mae'n cynnwys Benthyciadau Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn Benthyciwr (ORhBOB) sy'n caniatáu'r rhoddwr benthyciadau i newid y gyfradd llog ar adegau penodol sy'n caniatáu i'r Cyngor naill ai dderbyn y gyfradd newydd neu ad-dalu'r benthyciad cyn dyddiad aeddfedu'r contract. Rhagdybir mai dyddiad aeddfedu offerynnau o'r fath yw'r cyfnod cytundebol at yr aeddfedu yn hytrach na'r dyddiad nesaf y gallai'r rhoddwr benthyciadau ofyn am newid yn y gyfradd. Pan fo'n bosibl ac yn ddichonadwy, ystyrir cyfleoedd am ad-dalu'n gynnar. Mae'r symiau cario isod hefyd yn cynnwys llog a gronwyd sy'n daladwy ar 31 Mawrth 2023. Y llog sy'n daladwy ar gyfer 2022/23 yw £8.431 miliwn (£8.509 miliwn yn 2021/22).

31 Mawrth 2022			Dull Prisio - Lefel	31 Mawrth 2023	
Swm cario £000	Gwerth teg £000			Swm cario £000	Gwerth teg £000
(770,882)	(983,511)	Benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC)	Lefel 2	(767,521)	(715,282)
(51,632)	(70,297)	Opsiwn Benthyciwr Opsiwn Benthyciwr	Lefel 2	(51,637)	(46,624)
(23,281)	(17,828)	Llywodraeth Cymru	Lefel 2	(44,399)	(32,594)
(18,335)	(18,316)	Awdurdodau Lleol a benthyciadau eraill	Lefel 2	(30)	(30)
(864,130)	(1,089,952)	Rhwymedigaethau Ariannol		(863,587)	(794,530)

Mae gwerth teg benthycia a rhwymedigaethau ariannol yn llai na'r swm cario am fod portffolio benthyciadau'r Cyngor yn cynnwys nifer o fenthyciadau cyfradd sefydlog pan fo'r gyfradd llog sy'n daladwy'n llai na'r cyfraddau sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg ar ddyddiad y Fantolen.

Mae cyfrifiadau gwerth teg yn defnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- ar gyfer dyled BBGC, mae'r trosglwyddiad neu'r gwerth teg a ddangosir yn y tabl yn seiliedig ar gyfraddau benthycia newydd gan y BBGC ar gyfer benthyciadau cyfwerth ar 31 Mawrth 2023. Cyfrifir gwerth teg pris ymadael o £816.065 miliwn hefyd gan ddefnyddio cyfraddau gostyngiad ad-daliad cynnar sy'n is na chyfraddau benthyciadau cyfwerth. Nid oes gan y Cyngor rwymedigaeth contract i dalu'r costau cosb ac ni fyddai'n mynd i gost ychwanegol petai'r benthyciadau'n pasio'u dyddiad aeddfedu cynlluniedig
- ar gyfer dyledion a buddsoddiadau marchnad eraill, defnyddir y gyfradd ostyngol sydd ar gael ar gyfer offeryn â'r un telerau gan roddwr benthyciadau cymaradwy
- ni chydabyddir ad-daliad nac amhariad cynnar.

Enillion/Colledion Offerynnau Ariannol

Mae'r tabl canlynol yn dangos enillion a cholledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o ran Offerynnau Ariannol. Mae'n cynnwys llog sy'n daladwy ar fenthyca, symiau i'w derbyn ar fuddsoddiadau, elw ar waredu buddsoddiadau a hefyd symudiadau o amcangyfrif newidiadau ym mhris buddsoddiadau ar werth teg.

Rhwymedigaethau Ariannol	Asedau Ariannol				Rhwymedigaethau Ariannol	Asedau Ariannol		
	Mesurir yn ôl Cost wedi'i Hamorteiddio	Cost wedi'i Hamorteiddio	Buddsoddiadau ar Werth Teg drwy Incwm Cynhwysfawr Arall			Cyfanswm	Mesurir yn ôl Cost wedi'i Hamorteiddio	Cost wedi'i Hamorteiddio
2021-22					2022-23			
£000					£000			
34,108	0	0	34,108	Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg	34,175	0	0	34,175
0	(381)	0	(381)	Llog ac Incwm Buddsoddi	0	(3,332)	0	(3,332)
0	0	(98)	(98)	(Enillion)/colledion sy'n deillio o Waredu/Dadgydnabod Asedau Ariannol	0	0	(63)	(63)
0	0	(3,382)	(3,382)	(Enillion)/colledion sy'n deillio o Ailbriso neu Waredu Asedau Ariannol	0	0	(1,376)	(1,376)
34,108	(381)	(3,480)	30,247	(Enillion)/colledion net ar gyfer y flwyddyn	34,175	(3,332)	(1,439)	29,404

Natur a Helaethder Risgiau sy'n deillio o Offerynnau Ariannol

Mae gweithgareddau'r Cyngor o ran offerynnau ariannol p'un ai at ddibenion rheoli trysorlys neu amcanion gwasanaeth yn ei amlygu i amrywiaeth o risgiau. Wrth gyflawni gweithgareddau rheoli trysorlys, y prif amcan yw lleihau'r risg o ganlyniadau andwyol neu golledion, tra ar yr un adeg beidio â chyfyngu elw ar fuddsoddiadau neu fynd i gostau llog diangen. O ystyried natur y buddsoddiadau, ni ellir osgoi cysylltiad rhwng diogelwch, hylifedd ac elw h.y. mae risg o ddiffyg dalu. Mae'r risg yn fwy pan roddir benthyciadau i sefydliadau allanol ar gyfer amcanion darparu gwasanaethau ac ystyrir dangosyddion amhariad sylweddol ar ddyddiad y fantolen.

Ymhlith y risgiau rheoli trysorlys mae credyd a gwrth-barti, hylifedd ac ailariannu, cyfradd llog, gwerth y farchnad, cyfradd gyfnewid, twyll a risg reoleiddiol. Mae gan y Cyngor Arferion Rheoli Trysorlys i fynd i'r afael â risgiau a'u lliniaru. Mae wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA ac yn pennu dangosyddion i reoli risgiau offerynnau ariannol allweddol. Caiff manylion pellach o ran risgiau allweddol eu datgelu yn yr adrannau canlynol lle y bo'n berthnasol.

Risg Credyd

Risg y gall partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor. Mae'n deillio o fenthycia balansau arian parod dros dro fel rhan o weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor, o symiau sy'n ddyledus gan gwsmeriaid y Cyngor a chan sefydliadau y rhoddwyd benthyciad iddynt.

Gwneir amhariad ar gyfer dyledion drwg pan ystyrir bod risg o golledion credyd disgwylidig. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi prif risgiau credyd y Cyngor.

31 Mawrth 2022 £000	Tebygolrwydd o Ddiffygdlu	31 Mawrth 2023 £000
	<p>Rhoddir adneuon gyda banciau a chymdeithasau adeiladu sydd â maen prawf Fitch F1 o leiaf (h.y. yr ansawdd credyd gorau), awdurdodau lleol neu Gyfleuster Adnau Cyfrif Rheoli Dyled (CACRhd). Cyfyngir benthycia i uchafswm a chyfnod uchaf ym mhob sefydliad ariannol, gan hefyd ystyried helaethder perchnogaeth gyhoeddus a gradd sofran.</p> <p>Mae risg o ddiffyg adenilladwyedd yn berthnasol i holl adneuon y Cyngor sy'n gofyn am fonitro trylwyr ar yr holl risg credyd a meini prawf credyd. Mae'r Cyngor yn defnyddio cynghorwyr rheoli trysorlys sy'n cynorthwyo'r broses. Gan ddefnyddio data hanesyddol a addasir ar gyfer amodau cyfredol y farchnad ariannol ac yn seiliedig ar lefel yr amlygiad gwrth-barti ar 31 Mawrth 2023, y colled credyd disgwylidig yw 0.004% neu £3,139, wedi ei gyfrifo ar sail risg hanesyddol o ddiffygdlu. Mae hyn yn fach iawn, felly ni chydabyddir unrhyw ddarpariaethau am golledion credyd disgwylidig.</p> <p>Bydd gwerth blaendaliadau'n amrywio bob dydd o ganlyniad i amseriad llawer o drafodion. Mae'r gostyngiad o £76.955 miliwn o 31 Mawrth 2022 yn bennaf o ganlyniad i gyfalaf gweithio is. Mae yna hefyd all-lifoedd gwariant cyfalaf yn y flwyddyn i'w talu drwy fenthycia £55 miliwn yn y blynyddoedd i ddod.</p>	
233,856	Adneuon - Banciau, Cymdeithasau Adeiladu, Awdurdodau Lleol, CACRhd	153,842
	Caiff ad-daliadau eu hadennill yn uniongyrchol o gyflog cyflogaion ac mae yswiriant indemniad yn un o amodau'r benthyciad. Prin y ceir diffygdlu.	
282	Benthyciadau Ceir	198
	Yn cynnwys benthyciadau i BBaChau ac adfywio Canol Tref. Pan ystyrir bod risg o ddiffygdlu, ystyrir darpariaeth ar gyfer amhariad.	
2,269	Benthyciadau i Gyrrff Allanol	2,478
	<p>Nid yw'r Cyngor fel rheol yn caniatáu credyd i gwsmeriaid a gwneir darpariaeth ar gyfer diffygdlu'n seiliedig ar broffil oedran y ddyled, wedi'i haddasu ar gyfer anfonebau mawr y gwyddys eu bod wedi'u talu ar ôl dyddiad y fantolen ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill a allai effeithio ar y swm i'w gasglu. Mae dyledion eraill fel incwm grant sy'n ddyledus gan gyrrff llywodraeth a chroniadau incwm diwedd blwyddyn yn cael eu hystyried yn 100% casgladwy ac nid ystyrir bod amhariad ar gyfer diffyg talu yn angenrheidiol. Roedd yr amhariad ar gyfer dyled ddrwg ar gyfer 2022/23 yn seiliedig ar y proffil oedran addasedig a ddatgelir fel a ganlyn:</p>	
17,123	Llai na blwyddyn	27,119
1,456	1-2 flynedd	1,724
614	2-3 blynedd	788
337	3-4 blynedd	467
166	4-5 mlynedd	336
497	Dros 5 mlynedd	533
20,193	Cwsmeriaid	30,967
256,600	Cyfanswm	187,485

Risg Hylifedd ac Ailariannu

Hwn yw'r posibilrwydd na fyddai gan y Cyngor gyllid ar gael i dalu am ymrwymïadau ariannol neu y byddai'n rhaid iddo ailariannu ar gyfraddau neu delerau llog anfantaisiol. Mae gan y Cyngor fynediad rhwydd at arian o'r marchnadoedd ariannol a'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus er mwyn codi arian. Yn ei Strategaeth Rheoli Trysorlys, pennir cyfyngiadau ar gyfran y benthyciadau cyfradd sefydlog sy'n aeddfedu yn ystod cyfnodau penodedig. Mae symiau'r ddyled cyfradd sefydlog sy'n aeddfedu yn ystod unrhyw gyfnod yn y tabl canlynol:

31 Mawrth 2022 £000	Benthyciadau sy'n Ddyledus	31 Mawrth 2023 £000
763,077	Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus	759,727
51,000	Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn Benthyciwr (ORhBOB) y Farchnad	51,000
23,281	Llywodraeth Cymru	44,399
18,263	Awdurdodau Lleol a benthyciadau eraill	30
855,621	Cyfanswm	855,156
22,803	Dan 12 mis	4,419
0	BDdPRC	17
4,459	12 mis ac o fewn 24 mis	4,358
18,187	24 mis ac o fewn 5 mlynedd	29,550
76,638	5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	100,365
174,522	10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd	174,434
176,800	20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd	182,800
217,888	30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd	214,213
159,324	40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd	140,000
5,000	50 mlynedd ac o fewn 60 mlynedd	5,000
855,621	Cyfanswm	855,156

Ar hyn o bryd, mae £24 miliwn o'r benthyciadau ORhBOB yn amodol ar y rhoddwr benthyciadau yn cael yr hawl i newid cyfradd y llog sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae gan y Cyngor yr hawl i wrthod y newid, gan sbarduno ad-daliad cynnar a'r angen i ailariannu. Mae manylion yn y tabl canlynol:

£m	Dyddiad Ad-dalu Posibl	Amllder Opsiwn	Aeddfedrwydd Tymor Llawn
6	22/05/2023	6 mis	21/11/2041
6	22/05/2023	6 mis	21/11/2041
6	22/05/2023	6 mis	23/05/2067
6	01/09/2023	6 mis	23/05/2067
22	21/11/2025	5 mlynedd	23/11/2065
5	17/01/2028	5 mlynedd	17/01/2078

Risg Cyfradd Llog

Y posibilid y gallai fod colled ariannol i'r Cyngor o ganlyniad i newidiadau i gyfraddau llog. Nodir prif effeithiau newid cyfraddau llog isod:

Amrywiad a effeithir gan newidiadau yn y gyfradd llog	Effaith yr Amrywiad	Camau gweithredu i liniaru'r risg cyfradd llog
Llog a enillir ar fuddsoddiadau cyfradd amrywiol	Bydd cynnydd mewn cyfraddau llog yn cynyddu incwm a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr tra gallai gostyngiadau arwain at lai o incwm nag a gyllidebwyd.	Cynhyrchu a chymeradwyaeth gan y Cyngor i'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar ddechrau pob blwyddyn ariannol gyda lledaeniad o broffiliau aeddfedrwydd ar gyfer buddsoddiadau.
Llog a dalwyd ar fenthyciadau cyfradd amrywiol	Os yw cyfraddau llog yn codi, gall rhoddwyr benthyciadau ddewis cynyddu cyfraddau benthyciadau Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn Benthyciwr gan o bosibl gynyddu'r gwariant llog a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr os bydd y Cyngor yn derbyn y gyfradd uwch.	Mae rhagolygon cyfradd llog yn seiliedig ar gyngor gan ymgynghorwyr rheoli trysorlys yn rhan o'r gyllideb a chânt eu monitro'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae benthycia'r Cyngor yn bennaf yn digwydd ar gyfraddau llog sefydlog, yn hytrach nag amrywiol.
Gwerth teg asedau ariannol cyfradd sefydlog	Ni fydd cynnydd mewn cyfraddau llog yn cael unrhyw effaith sylweddol ar werth teg, gan fod cyfnodau presennol asedau o'r fath yn fyr iawn, felly ni ddatgelir gwerth teg.	Drwy gyfradd sefydlog benthycia a buddsoddi, nod y Cyngor yw lleihau'r effaith ar reffeniw o amrywiadau llog sy'n cynnig sefydlogrwydd at ddibenion cynllunio. Mae benthycia gan y Cyngor yn bennaf yn digwydd ar gyfraddau sefydlog yn hytrach nag amrywiol.
Gwerth teg rhwymedigaethau ariannol cyfradd sefydlog	Bydd gwerth teg yn disgyn os yw cyfraddau llog yn codi. Ni fydd hyn yn effeithio ar werthoedd y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu'r Fantolen ar gyfer y mwyafrif o asedau a gedwir ar gost wedi'i hamorteiddio, ond bydd yn effeithio ar y nodyn datgelu ar gyfer gwerth teg.	

I roi syniad o sensitifrwydd y Cyngor i newid yn y gyfradd llog, mae'r tabl yn dangos effaith a ragwelir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr petai cyfraddau llog yn 2022/23 wedi bod ar gyfartaledd 1% yn uwch gyda'r holl amrywiadau eraill yn cael eu cadw'n gyson.

Cyfrif Incwm a Gwariant Risg Cyfradd Llog	£000
Cynnydd yn y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau	94
Cynnydd mewn llog derbyniadwy ar fuddsoddiadau	(1,188)
Effaith ar y Cyfrif Incwm a Gwariant	(1,094)
Cynnydd yn y llog a drosglwyddwyd i falansau a chyfrifon eraill	372
(Incwm)/Gwariant Net	(722)

Efallai na chaiff effaith gostyngiad 1% mewn cyfraddau llog yr union effaith groes, gan na all offerynnau ariannol â galwadau gael eu harfer gan y rhoddwr benthyciadau neu'r benthyciwr.

Newidiadau mewn Gwerth Teg	£000
Newid yng Ngwerth Teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog	0
Gostyngiad yng Ngwerth Teg benthyciadau cyfradd sefydlog	(96,729)

Risg cyfnewid tramor

Prin fod gan y Cyngor berygl o golli o symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid. Cynhelir benthyciadau a buddsoddiadau mewn sterling yn unig.

Risg Pris

Hwn yw'r posibilid o'r Cyngor yn gwneud enillion neu golledion ariannol o newid mewn prisiau offerynnau ariannol. Er bod polisi Rheoli Trysorlys cymeradwy'r Cyngor yn caniatáu buddsoddiadau mewn offerynnau ariannol fel tystysgrifau adneuoan banc a bondiau Llywodraeth, mae'r Cyngor yn buddsoddi'n bennaf mewn offerynnau lle mae'r swm a ddychwelir ar aeddfedrwydd yr un fath â'r swm cychwynnol a fuddsoddyd. At ddibenion buddsoddi'r gwasanaeth, mae gan y Cyngor ddaliadau ecwiti gwerth £21,000 (£41,000 yn 2021/22) a ddyfynnir ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig ar 31 Mawrth 2023

Mae cyfranddaliad 100% y Cyngor yn Cardiff City Transport Services Ltd heb ei ddyfynnu ar gyfnewidfa gydnabyddedig ac felly nid yw'n destun enillion neu golledion o newidiadau ym mhrisiau'r farchnad. Byddai newid cyffredinol o 5% yn y gwerth teg (positif neu negatif) yn arwain ac elw neu golled o £1.272 miliwn yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn o ran prisiau at ddibenion cyfrifon yn unig.

16. Asedau a Gedwir i'w Gwerthu

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
918	Balans ar 1 Ebrill	0
137	Ychwanegiadau	0
(660)	Dadgydnabod	0
0	Amhariad	0
(395)	Ailddosbarthu i/(o) Cedwir i'w Gwerthu	4,000
0	Balans ar 31 Mawrth	4,000

17. Dyledwyr Byrdymor

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
108,295	Cyrff y Llywodraeth Ganolog	118,295
15,954	Awdurdodau Lleol eraill a Chyrff GIG	17,310
60,051	Endidau ac Unigolion eraill gan gynnwys Corfforaethau Cyhoeddus	52,201
184,300	Cyfanswm Dyledwyr Byrdymor	187,806

18. Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
148	Arian Parod	158
6,432	Banc (gan gynnwys ysgolion llyfr siec a BDdPRC)	(7,860)
17,171	Adnau byrdymor â banciau a chymdeithasau adeiladu	64,296
23,751	Cyfanswm Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	56,594

19. Credydwy'r Byrdymor

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
(55,691)	Cyrff y Llywodraeth Ganolog	(25,004)
(10,204)	Awdurdodau Lleol eraill a Chyrff GIG	(14,584)
(109,950)	Endidau ac Unigolion eraill gan gynnwys Corfforaethau Cyhoeddus	(99,349)
(175,845)	Cyfanswm Credydwy'r Byrdymor	(138,937)

20. Buddiannau mewn Cwmnïau Eraill a Sefydliadau Eraill

Mae gan y Cyngor bum is-gwmni y mae'n berchen arnynt yn gyfan gwbl. Caiff y budd yn Cardiff City Transport Services Ltd ei gyfuno i ffurfio cyfrifon grŵp y Cyngor a ddangosir yn ddiweddarach yn y Datganiadau hyn. Ystyrir bod y buddiannau yn y pedwar sefydliad arall yn amherthnasol o ran trosiant ac asedau net y grŵp ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yng nghydrin hoad 2022/23. Nid yw'r Cyngor yn dibynnu ar y pedwar sefydliad hwn ar gyfer darpariaeth gwasanaethau statudol ac nid ystyrir eu bod yn amlygu'r Cyngor i lefel berthnasol o risg fasnachol.

Cardiff City Transport Services Limited. (Bws Caerdydd)**Rhif y cwmni 02001229 Ymgorfforwyd 1986**

Sefydlwyd Bws Caerdydd yn unol â darpariaethau Deddf Trafnidiaeth 1985 i weithredu gweithrediadau bws dinesig y Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y cwmni i fynd i'r afael â nifer o heriau a oedd yn gyffredin â'r diwydiant trafniadaeth gyhoeddus cyfan. Roedd hyn yn cynnwys nawdd islaw lefelau cyn Covid yn effeithio ar incwm, cynnydd mewn costau tanwydd a chyflogau, prinder llafur a newidiadau trafniadaeth yn y ddinas. Parhaodd cefnogaeth y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau, a ddechreuodd yn ystod y pandemig, yn ystod 2022/23 a disgwyliar iddo barhau eto am flwyddyn arall yn amodol ar gadarnhad o ddull gweithredu Llywodraeth Cymru.

Cytunodd y Cyngor ym mis Hydref 2020 i weithredu ystod o fesurau i fynd i'r afael â risgiau i hyfywedd ariannol, gan ganiatáu i'r cwmni weithredu cynllun adfer i adeiladu dyfodol ariannol a gweithredol mwy cynaliadwy. Daeth y Cyngor yn gyflogwr statudol Cynllun Pensiwn Bws Caerdydd ar 3 Mawrth 2021 a chwistrellodd ecwiti o £13.6 miliwn rhwng 2020/21 a 2021/22.

Crynoir cyfrifon archwiliedig y cwmni isod:

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
(36,892)	Trosiant ac incwm arall	(38,567)
32,811	Gwariant gweithredu a gwariant arall	36,798
(4,081)	(Elw)/Colled Net cyn Trethiant	(1,769)
696	Trethiant	374
(3,385)	(Elw)/Colled ar ôl Trethiant	(1,395)

Dyma grynodeb o sefyllfa ariannol y cwmni:

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
26,262	Bws ac asedau gweithredu eraill	22,171
15,144	Asedau Cyfredol	14,576
(6,460)	Llai Rhwymedigaethau Cyfredol	(3,307)
	Credydwy'r: Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	
(10,900)	Darpariaethau a rhwymedigaethau hirdymor	(7,999)
24,046	Cyfanswm Asedau llai Rhwymedigaethau	25,441
	Cynrychiolir gan:	
18,218	Cyfalaf Cyfrannau	18,218
1,957	Enillion a Gedwir	3,374
3,871	Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn	3,849
24,046	Gwerth Net	25,441

Yn ystod 2022/23, gwnaeth y Cyngor daliadau o £8.234 miliwn i Cardiff City Transport Services Ltd (£17.408 miliwn yn 2021/22), gyda £7.498 miliwn yn ymwneud â thaliadau tocynnau consesiynol (£9.617 miliwn yn 2021/22). Cafodd y Cyngor hefyd incwm o £782,000 (£1.850 miliwn yn 2021/22).

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae balans yn ddyledus i Cardiff City Transport Services Ltd o £26,000 (£58,000 ym mis Mawrth 2022) a balans o £198,000 yn ddyledus gan Cardiff City Transport Services Ltd (£210,000 ym mis Mawrth 2022).

Archwilwyr y cwmni yw Kilsby Williams.

Cardiff Business Technology Centre Limited (CBTC)

Rhif y cwmni 02074331 Ymgorfforwyd 1986

Prif weithgaredd y cwmni yw hyrwyddo a chynorthwyo yn natblygiad cwmnïau uwch-dechnoleg ac arloesedd newydd a chyfredol drwy ddarparu safleoedd busnes/deori gyda lefel uchel o wasanaethau cymorth. Cwblhaodd flwyddyn lwyddiannus arall er gwaethaf heriau gweithredol yr adferiad ar ôl y pandemig. Arhosodd y galw am le yn gyson gryf, gan gynnal lefelau uchel o feddiannaeth. Mae'r cwmni'n parhau i gynnig telerau hyblyg i denantiaid sydd newydd eu sefydlu er mwyn sicrhau twf cyflym ac awyryglch meithringar lle gallant sefydlu busnesau sy'n gryfach yn fasnachol. Crynhoi cyfrifon archwiliedig y cwmni isod:

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
18	(Elw)/Colled Net cyn Trethiant	74
(7)	Llai: Trethiant	(7)
11	(Elw)/Colled ar ôl Trethiant	67

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
755	Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau presennol	680
(29)	Darpariaeth ar gyfer trethiant	(22)
0	Rhwymedigaeth Pensiwn	0
726	Cyfanswm Asedau llai Rhwymedigaethau	658
	Cynrychiolir gan:	
402	Elw a Gedwir	364
0	Cronfa Pensiynau Wrth Gefn	0
324	Cronfa Ailbriso Wrth Gefn	294
726	Gwerth Net	658

Yn ystod 2022/23, gwnaeth y Cyngor daliadau o £380,000 i CBTC (£284,000 yn 2021/22) a derbyniodd incwm o ddim (£0 yn 2021/22) gan CBTC. Ar ddiwedd y flwyddyn, nid oes balans yn ddyledus i neu gan CBTC Limited. (£0 ar 31 Mawrth 2022).

Archwilwyr y cwmni yw Gerald Thomas.

Atebion Solutions Limited

Rhif y cwmni 10411758 Ymgorfforwyd 2016

Nod Atebion Solutions Ltd yw darparu gwasanaethau caffael a masnachol i'r sector cyhoeddus. Yn ogystal â gwneud gwaith Atebion Solutions mae Tîm Caffael y Cyngor bellach yn darparu'r gwasanaeth caffael ar gyfer Cynghorau Sir Fynwy, Torfaen a Bro Morgannwg a hefyd yn rheoli 3 fframwaith rhanbarthol. Yn gyffredin â'r sector caffael cyhoeddus ehangach, mae heriau recriwtio a chadw gweithwyr yn effeithio ar y gallu i ymgymryd â gwaith ychwanegol. Yng ngoleuni hyn, mae Bwrdd Atebion a Chynrychiolydd Cyfranddalwyr wedi cytuno y dylai Atebion Solutions fabwysiadu statws Ddim yn Masnachu yn 2023/24. Mae gan y cwmni yr asedau ariannol i fodloni'r holl rwymedigaethau ariannol yn llawn.

Crynhoir cyfrifon archwiledig y cwmni isod:

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
(16)	(Elw)/Colled Net cyn Trethiant	8
3	Llai: Trethiant	(2)
(13)	(Elw)/Colled ar ôl Trethiant	6

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
43	Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau presennol	31
(4)	Credydwyr: dyledus ar ôl mwy na blwyddyn	0
39	Cyfanswm Asedau Llai Rhwymedigaethau	31
	Cynrychiolir gan:	
39	Elw a Gedwir	31
39	Gwerth Net	31

Yn ystod 2022/23, ni wnaeth y Cyngor unrhyw daliadau (£0 yn 2021/22) i Atebion Solutions Ltd a derbyniodd incwm o £32,000 (£79,000 yn 2021/22) gan Atebion Solutions Ltd. Ar ddiwedd y flwyddyn, nid oes balans yn ddyledus i Atebion Solutions Ltd (£0 ar 31 Mawrth 2022) ac mae balans o £23,000 yn ddyledus gan Atebion Solutions Ltd (£69,000 ar 31 Mawrth 2022).

Archwilwyr y cwmni yw Azets.

Cardiff Heat Network Limited

Rhif y cwmni 13199235 Ymgorfforwyd 2021

Nod Cardiff Heat Network yw datblygu ac yna rhedeg rhwydwaith gwres cynaliadwy ar draws y ddinas a fydd yn cyflenwi gwres i adeiladau y cytunwyd y byddant yn cael eu cysylltu â'r rhwydwaith. Dechreuodd cyfnod o ddwy flynedd o waith adeiladu ym mis Ionawr 2022 o ran cwmpas Cam 1, gyda disgwyl i'r cyflenwadau gwres byw cyntaf gael eu darparu o ddechrau haf 2024. Parhaodd y trafodaethau yn ystod y flwyddyn gyda chwsmeriaid y rhwydwaith ynni i sicrhau digon o ddefnydd i ganiatáu i ragdybiaethau achos busnes y rhwydwaith gael eu bodloni. Mae'r targedau a'r rhagdybiaethau hyn yn parhau i gael eu hadolygu.

Crynhoir canlyniadau gweithredu drafft y cwmni isod:

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
15	(Elw)/Colled Net cyn Trethiant	26
0	Llai: Trethiant	0
15	(Elw)/Colled ar ôl Trethiant	26

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
(15)	Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau presennol	(40)
0	Credydwyr: dyledus ar ôl mwy na blwyddyn	0
(15)	Cyfanswm Asedau Llai Rhwymedigaethau	(40)
	Cynrychiolir gan:	
(15)	Elw a Gedwir	(40)
(15)	Gwerth Net	(40)

Yn ystod 2022/23, gwnaed taliadau grant o £4.178 miliwn gan y Cyngor i Cardiff Heat Network Ltd (£2.450 miliwn yn 2021/22) a derbyniodd £16,000 gan Cardiff Heat Network Ltd (£0 yn 2021/22). Ar ddiwedd y flwyddyn, nid oes balans yn ddyledus i na chan Cardiff Heat Network Ltd. (£0 ar 31 March 2022)
Archwilwyr y cwmni yw Azets.

Cardiff Waste Limited

Rhif y cwmni 02664172 Ymgorfforwyd 1991

Ymgorfforwyd y cwmni i allu casglu a gwaredu deunyddiau gwastraff o bob disgrifiad, gweithredu safleoedd, cerbydau ac offer gweithredu gwastraff a darparu cyngor cysylltiedig. Mae'r cwmni'n parhau'n segur, heb unrhyw weithgareddau masnachu.

21. Darpariaethau

	Balans 31 Mawrth 2022	Defnyddiwyd / Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn	Trosglwyddiadau i Ddarpariaethau	Balans 31 Mawrth 2023	Dim hwyrach nag un flynedd	Hwyrach nag un flynedd
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Yswiriant a Chynllun MMI	(10,180)	4,324	(3,922)	(9,778)	(1,955)	(7,823)
Safle Tirlenwi Ferry Road	(7,547)	1,256	0	(6,291)	(222)	(6,069)
Safle Tirlenwi Ffordd Lamby	(9,762)	428	0	(9,334)	(431)	(8,903)
Bargen Ddinesig Prifddinas- Ranbarth Caerdydd	(586)	0	(71)	(657)	0	(657)
Arall	(927)	1,004	(1,903)	(1,826)	(811)	(1,015)
Cyfanswm	(29,002)	7,012	(5,896)	(27,886)	(3,419)	(24,467)

Mae yswiriant yn cynrychioli symiau a neilltuwyd i dalu costau hawliadau a ddaeth i law, ond nas setlwyd eto. Mae'r Cyngor yn gweithredu system hunan-yswirio sy'n yswirio naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl nifer sylweddol o risgiau yswiriedig y Cyngor. Caiff risgiau mawr fel eiddo, rhwymedigaethau a cherbydau eu hunan-ariannu'n rhannol tra bod yswiriant llawn ar gyfer risgiau eilaidd fel 'pob risg'.

Cynllun ardoll trefniant Municipal Mutual Insurance (MMI) - yn cynrychioli cynllun a sefydlwyd ar 13 Tachwedd 2012 a fydd yn cynnwys adfachu canran o hawliadau a dalwyd yn flaenorol yn ogystal â chanran yr hawliadau yn y dyfodol. Mae rhagor o fanylion yn nodyn 27.

Mae ôl-ofal tirlenwi yn adlewyrchu rhwymedigaethau i adfer ac ôl-ofalu am safleoedd Ffordd Lamby a Ferry Road gyda thrwyddedau cychwynnol i waredu'r gwastraff. Gall y rhwymedigaethau ariannol hyn ymestyn dros 60 mlynedd gyda rhwymedigaethau gwariant cyfalaf a refeniw ansicr ond o bosibl sylweddol. Mae lefel y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd, gyda'r adolygiad nesaf i'w gynnal yn 2023/24.

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd - yn cynrychioli gwahaniaethau o ran amseru yn bennaf yn ymwneud â'r dreth gorfforaeth

Arall – yn cynnwys £1.394 miliwn ar gyfer darpariaethau Gwasanaethau Oedolion ynghyd ag amryw ddarpariaethau llai.

22. Efen Bensiwn

Yn ogystal â chostau taliadau dileu swyddi i'r sawl sy'n gadael, mewn rhai achosion gall y Cyngor hefyd fynd i gostau sy'n gysylltiedig ag elfen pensiwn y mae'n rhaid iddo eu talu i'r Gronfa Bensiwn pan fydd unigolion yn gadael drwy'r Cynllun Diswyddo. Nid yw hyn ond yn berthnasol i ymadawyr sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yn 55-59 oed ar y dyddiad y maen nhw'n gadael cyflogaeth â'r Cyngor. Y gost elfen pensiwn i'r Cyngor yw'r swm y mae'n rhaid iddo ei dalu i'r Gronfa Bensiwn i wneud iawn am y cyfraniadau pensiwn coll ar gyfer y staff hyn.

Mae gan y Cyngor yr opsiwn i dalu'r symiau sy'n daladwy o ran elfen pensiwn dros gyfnod o 5 mlynedd er mwyn lledaenu effaith y costau hyn. Mae'r tabl canlynol yn dangos lefel yr elfen pensiwn yn y fantolen.

31 Mawrth 2022 £000	Elfen Bensiwn	31 Mawrth 2023 £000
(1,035)	Elfen Bensiwn sy'n ddyledus o fewn 1 flynedd	(1,737)
(1,296)	Elfen Bensiwn sy'n ddyledus yn hwyrach nag 1 flynedd	(494)
(2,331)	Cyfanswm Efen Bensiwn	(2,231)

23. Rhwymedigaethau Gohiriedig

Mae'r symiau hyn yn cael eu talu ymlaen llaw gan gyrrff allanol tuag at wariant yn y dyfodol.

	Balans 31 Mawrth 2022 £000	Defnyddiwyd / Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn £000	Trosglwyddiadau i Rwymedigaethau Gohiriedig £000	Balans 31 Mawrth 2023 £000	Dim hwyrach nag un flynedd £000	Hwyrach nag un flynedd £000
Symiau Cynhaliath Ohiriedig	(7,992)	937	(1,173)	(8,228)	(685)	(7,543)
Incwm Ymlaen Llaw Rhentu Doeth Cymru	(5,269)	3,341	(3,839)	(5,767)	(3,300)	(2,467)
Cyfanswm Rhwymedigaethau Gohiriedig	(13,261)	4,278	(5,012)	(13,995)	(3,985)	(10,010)

24. Incwm o Grantiau

Credydodd y Cyngor y grantiau a'r cyfraniadau canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2022/23

2021/22 £000		2022/23 £000
	Grantiau a chyfraniadau a gredydir i'r DIGC	

2021/22 £000		2022/23 £000
(373,452)	Grant Cynnal Refeniw	(413,544)
(121,062)	Ardrethi Annomestig	(131,182)
(124,743)	Grantiau Cyfalaf	(111,234)
(2,289)	Cyfraniadau Datblygwyr	(2,878)
(621,546)	Cyfanswm	(658,838)
	Credyd i Wasanaethau (Grantiau a Chyfraniadau Refeniw)	
(365,870)	Cyrff y Llywodraeth Ganolog	(326,518)
(24,691)	Awdurdodau Lleol eraill a Chyrff GIG	(27,677)
(4,557)	Endidau ac Unigolion eraill gan gynnwys Corfforaethau Cyhoeddus	(7,428)
(395,118)	Cyfanswm	(361,623)

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd eto i'w cydnabod fel incwm gan fod amodau ynghlwm wrthynt a allai ei gwneud yn ofynnol i'r arian neu eiddo gael ei ddychwelyd i'r darparwr. Balansau diwedd y flwyddyn yw:

31 Mawrth 2022 £000	Grantiau Refeniw a Derbyniadau Cyfraniadau Ymlaen Llaw	31 Mawrth 2023 £000
(15,560)	Cyrff y Llywodraeth Ganolog	(6,918)
0	Awdurdodau Lleol eraill a Chyrff GIG	0
(961)	Endidau ac Unigolion eraill gan gynnwys Corfforaethau Cyhoeddus	(1,102)
(16,521)	Cyfanswm	(8,020)

31 Mawrth 2022 £000	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf Ymlaen Llaw	31 Mawrth 2023 £000
(11,431)	Cyrff y Llywodraeth Ganolog	(22,679)
0	Awdurdodau Lleol eraill a Chyrff GIG	0
0	Endidau ac Unigolion eraill gan gynnwys Corfforaethau Cyhoeddus	0
(11,431)	Cyfanswm	(22,679)

Mae'r tabl isod yn cynrychioli symiau a gafwyd gan ddatblygwyr a ffynonellau allanol yn bennaf, sydd eto i'w defnyddio i ariannu gwariant penodol yn y dyfodol.

31 Mawrth 2022 £000	Derbyniadau Cyfraniadau Cyfalaf Ymlaen Llaw	31 Mawrth 2023 £000
(22,155)	Balans ar 1 Ebrill	(22,388)
(3,589)	Cyfraniadau a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn	(11,892)
3,314	Cyfraniadau a gymhwysir i wariant yn ystod y flwyddyn	2,910
42	Ailddosbarthiadau	74
(22,388)	Balans ar 31 Mawrth	(31,296)

25. Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy

Manylir ar symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy yn cynnwys Balansau Cronfa'r Cyngor a CRT, Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig, Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn a'r Gronfa Grantiau Cyfalaf Heb Eu Defnyddio.

25.1 Balansau Cronfa'r Cyngor a CRT

	Balans	Cyfraniadau		Balans
	31 Mawrth 2022 £000	Refeniw o £000	Refeniw i £000	31 Mawrth 2023 £000
BALANSAU CRONFA'R CYNGOR A CRT				
Balans Cronfa'r Cyngor	14,255	0	0	14,255
Balans y Cyfrif Refeniw Tai	15,502	0	0	15,502
Cyfanswm Balansau Cronfa'r Cyngor a CRT	29,757	0	0	29,757

25.2 Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig

Mae'r nodyn hwn yn rhestru'r cyfraniadau i ac o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ystod y flwyddyn.

	Balans	Cyfraniadau		Balans	Pwrpas y Gronfa Wrth Gefn / I ariannu:
	31 Mawrth 2022 £000	Refeniw o £000	Refeniw i £000	31 Mawrth 2023 £000	
BALANSAU YSGOLION					
Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion	33,370	1,792	(13,712)	21,450	Y sefyllfa net ar falansau ysgolion unigol, sy'n cynnwys gwargedion, diffygion a'r diffyg cyffredinol ar y Gronfa Gydgyflenwi
Cathays – Cynnal y Cae Chwarae	3	0	0	3	Cynnal llwybr ar hyd ochr Ysgol Uwchradd Cathays
Atgyweirio Ysgolion Cynradd/Arbennig	1,122	268	(139)	1,251	Y balans cyffredinol a ddelir ar y cynllun cydgyflenwi ar gyfer atgyweirio adeiladau ysgolion
	34,495	2,060	(13,851)	22,704	
CRONFEYDD WRTH GEFN YSGOLION					
Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol	85	13	(22)	76	Balansau dros ben o bob ysgol sy'n gweithredu cynllun gofal plant y tu allan i oriau ysgol. Gall pob ysgol ddefnyddio'r rhain i gydbwysu eu sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn
Arlwyo Ysgolion	990	0	(990)	0	Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion, gan gynnwys gwelliannau i geginau a system drafod heb arian parod
Cyllid Fformiwla Ysgolion	3,548	184	(1,064)	2,668	Gwariant nas cynlluniwyd ac nas rhagwelwyd yr aethpwyd iddo gan neu ar ran cyllidebau dirprwyedig ysgolion

	Balans	Cyfraniadau		Balans	Pwrpas y Gronfa Wrth Gefn / I ariannu:
	31 Mawrth 2022 £000	Refeniw o £000	Refeniw i £000	31 Mawrth 2023 £000	
Seilwaith TGCh Ysgolion	171	0	0	171	Amnewid TGCh Ysgolion ar sail gylchol er mwyn sicrhau bod offer a seilwaith yn gyfredol ac i osgoi darfodiad
Cynllun Trefniadaeth Ysgolion	2,935	10,934	(10,236)	3,633	Rheoli goblygiadau llif arian parod model ariannol y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion
	7,729	11,131	(12,312)	6,548	
CRONFEYDD WRTH GEFN ERAILL Y CYNGOR					
Gofal Cymdeithasol Oedolion	3,415	800	(808)	3,407	Pwysau gwasanaeth-benodol a gwella gwytnwch ariannol
Prentisiaethau a Hyfforddeion	619	445	(151)	913	Cynllun Prentis Corfforaethol
Gwasanaethau Profedigaeth	152	794	(912)	34	Rhaglen wedi'i chynllunio o adnewyddu a gwella
Rheoliadau Rheoli Adeiladau	196	0	(20)	176	Effeithiau llyfnhau diffygion yn y dyfodol o fewn cyfrif rheoli adeiladau wedi'i neilltuo
Arian Cyfatebol Parc Bute	73	0	(22)	51	Arian cyfatebol ar gyfer mentrau a ariennir gan grantiau mewn perthynas â Pharc Bute, yn unol â chytundeb Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Datblygu Achos Busnes Cyfalaf	900	1,000	(331)	1,569	Datblygu achosion busnes cyfalaf
Hyfforddiant Academi Caerdydd	78	0	(28)	50	Mentrau cymorth a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r Academi
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd	201	0	(29)	172	Cyfraniad y Cyngor i Gyd-Gabinet Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Gwaddol Cartref Cŵn Caerdydd	382	41	(160)	263	Rhoddion a adawyd i Gartref Cŵn Caerdydd i'w defnyddio ar gyfer gwelliannau i'r cartref
Ardal Fenter Caerdydd	2,240	1,557	0	3,797	Ardal Fenter Caerdydd mewn blynyddoedd i ddod
Gwaith ar y Farchnad Ganolog	185	0	(29)	156	Gwaith ym Marchnad Ganolog Caerdydd ac fel arian cyfatebol posibl ar gyfer cynigion grant allanol
Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog	1,096	768	(420)	1,444	Gwasanaethu cerbydau trafndiaeth canolog
Gwasanaethau Plant	4,841	0	(1,593)	3,248	Gwella gwytnwch
Digwyddiadau'r Ddinas	1,000	0	0	1,000	Digwyddiadau sy'n cyfrannu at yr economi
Rheolaeth a Mentrau Dinas-gyfan	3,012	0	(591)	2,421	Rheolaeth a mentrau dinas-gyfan gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer marchnata a seilwaith
Pontio Gwasanaethau yn y Gymuned	105	0	0	105	Integreiddio cyfleusterau cymunedol yn well ar draws y sector cyhoeddus
Mentrau Cymunedol	1,767	299	0	2,066	Mentrau sy'n deillio o waddol y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf
Ailwampio Cysylltu â Chaerdydd	10	0	0	10	Ehangiad oherwydd rheoliadau newydd a newidiol
Digwyddiadau Corfforaethol a Gwasanaethau Diwylliannol*	2,919	2,048	(110)	4,857	Astudiaethau dichonolrwydd a chostau digwyddiadau mawr a gwrthbwyso pwysau yn y dyfodol sy'n deillio o amrywiadau o ran incwm o fewn Lleoliadau a Gwasanaethau Diwylliannol
Swyddogaeth Landlord Corfforaethol	636	0	(131)	505	Swyddogaethau landlord corfforaethol ar draws y Cyngor er mwyn darparu model gweithredu cydlynol a masnachol
Risg Adferiad Corfforaethol	4,250	0	0	4,250	Lliniaru'r risg o bontio ar ôl y pandemig
Cymorth Costau Byw	2,194	0	(2,194)	0	Grant dewisol Llywodraeth Cymru am gymorth costau byw

	Balans	Cyfraniadau		Balans	Pwrpas y Gronfa Wrth Gefn / I ariannu:
	31 Mawrth 2022 £000	Refeniw o £000	Refeniw i £000	31 Mawrth 2023 £000	
Pwysau Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor	4,153	0	(2,000)	2,153	Cynnydd tymor canolig yng ngwariant Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor
Pwysau Galw	4,652	2,750	0	7,402	Gwydnwch ariannol i helpu i reoli anwadalwch ac ansicrwydd o ran y galw
Trawsnewid Digidol	2,942	0	(457)	2,485	Ffyrdd newydd o weithio
Rhyddhad Ardrethi Dewisol	100	0	0	100	Diwydrwydd dyladwy Ardrethi Annomestig
Rheoli mewn Argyfwng, Diogelu ac Atal	139	0	0	139	Mesurau ataliol mewn perthynas â diogelu, yr agenda Prevent a rheoli argyfyngau
Newidiadau Cyflogeion	8,413	3,000	(766)	10,647	Costau sy'n gysylltiedig â diswyddo gwirfoddol a chostau cyflogeion eraill yn y dyfodol
Tai Gwag ac Anghenion Tai	1,223	484	(133)	1,574	Anghenion tai gan gynnwys gweithgareddau'n ymwneud â buddsoddi mewn tai gwag a dod â nhw'n ôl i ddefnydd
Arbed Ynni (Caerdydd Un Blaned)	1,245	100	(48)	1,297	Mentrau cadwraeth ynni
Anwadalrwydd y Farchnad Ynni	1,336	2,000	0	3,336	Amrywiadau disgwylidig yng nghost ynni
Gwarantwr Teulu	339	0	0	339	Trosglwyddo teuluoedd o lety dros dro i gartrefi parhaol
Ynys Echni	7	0	0	7	Mentrau, atgyweiriadau ac adnewyddiadau
Canfod Twyll	44	0	0	44	Ategu costau staffio a chostau eraill sy'n gysylltiedig â chanfod twyll
Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol	140	0	0	140	Mentrau Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yn y dyfodol, gan gynnwys prosiectau mewn cysylltiad ag uwchraddiadau TGCh
Cronfa Prosiect ac Wrth Gefn Awdurdod yr Harbwr	104	26	0	130	Gwella seilwaith, asedau, gweithgareddau neu wasanaethau ym Mae Caerdydd neu o'i amgylch
Adran Briffyrdd 278	264	0	(60)	204	Buddsoddiad priffyrdd
Digartrefedd	2,241	0	(335)	1,906	Cynnydd mewn pwysau digartrefedd
Cymorth Tai	734	0	0	734	Gwella cynaliadwyedd trwy gynnal annibyniaeth pobl yn eu cartrefi eu hunain
Cyfrif Cadw TGCh	716	0	(89)	627	Mentrau Gwella Prosesau Busnes a mentrau TGCh eraill y dyfodol
Cwrt Insole*	74	39	0	113	Rhwymedigaethau atgyweirio adeiladau'r Cyngor yn unol â'r telerau prydles
Cymorth Arolygiaeth	1,108	0	0	1,108	Ymgynghoriaeth angenrheidiol ar gyfer yr amgylchedd arolygu a rheoleiddio
Yswiriant	7,919	269	0	8,188	Amddiffyn rhag hawliadau yswiriant posibl yn y dyfodol
Buddsoddi i Arbed	261	0	0	261	Defnyddir mewn cysylltiad â chynlluniau refeniw buddsoddi-i-arbed
Storfa Offer ar y Cyd	515	0	0	515	Gwrthbwysio diffygion neu eitemau gwariant untro yn y gyllideb gyfun yn y dyfodol
Cynllun Datblygu Lleol	400	0	(125)	275	Cynllun Datblygu Lleol ac unrhyw apeliadau neu adolygiadau barnwrol posibl
Prosiectau Mawr	1,006	0	(498)	508	Prosiectau Mawr

	Balans	Cyfraniadau		Balans	Pwrpas y Gronfa Wrth Gefn / I ariannu:
	31 Mawrth 2022 £000	Refeniw o £000	Refeniw i £000	31 Mawrth 2023 £000	
Datblygu Aelodau	170	0	(137)	33	Meddalwedd TGCh aelodau
Etholiad Dinesig	880	76	(625)	331	Etholiadau lleol
Municipal Mutual Insurance	935	0	0	935	Atebolrwydd i dalu canran o hawliadau a setlwyd yn flaenorol gan Municipal Mutual Insurance (MMI) a chyfrannu at gost hawliadau a setlir yn y dyfodol
Atgyweiriadau'r Theatr Newydd	210	198	0	408	Rhwymedigaethau atgyweirio adeiladau'r Cyngor yn unol â'r telerau prydles
Diwydrwydd Dyladwy Ardrethi Annomestig	60	0	0	60	Diwydrwydd dyladwy Ardrethi Annomestig
Parcio a Gorfodi	1,985	5,429	(6,392)	1,022	Gwargedion i gynlluniau parcio a gorfodi, y mae'n rhaid, o dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1984, eu hailfuddsoddi mewn Cynlluniau Traffig Ffyrdd. Nodir manylion ychwanegol yn y nodyn isod
Rheoli Asedau Eiddo	16	0	0	16	Rheoli amseru ac amrywiadau incwm o ffioedd sy'n ymwneud â gwerthu eiddo
Canolfan y Ddraig Goch	1,957	930	0	2,887	Gofynion cyllido adeiladau
Rhentu Doeth Cymru	341	241	0	582	Hyfforddiant a darparu gwasanaethau mewn perthynas â Rhentu Doeth Cymru
Adnoddau	3,254	365	(209)	3,410	Nifer o feysydd o fewn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau, yn arbennig lle mae gofyn am bontio i ddulliau amgen o weithredu
Datblygu a Hyfforddiant Craffu	118	0	(37)	81	Datblygiad a hyfforddiant aelodau craffu
Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir	108	0	(108)	0	Hyblygrwydd yn y dyfodol o ran costau'r Cyngor o'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir
Technoleg Gofal Cymdeithasol	655	0	(322)	333	Datblygiadau TGCh Gofal Cymdeithasol
Symudedd Gweithwyr Gofal Cymdeithasol	600	0	(58)	542	Cynyddu capasiti gwasanaeth cymorth cartref ar y cyd â datgarboneiddio gwasanaethau
Fframwaith Adeiladu De-ddwyrain Cymru	1,253	756	(7)	2,002	Neilltuo refeniw i ariannu costau'r prosiect yn y dyfodol. Gweddill y cyllid i'w ddosbarthu ymhlith yr awdurdodau sy'n cymryd rhan
Cyllideb Strategol	6,396	1,958	0	8,354	Gwydnwch ariannol a gofynion cyllidebol y Cyngor yn y dyfodol dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig
Rheoli'r Trysorlys	11,318	3,500	0	14,818	Rheoli risg mewn perthynas â phrosiectau mawr a chynnig rhywfaint o amddiffyniad a hyblygrwydd i'r rhaglen gyfalaf ehangach
Gwasanaeth Cyfieithu Cymru	419	0	(88)	331	Rheoli amrywiadau yn ystod y flwyddyn o ran cyllid a pherfformiad ariannol y gwasanaeth
Rheoli Gwastraff	1,183	1,183	(543)	1,823	Mentrau i gyflawni targedau ailgylchu a gwrthbwysio effaith tunelledd ychwanegol a chostau rheoli gwastraff cysylltiedig
Diwygio Lles	2,509	502	(128)	2,883	Liniaru pwysau a thoriadau cyllid yn y Gwasanaeth Budd-dal Tai yn dilyn trosglwyddo gwasanaethau fel rhan o'r broses o gyflwyno'r Cynllun Credyd Cynhwysol
Addysg Ieuencid a Chymunedol	952	54	(115)	891	Costau sy'n gysylltiedig ag adnewyddu canolfannau ieuencid
	105,665	31,612	(20,809)	116,468	

	Balans	Cyfraniadau		Balans	Pwrpas y Gronfa Wrth Gefn / I ariannu:
	31 Mawrth 2022 £000	Refeniw o £000	Refeniw i £000	31 Mawrth 2023 £000	
CYFRAN O GRONFEYDD WRTH GEFN CYDBWYLLGORAU					
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC)	3,123	670	0	3,793	Cyfran ganrannol y Cyngor o'r balansau cronedig a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig defnyddiadwy ym Margen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
	3,123	670	0	3,793	
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor	151,012	45,473	(46,972)	149,513	
CRONFEYDD WRTH GEFN CRT					
Gwydnwch Datblygu Tai	500	500	0	1,000	Gwella gwydnwch o fewn y Rhaglen Gyfalaf Datblygu Tai
Atgyweirio Tai a Chynnal a Chadw Adeiladau	9,022	0	(4,031)	4,991	Gwaith atgyweirio tai a lliniaru yn erbyn risg o fewn y diwydiant adeiladu
Cynydd Cyflenwad Tai	636	6,000	(636)	6,000	Cynyddu stoc dai a gwella gwydnwch o fewn y Rhaglen Gyfalaf Datblygu Tai
Diwygio Lles	429	0	0	429	Costau prosiect a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â materion i denantiaid y cyngor yn sgil y cap budd-daliadau a'r credyd cynhwysol.
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn CRT	10,587	6,500	(4,667)	12,420	
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG	161,599	51,973	(51,639)	161,933	

*Mae balans agoriadol Cwrt Insole wedi'i symud o'r Gronfa Wrth Gefn Digwyddiadau Corfforaethol a Gwasanaethau Diwylliannol.

Parcio a Gorfodi

Cynhyrchir y gronfa wrth gefn hon o wargedion a gyflawnir o Orfodi Parcio Sifil (GPS). Llywodraethir y defnydd o unrhyw warged gan Adran 55 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 sy'n nodi y gallai'r gwaged gael ei ddefnyddio i ariannu costau gweithredol gan gynnwys rhoi cymhorthdal i'r gwasanaeth gorfodi, cefnogi gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus teithwyr, cynllunio trafndiaeth a diogelwch ar y ffyrdd, cynnal meysydd parcio oddi ar y ffordd a phriffyrdd a chynnal a gwella'r amgylchedd.

2021/22 £000		2022/23 £000
776	Costau gweithredol / Parcio a Thrwyddedau	660
6,279	Gwasanaeth gorfodi	5,998
7,055	Cyfanswm Gwariant	6,658
(3,130)	Ffioedd parcio ceir talu-ar-y-stryd	(4,110)
(808)	Ffioedd parcio ceir oddi ar y stryd	(1,199)
(441)	Trwyddedau parcio preswylwyr	(367)
(1,903)	Hysbysiadau tâl cosb	(2,199)
(3,046)	Troseddau Traffig sy'n Symud	(3,450)
(449)	Car camera	(656)

2021/22 £000		2022/23 £000
(6)	Canolfan Gorfodi Traffig	0
(31)	Incwm arall	(106)
(9,814)	Cyfanswm Incwm	(12,087)
(2,759)	(Gwarged)/Diffyg Net Gorfodi Parcio Sifil	(5,429)
(983)	Cronfa Galedi Llywodraeth Leol Covid-19/Cynllun Cadw Swyddi	0
(3,742)	(Gwarged)/Diffyg Net Diwygiedig Gorfodi Parcio Sifil	(5,429)
	Neilltuadau i'r Gronfa Parcio Wrth Gefn:	
4,536	Balans 1 Ebrill	1,985
3,742	Cyfraniadau gan GPS	5,429
(6,293)	Cyfraniadau at referniw*	(6,392)
1,985	Balans 31 Mawrth	1,022

* Mae incwm wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig gan arwain at warged o £5.429 miliwn. Y swm a dynnwyd i lawr o'r gronfa wrth gefn tuag at gostau referniw oedd £6.392 miliwn, gan adael balans o £1.022 miliwn ar 31 Mawrth 2023. Roedd y lawr-dyniad yn cynnwys swm a gyllidebwyd o £5.935 miliwn i gefnogi ystod o wasanaethau, gan gynnwys cymorth a gwelliannau parhaus i wasanaethau trafndiaeth, parcio, priffyrdd ac amgylcheddol. Roedd hefyd yn cynnwys lawr-dyniadau penodol i gefnogi gwahanol gynlluniau a mentrau gwella cymeradwy.

25.3 Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn Ddefnyddiadwy

Mae'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn Ddefnyddiadwy yn cynrychioli derbyniadau cyfalaf sydd ar gael i ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol neu i dalu am wariant cyfalaf hanesyddol.

2021/22 £000		2022/23 £000
8,673	Balans ar 1 Ebrill	6,840
	Symudiadau yn ystod y Flwyddyn:	
2,649	Gwerthu tir, adeiladau ac asedau eraill	10,030
323	Adennill grantiau/arall	1,519
2,972		11,549
(3,781)	Ariannu Gwariant Cyfalaf	(10,378)
(1,009)	Darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau allanol	(331)
(15)	Arall	0
(4,805)		(10,709)
6,840	Balans ar 31 Mawrth	7,680

25.4 Grantiau Cyfalaf Heb Eu Defnyddio

Mae'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy Wrth Gefn yn cynrychioli grantiau a dderbyniwyd heb amodau sydd i'w cymhwyso i brosiectau gwariant cyfalaf a nodwyd yn Strategaeth Buddsoddi Cyfalaf 2023/24.

2021/22 £000		2022/23 £000
0	Balans ar 1 Ebrill	6,972
6,972	Trosglwyddo grantiau cyfalaf a chyfraniadau i grantiau cyfalaf heb eu defnyddio	0
6,972	Balans ar 31 Mawrth	6,972

26. Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy

26.1 Cronfa Ailbrisió Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn yn cynnwys yr enillion a wnaed gan y Cyngor sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth ei asedau anghyfredol. Mae'r balans yn cael ei leihau pan fo asedau ag enillion cronedig yn:

- cael eu hailbrisió ar-i-lawr neu gydag amhariad a bod yr enillion yn cael eu colli
- cael eu defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau a bod yr enillion yn cael eu defnyddio drwy ddibrisiant, neu
- cael eu gwaredu, a bod yr enillion yn cael eu gwireddu.

2021/22 £000		2022/23 £000
310,754	Balans ar 1 Ebrill	345,822
5,182	Addasu symiau o'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	0
46,288	Ailbrisió asedau ar-i-fyny	20,021
(14,253)	Ailbrisió ar-i-lawr asedau a cholledion amhariad nas codir i'r (Gwarged)/Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau	(815)
37,217	Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisió asedau anghyfredol nas rhoddir ar y (Gwarged)/Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau	19,206
(2,046)	Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant cost hanesyddol (a godir i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	(2,416)
(103)	Enillion cronedig ar asedau a werthir neu a ddilëir	0
(2,149)	Swm a ysgrifennwyd allan o'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	(2,416)
345,822	Balans ar 31 Mawrth	362,612

26.2 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn adlewyrchu gwahaniaethau rhwng arferion cyfrifyddu arferol a gofynion statudol. Credydir y Cyfrif â'r symiau a ddefnyddir fel cyllid ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae'n cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi, symiau a neilltuwyd i ad-dalu benthyciadau allanol.

Mae Nodyn 1 yn rhoi manylion ar ffynhonnell yr holl drafodion a bostiwyd i'r Cyfrif hwn, ar wahân i'r rhai sy'n cynnwys y Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn.

2021/22 £000		2022/23 £000
947,365	Balans ar 1 Ebrill	977,282
	Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf wedi'i ddebydu neu greydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:	
(64,762)	Costau dibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol	(90,672)
(928)	Amorteiddio asedau anniriaethol	(604)
25,211	Gwrthdroad amhariad blaenorol ar ailbrisió	19,778

2021/22 £000		2022/23 £000
(68,920)	Colledion ailbriso ar Eiddo, Peiriannau ac Offer	(15,909)
0	Symudiad mewn Asedau a Gedwir i'w Gwerthu	0
(2,692)	Gwariant ar GRAGDS	(8,407)
(616)	Swm yr asedau anghyfredol a ysgrifennwyd allan wrth waredu neu werthu fel rhan o enillion/colled wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(2,150)
(112,707)		(97,964)
(3,139)	Addasu symiau i'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn (gan gynnwys addasiad cost hanesyddol)	2,416
(115,846)	Gwerth net a ysgrifennwyd allan o'r asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(95,548)
	Ariannu cyfalaf a gymhwyswyd yn ystod y flwyddyn:	
3,781	Derbyniadau Cyfalaf	10,378
3,940	Ariannu Refeniw Uniongyrchol	3,995
120,060	Grantiau a chyfraniadau	114,112
44,538	Darpariaeth Refeniw Ddarbodus	40,494
1,009	Derbyniadau cyfalaf i ddarparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau allanol	331
(933)	Gostyngiad mewn dyledwyr benthyciad	(1,698)
172,395		167,612
(26,632)	Symudiadau yng ngwerth Eiddo Buddsoddi	(2,444)
977,282	Balans ar 31 Mawrth	1,046,902

26.3 Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn Ohiriedig

Mae'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn Ohiriedig yn cadw'r enillion a gydnabyddir ar waredu asedau anghyfredol ond y mae setliad arian parod eto i'w wneud ar eu cyfer. Nid yw'r Cyngor yn trin yr enillion hyn fel rhai defnyddiadwy ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf newydd nes eu bod wedi'u gwireddu.

2021/22 £000		2022/23 £000
5,003	Balans ar 1 Ebrill	5,003
0	Trosglwyddo elw gwerthiannau gohiriedig a gredydir fel rhan o'r enillion/colled wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	66
0	Trosglwyddiadau i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn wrth i arian parod ddod i law	(5,003)
5,003	Balans ar 31 Mawrth	66

Mae derbyniadau arian parod yn 2022/23 yn ymwneud yn bennaf â gwaredu tir yn y Sgwâr Canolog.

26.4 Cronfa Ailbriso Offerynnau Ariannol Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Ailbriso Offerynnau Ariannol Wrth Gefn yn cynnwys yr enillion a wnaed gan y Cyngor o ganlyniad i gynnydd yng ngwerth ei fuddsoddiadau a gedwir fel Offerynnau Ariannol sydd wedi eu dethol i fod yn Werth Teg drwy Incwm Cynhwysfawr Arall h.y. y rheini a gedwir ar gyfer amcanion gwasanaeth neu ddibenion polisi. Mae'r balans yn cael ei leihau pan fydd buddsoddiadau ag enillion cronedig yn:

- cael eu hailbriso ar-i-lawr neu gydag amhariad a bod yr enillion yn cael eu colli

- cael eu gwaredu, a bod yr enillion yn cael eu gwireddu.

2021/22 £000		2022/23 £000
6,984	Balans ar 1 Ebrill	10,366
3,382	Ailbriso buddsoddiadau nas codir yn y Gwarged/Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau (ar-i-lawr)/ar-i-fyny	1,376
10,366	Balans ar 31 Mawrth	11,742

Mae'r rhan fwyaf o'r balans yn ymwneud â chyfranddaliad y Cyngor yn Bws Caerdydd nad yw wedi'i restru ar unrhyw farchnad a ddyfynnir, ac y mae prisiad yn seiliedig ar werth net y cwmni a adroddwyd arno yn unol â'i Gyfrifon Blyneddol er mwyn cydymffurfio â'r cyfrifon ar gyfer Offerynnau Ariannol. Nid yw unrhyw newid mewn gwerth yng nghyfrifon y Cyngor yn effeithio ar Drethdalwyr y Cyngor, y gyllideb refeniw na llif arian parod mewn unrhyw flwyddyn gan fod unrhyw symudiad yng ngwerth yr ased yn cael ei adlewyrchu yn y gronfa wrth gefn hon. Dylai unrhyw brisant gael ei drin â phwyll ac nid yw ond at ddibenion cyfrifyddu.

26.5 Cronfa Pensiynau Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Pensiynau Wrth Gefn yn cynnwys gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifyddu ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth ac ar gyfer buddion ariannu'n unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyngor yn cyfrifyddu buddion ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth i'r buddion gael eu hennill gan gyflogeion sy'n cronni blyneddol o wasanaeth, yn diweddarau'r rhwymedigaethau cydnabyddedig i adlewyrchu chwyddiant, rhagdybiaethau newidiol ac elw o fuddsoddi ar unrhyw adnoddau a neilltuir i dalu costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fudd a enillir gael ei ariannu gan fod y Cyngor yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i gronfeydd pensiwn neu yn y pen draw'n talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae'r balans ar y Gronfa Pensiynau Wrth Gefn felly'n dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan gyflogeion ddoe a heddiw a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi'u neilltuo i'w bodloni. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau bod arian wedi'i neilltuo erbyn yr amser y caiff buddion eu talu. Roedd gostyngiad sylweddol yn y gronfa pensiynau wrth gefn ar 31 Mawrth o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn bennaf oherwydd y newid yn y cyfraddau llog sy'n effeithio ar y gyfradd ostyngol a ddefnyddir yn y tybiaethau actiwaraid.

2021/22 £000		2022/23 £000
(1,085,373)	Balans ar 1 Ebrill	(855,336)
307,373	Enillion neu golledion actiwaraid ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn	726,020
(128,564)	Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â budd-daliadau ymddeol wedi'u debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg o ran Darparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(132,058)
2,574	Gwrthdroi symiau a gronnwyd o ran elfen pensiwn at y dyfodol	99
48,654	Cyfraniadau pensiynau cyflogwyr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	53,235
(855,336)	Balans ar 31 Mawrth	(208,040)

26.6 Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn cynnwys y gwahaniaethau a ddigwyddai fel arall ym Malans Cronfa'r Cyngor drwy Gronni ar gyfer absenoldebau a enillwyd y gwnaed yn iawn amdanynt ond nas cymerwyd yn ystod y flwyddyn e.e. hawliad gwyliau blynyddol a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i effaith Balans Cronfa'r Cyngor gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i ac o'r Cyfrif.

2021/22 £000		2022/23 £000
(17,693)	Balans ar 1 Ebrill	(17,054)
639	Y swm y bydd taliadau cydnabyddiaeth swyddogion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail gronol yn wahanol i'r taliadau cydnabyddiaeth i'w codi yn y flwyddyn yn unol â gofynion cyfrifyddu	76
(17,054)	Balans ar 31 Mawrth	(16,978)

26.7 Cyfrif Stocrestrau a Roddwyd

Mae'r Cyfrif Stocrestrau a Roddwyd yn cynrychioli gwerth y stocrestrau rhodd a gedwir fel ar 31 Mawrth.

Derbyniodd y Cyngor offer rhodd gan Wasanaethau a Rennir y GIG (GRGIG), am ddim cost, tuag at ei gyfrifoldebau Gofal Cymdeithasol.

2021/22 £000		2022/23 £000
3,211	Balans ar 1 Ebrill	9,234
6,023	Symudiad yn y Cyfrif Stocrestrau a Roddwyd	(1,273)
9,234	Balans ar 31 Mawrth	7,961

27. Asedau a Rhwymedigaethau Wrth Gefn

Asedau

Mae gan y Cyngor gyfran o ecwiti mewn nifer o eiddo sy'n deillio'n bennaf o'r cyfraniad tai fforddiadwy y mae datblygwyr yn ei roi at ddatblygiadau adeiladau newydd. Mae'r cyfrannau ecwiti'n amrywio o 20% i 40% gyda'r prynwr a enwebir gan y Cyngor yn rhoi balans yr adnoddau i brynu'r eiddo. Roedd yr eiddo hyn ar gyfer prynwyr tro cyntaf na allent fforddio prynu cartref ar y farchnad agored. Pan fydd perchennog yr eiddo am werthu'r cartref, caiff y Cyngor y cyfle cyntaf i enwebu prynwr o'r rhestr aros perchentyaeth â chymorth. Os nad oes enwebiad, caiff y perchennog werthu i'r farchnad agored ac mae gan y Cyngor hawl i'w gyfran berthnasol o werth gwaredu'r farchnad yn unol â'r gost ar yr eiddo. Trinnir hyn fel derbyniad cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn y daw i law. Cyfanswm amcangyfrifedig yr ecwiti ar 31 Mawrth 2023 yw £12.338 miliwn (£9.107 miliwn ar 31 Mawrth 2022).

Ym mis Mawrth 2015, cymeradwyodd y Cyngor gais gan Glwb Criced Morgannwg i ddileu 70% o'r balans benthyciad o £6.534 miliwn oedd yn ddyledus i'r Cyngor ac ailstrwythuro'r symiau gweddilliol yn unol â chredydwyr mawr eraill. Gweithredwyd hyn ar 21 Rhagfyr 2015 gan arwain at swm heb ei gasglu o £1.960 miliwn. Dechreuwyd ad-daliadau yn 2019/20, gydag ad-daliadau'n dod i gyfanswm o £392,000 i 31 Mawrth 2023. Mae'r clwb yn ymrwymedig i ad-dalu'r benthyciadau yn unol â'r telerau cytundebol, ond oherwydd yr ansicrwydd cyfredol o ran lefelau presenoldeb a datblygiad effeithiau Covid, mae'r Cyngor o'r farn bod risgiau adennill yn parhau ac mae'r balans sy'n ddyledus o £1.568 miliwn yn parhau i fod yn 100% amharedig ar 31

Mawrth 2023. Nid yw unrhyw falansau sy'n ddyledus wedi'u dangos yn y datganiadau ariannol ond maent wedi'u nodi fel ased wrth gefn i adlewyrchu'r symiau derbyniadwy posibl yn unol â'r benthyciad ailstrwythuredig arfaethedig.

O ran yr asesiad a gafwyd gan CThEF ar gyfer asesiad treth dirlenwi a danddatganwyd yn ôl yr honiad, y cosbau a llog perthnasol, mae gan y Cyngor daliad sy'n weddill ar falans y cyfrif o £749,000. Nid yw hyn yn golygu derbyn atebolrwydd ac os caiff yr asesiad ei newid neu ei glirio, caiff y swm ei ad-dalu gan CThEF.

Rhwymedigaethau

Ar 31 Mawrth 2023, roedd un hawliad o fwy na £10,000 yn erbyn y Cyngor nad oes yswiriant ar ei gyfer. Mae'r hawliadau'n cynnwys diswyddo annheg, gwahaniaethu ar sail hil ac anabled, a thorri contract. Amcangyfrifir bod y rhwymedigaeth bosibl o ran hawliadau yn £10,000 (£25,000 ar 31 Mawrth 2022) ac mae'r Cyngor yn ymwrthod ag atebolrwydd.

Mae hen Awdurdodau Cyngor Sir De Morgannwg, Cyngor Dinas Caerdydd (o dan yr hen enw Saesneg 'Cardiff City Council'), Cyngor Sir Morgannwg Ganol a Chyngor Bwrdeistref Taf Elái yn gredydwr i Municipal Mutual Insurance (MMI) Ltd ac yn gyfreithiol rwym gan Gynllun y Trefniant. Peidiodd MMI â chymryd busnes newydd ar 30 Medi 1992. Mae'r cynllun yn galluogi hawliadau newydd yn erbyn MMI a setlo hawliadau sydd heb eu casglu gyda MMI. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu darpariaeth o £149,000 gyda £935,000 miliwn wedi'i gadw mewn cronfa wrth gefn glustnodedig tuag at unrhyw atebolrwydd. Ystyrir bod hyn yn ddoeth yn seiliedig ar y cyngor actiwaraidd diweddaraf, fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar ganlyniad hawliadau wedi'u setlo.

Mae'r Cyngor wedi ymgymryd â nifer o gontractau ar gyfer gwasanaethau sy'n cynnwys trosglwyddo cyflogaeth y Cyngor i'r darparwr gwasanaeth newydd o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE). Mae cytundebau derbyn gyda'r cyflogwyr newydd yn galluogi cyflogaeth a drosglwyddwyd i barhau fel aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Os digwydd bod contractwr yn methu bodloni ei rwymedigaethau i'r Gronfa Bensiwn fel y rhestrowyd yn y cytundeb derbyn, bydd y Cyngor yn gweithredu fel gwarantwr ar gyfer y rhwymedigaethau pensiwn a gronwyd.

Mae'r Cyngor a CThEF yn parhau eu trafodaethau gyda golwg ar ddatrys asesiad treth dirlenwi a danddatganwyd o bosib a gafwyd gan y Cyngor o 1 Ebrill 2015 am wastraff a dipiwyd yn Safle Tirlenwi Ffordd Lamby. Mae CThEF yn asesu y dylai rhai deunyddiau a waredwyd fod wedi bod yn destun cyfradd dreth safonol yn hytrach na chyfradd is – y gwahaniaeth mewn treth yw £80 y dunnell. O ystyried bod hwn yn faes arbenigol a thechnegol, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu ag arbenigwyr treth amgylcheddol, PricewaterhouseCoopers, i gefnogi dull gweithredu'r Cyngor o ran arddangos bod y deunyddiau a dipiwyd yn gymwys am y gyfradd is. Yn amodol ar hyn, a rheolau perthnasol CThEF, mae risg y gallai fod angen i'r Cyngor dalu treth a llog ar dreth a danddatganwyd. Os cymeradwyr yr asesiadau, byddai'r Cyngor yn ystyried apeliadau neu broses liniaru. O ystyried natur dechnegol yr asesiad, mae'n dal yn anodd dangos y tebygolrwydd y bydd yr atebolrwydd hwn yn crisialu.

Yn ystod 2020/21, cytunodd y Cyngor fel yr unig gyfranddaliwr ar ystod o fesurau i fynd i'r afael â'r anawsterau y mae Cardiff City Transport Services Limited (Bws Caerdydd) ac Ymddiriedolwyr ei gynllun pensiwn yn eu hwynebu er mwyn cytuno arnynt, yn unol â Deddfwriaeth Bensiwn, ar brisiad tair blynedd y cynllun pensiwn ar 31 Mawrth 2018. Ar 3 Mawrth 2021, ymrwymodd y Cyngor i gytundeb ag Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Cardiff City Transport Services Limited sy'n golygu mai Cyngor Caerdydd fydd yn gyfrifol am holl rwymedigaethau pensiwn Bws Caerdydd yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor wedi dod yn gyflogwr statudol ar gronfeydd pensiwn Bws Caerdydd a'i fod yn gyfrifol am dalu cyfraniadau i'r cynllun tuag at fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg a nodwyd pan fydd asedau a rhwymedigaethau'n cael eu rhagamcanu fel rhan o adolygiadau actiwaraidd tair blynedd. Y rhestr o gyfraniadau ar hyn o bryd yw £250,000 y flwyddyn, i'w adolygu fel rhan o'r prisiad tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2024. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am

dreuliau gweithredu'r cynllun, ardoll y Gronfa Diogelu Pensiynau ac unrhyw gostau a threuliau eraill mewn perthynas â'i rwymedigaethau fel Cyflogwr Statudol a Phrif Gyflogwr. Bydd y costau hyn yn cael eu hadennill oddi wrth Fws Caerdydd, ond yn y pen draw y Cyngor sy'n gyfrifol am gostau o'r fath os na all y cwmni eu talu. Dangosir manylion asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar 31 Mawrth 2023 yn nodyn 13.

28. Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian Parod

2021/22 £000	Addasu gwarged neu ddiffyg net o ran darparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn rhai arian parod	2022/23 £000
(109,376)	Dibrisiant, amhariad ac amorteiddio	(87,213)
(77,335)	Taliadau a wneir ar gyfer buddion ymddeol (SCRh19) llai cyfraniadau cyflogwyr	(78,824)
(616)	Swm cario asedau anghyfredol a werthwyd neu a ddadgydnabuwyd	(2,150)
5,920	Cynnydd/(gostyngiad) mewn stoc	(1,245)
20,923	Cynnydd/(gostyngiad) mewn dyledwyr	(133)
(45,177)	Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr	52,661
(25,552)	Eitemau eraill nad ydynt yn arian parod sy'n effeithio ar warged neu ddiffyg net o ran darparu gwasanaethau	(679)
0	BDdPRC	9,635
(231,213)		(107,948)

2021/22 £000	Eitemau yn y gwarged/diffyg net o ran darparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu	2022/23 £000
2,624	Elw o asedau anghyfredol a buddsoddiadau	(943,853)
127,355	Grantiau/cyfraniadau cyfalaf a gydnabyddir yn DIGC	107,417
129,979		(836,436)

2021/22 £000	Llog a Difidendau	2022/23 £000
(235)	Llog a Gafwyd	(3,669)
33,983	Llog a Dalwyd	34,251
0	Difidendau a Gafwyd	0
33,748		30,582

29. Addasiadau Cyfnod Blaenorol

Nid oes unrhyw addasiadau cyfnod blaenorol.

30. Eitemau Eithriadol

Nid oes unrhyw eitemau eithriadol i'w datgelu.

31. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Nid oes digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd i'w hadrodd.

32. Dyddiad Awdurdodi'r Cyfrifon i'w Gyhoeddi

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon hwn i'w gyhoeddi ar 28 Mawrth 2024 gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau. Ystyriwyd digwyddiadau ôl-Fantolen hyd at y dyddiad hwn.



Cyfrif Refeniw Tai




STRONGER
FAIRER
GREENER



Cyflwyniad

Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i gynnal cyfrif ar wahân ar gyfer y costau sydd ynghlwm wrth reoli, atgyweirio a chynnal a chadw aneddiadau'r Cyngor. Gelwir hyn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).



Mae cynllun busnes a model ariannol 30-mlynedd, wedi'u cwblhau'n flynyddol i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn cynnig rhagolygon ariannol, perfformiad ac amcanion i'r CRT. Nod y cynllun yw dangos cynaliadwyedd hirdymor a hyfywedd ariannol y CRT dros y cyfnod ac mae'n cynnwys y dull o gynnal Safon Ansawdd Tai Cymru, effeithlonrwydd ynni, ailfodelu cartrefi, adfywio ystadau, gwaith diogelwch tân a sicrhau tai fforddiadwy newydd i ddiwallu'r angen.

Caiff cyfranogiad tenantiaid o ran llywio a darparu gwasanaethau ei groesawu a'i annog mewn sawl ffordd gan gynnwys Tîm Cynnwys Tenantiaid pwrpasol, cynadleddau, cyfarfodydd llais y tenant, diwrnodau gweithredu cymunedol, darparu gwybodaeth mewn Hybiau Dinasyddion, cyhoeddi'r Tenants' Times a chyfryngau cymdeithasol eraill.

Dangosodd yr arolwg boddhad tenantiaid diweddaraf fod:

- 80% o denantiaid yn fodlon â'u cymdogaeth fel lle i fyw ynddo
- 74% o denantiaid yn fodlon â'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymdrin ag atgyweiriadau
- 73.4% o'r ymatebwyr yn fodlon gyda'r gwasanaeth a ddarperir gan eu landlord cymdeithasol
- 76.7% o denantiaid yn fodlon bod eu rhent yn rhoi gwerth am arian

Risgiau a Rhagolygon Ariannol

Mae'r CRT yn cofnodi incwm a gwariant mewn perthynas â stoc dai'r Cyngor. Mae'r prif eitemau gwariant ar gyfer 13,853 eiddo'r Cyngor yn cynnwys atgyweiriadau a chynnal a chadw, taliadau ariannu cyfalaf ar fenthyciadau (llog a darpariaeth ar gyfer ad-dalu), goruchwyllo a rheoli (gan gynnwys ymgynghori â

thenantiaid, casglu rhenti, dyraniadau tai a rheoli eiddo ac ystadau). Mae'r prif ffrydiau incwm yn cynnwys rhent ac incwm o daliadau gwasanaeth.

Lle mae'r CRT yn gwario arian cyfalaf, yn enwedig pan delir am hyn drwy fenthycu, mae hyn yn arwain ar ymrwymadau ariannol hirdymor i'r trethdalwr ac mae'n hanfodol bod penderfyniadau gwariant yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy, nawr yn ogystal ag yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn pennu lefel y rhent CRT o fewn fframwaith polisi a bennir gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynwyd y polisi Rhent Tai Cymdeithasol 5-mlynedd yn 2020/21 a bydd yn parhau tan 2024/25. Mae'n galluogi cynyddu'r rhent dim mwy nag 1% yn uwch na chyfradd y mynegai prisiau defnyddwyr (MPD). Pan fo MPD y tu allan i'r ystod 0 i 3%, mae angen penderfyniad gweinidogol ar gyfer y flwyddyn honno.

Nid oes cadarnhad o'r dull polisi rhent y tu hwnt i 2024/25. Mae hyn, ac ansicrwydd arall, yn enwedig o ran effaith chwyddiant, yn peri risg sylweddol i wytnwch y CRT a chynllunio busnes gan na all y Cyngor reoli neu ragfynegi'n gywir elfen allweddol o'r cynllun. At hynny, mae risg ac ansicrwydd sylweddol yn parhau o ran effeithiau prisiau cynyddol yn y dyfodol ar gyfer rheoli'r stoc dai bresennol a datblygu stoc newydd; galw cynyddol am dai a newidiadau posib mewn safonau tai i wella perfformiad ynni.

Perfformiad Ariannol 2022/23

Adroddodd y CRT sefyllfa gytbwys ar gyfer 2022/23 ar ôl trosglwyddiad net i gronfeydd wrth gefn clustnodedig o £1.833 miliwn tuag at wariant yn y dyfodol ar brynu cartrefi ychwanegol i ateb y galw am dai fforddiadwy. Roedd y sefyllfa gyffredinol yn cynnwys costau ariannu cyfalaf is yn deillio o daliadau llog is a darpariaeth ar gyfer ad-dalu dyled oherwydd oedi mewn rhai prosiectau; arian grant ychwanegol; llai o wariant ar atgyweiriadau a chynnal a chadw yn erbyn cyllidebau paentio a phroffion trydanol allanol.


Roedd incwm rhent a thaliadau gwasanaeth yn uwch na'r gyllideb oherwydd llai o golledion rhent eiddo gwag a gofynion darpariaeth dyledion drwg yn seiliedig ar lefelau ôl-ddyledion diwedd y flwyddyn. Yn ogystal, roedd arbedion swyddi gwag sylweddol ac arbedion effeithlonrwydd eraill ar draws y swyddogaethau, yn rhannol wedi'u gwrthbwyso gan gynnydd mewn llety hostel a chostau safleoedd cyffredinol. Roedd lefelau eiddo gwag yn 2.20% fel canran o'r stoc gyffredinol (1.49% yn 2021/22)

Roedd cronfeydd wrth gefn clustnodedig CRT a Balans Cyffredinol y CRT yn £12.420 miliwn a £15.502 miliwn yn y drefn honno ar 31 Mawrth 2023.

Gwerth ein stoc dai yn y cyfrifon yw £678.244 miliwn. Cafodd yr aneddiadau eu hail-brisio yn 2021/22 ac ystyrir mai gwerth yr eiddo gwag yw £1.718 biliwn. Yn unol â gofynion prisio, addaswyd hyn ar-i-lawr, yn ein hachos ni gan ffactor addasu o 38% er mwyn dangos cost economaidd darparu tai cymdeithasol am lai na rhent y farchnad. Disgwylir i'r broses brisio nesaf ddigwydd yn 2023/24.

Gwariant ac Ariannu Cyfalaf

Funding of Capital Expenditure



Y gwariant yn ystod y flwyddyn oedd £76.352 miliwn, gyda buddsoddiad mewn adfywio ystadau, ail-fodelu'r stoc tai, deunydd yr aneddiadau, addasiadau i bobl anabl, a chaffael a datblygu Tai Cyngor newydd. Yn ystod y flwyddyn gwnaed cais am - a dyfarnwyd - grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, fel ar gyfer Diogelwch Adeiladau ar flocliau fflatiau uchel, tai â gofal ac ôl-ffitio ynni.

Mae'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf yn fesur o ddyledion mewn perthynas â'r CRT. Ar 31 Mawrth 2023, mae hyn yn £335.003 miliwn; cynnydd o £10.264 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rhagwelir y bydd yn cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf fel y nodir yng Nghyllideb Refeniw CRT 2023/24 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2023. Rhaid i bob benthyciad fod yn fforddiadwy nawr ac yn y dyfodol gan y bydd yn ofynnol iddo gael ei ad-dalu gyda llog.

Cyfrif Incwm a Gwariant

Mae'r Cyfrif Incwm a Gwariant CRT yn dangos y gost economaidd yn ystod y flwyddyn o ran darparu gwasanaethau tai'n unol ag arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol yn hytrach na'r swm i'w ariannu o renti a grantiau'r llywodraeth. Mae Cyngorau'n codi trethi i dalu am wariant yn unol â rheoliadau; gallai hyn fod yn wahanol i gostau cyfrifyddu.

2021/22 £000		Nodyn	2022/23 £000
	Rheoli a chynnal a chadw yn cynnwys:		
25,010	Atgyweiriadau a chynnal a chadw		30,076
33,100	Goruchwyllo a rheoli		37,029
291	Rhenti, ardrethi, trethi a chostau eraill		407
372	Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus		752
34,139	Dibrisiant, amhariad a cholledion ailbriso asedau anghyfredol	8	13,258
0	Symudiad mewn Asedau a Gedwir i'w Gwerthu		0
3,341	Symiau a gyfeirir gan Lywodraeth Cymru sy'n wariant yn unol â'r Cod	9	876
42	Costau rheoli dyledion		35
96,295	Cyfanswm Gwariant		82,433
(77,684)	Rhenti anheddau		(80,732)
(63)	Rhenti eiddo nad ydynt yn anheddau		(26)
(11,514)	Costau gwasanaethau a chyfleusterau		(13,357)
(3,310)	Symiau a gyfeirir gan Lywodraeth Cymru sy'n incwm yn unol â'r Cod		(876)
(92,571)	Cyfanswm Incwm		(94,991)
3,724	Cost Net Gwasanaethau'r CRT fel y'u cynhwyswyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant		(12,558)
	Cyfran y CRT o'r incwm a gwariant gweithredol sydd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:		
(754)	(Elw)/colled ar werthu asedau anghyfredol CRT		(1,532)
13,211	Llog taladwy a thaliadau tebyg		13,462
(62)	Newidiadau yng ngwerth teg eiddo buddsoddi		0
0	Llog ac Incwm Buddsoddi		0
(30,552)	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau perthnasol		(47,617)
(14,433)	(Gwarged)/Diffyg ar gyfer y flwyddyn ar Wasanaethau CRT		(48,245)

Symudiad ar Falans CRT

2021/22 £000		Nodyn	2022/23 £000
(15,502)	Balans ar 31 Mawrth wedi'i gario ymlaen		(15,502)
(14,433)	(Gwarged) neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar y Datganiad Incwm a Gwariant CRT		(48,245)
7,547	Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan y rheoliadau	1	46,412
(6,886)	(Cynnydd)/gostyngiad net cyn trosglwyddiadau i neu o gronfeydd wrth gefn		(1,833)
6,886	Trosglwyddiadau i/(o) gronfeydd wrth gefn clustnodedig		1,833
0	Cynnydd neu ostyngiad yn y flwyddyn ar y CRT		0
(15,502)	Balans ar 31 Mawrth wedi'i gario ymlaen		(15,502)

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

1. Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido dan y Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i'r cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyngor yn y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol i'r adnoddau a nodir gan ddarpariaethau statudol fel y maent ar gael i'r Cyngor i dalu gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

2021/22 £000		Nodyn	2022/23 £000
	Addasiadau i Adnoddau Refeniw		
	Mae'r symiau y mae'r incwm a'r gwariant sydd wedi'u cynnwys yn y DIGC yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn wedi'u cyfrifo yn unol â gofynion statudol		
5,356	Costau pensiwn (trosglwyddwyd i/o'r Gronfa Pensiynau Wrth Gefn)	4	5,281
(290)	Taliadau Cydnabyddiaeth Swyddogion (trosglwyddwyd i'r Gronfa Absenoldeb Cronedig Wrth Gefn)		(199)
11,345	Costau dibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol	8	13,618
24,114	Colledion ailbriso asedau anghyfredol		667
(1,407)	Gwrthdroad amhariad blaenorol ar ailbriso		(1,027)
86	Amorteiddio asedau anniriaethol		0
(62)	Trosglwyddiadau yng ngwerth marchnad eiddo buddsoddi		0
0	Symudiad mewn Asedau a Gedwir i'w Gwerthu		0
(30,552)	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau perthnasol		(47,617)
31	Symiau a gyfeirir gan Lywodraeth Cymru		0
(753)	Asedau anghyfredol a ysgrifennwyd allan fel rhan o elw/colled wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant CRT		(1,532)
(13,015)	Darpariaeth Ddarbodus ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf		(12,566)
(2,400)	Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y CRT		(3,037)
0	Credyd ar gyfer costau gwaredu sy'n gallu cael eu talu o'r derbyniadau cyfalaf deilliannol		0
(7,547)	Cyfanswm Addasiadau		(46,412)

2. Incwm Rhent

Dyma'r cyfanswm incwm rhent sy'n ddyledus ar gyfer y flwyddyn ar ôl gwneud lwfans ar gyfer eiddo gwag ac ati. Roedd colledion rhent eiddo gwag yn cyfrif am 2.20% o gyfanswm yr incwm rhent posibl (2.51% yn 2021/22). Roedd rhenti cyfartalog yn £113.07 yr wythnos (£110.38 yn 2021/22) yn seiliedig ar flwyddyn 52 wythnos.

3. Ôl-ddyledion Rhent, Ôl-ddyledion Costau Gwasanaeth a Darpariaeth Dyledion Drwg

Yn ogystal roedd y symiau canlynol yn ddyledus gan denantiaid:

31 Mawrth 2022			31 Mawrth 2023	
Ôl-ddyledion £000	Darpariaeth dyledion drwg £000		Ôl-ddyledion £000	Darpariaeth dyledion drwg £000
		Ôl-ddyledion Rhent		
4,720	3,486	Aneddiadau	5,068	3,744
426	426	Hosteli / llety arall	584	584
5,146	3,912	Cyfanswm Ôl-ddyledion Rhent	5,652	4,328
		Arall		
88	53	Taliadau gwasanaeth	107	65
269	269	I'w adennill gan denantiaid	287	287
357	322	Cyfanswm Ôl-ddyledion Eraill	394	352
5,503	4,234	Cyfanswm	6,046	4,680

Yn ystod 2022/23 cafodd dyledion gwerth cyfanswm o £306,000 eu hysgrifennu allan fel anadenilladwy (£489,000 yn 2021/22).

4. Costau Pensiwn

Yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 - Buddion Cyflogeion (SCRh19) roedd y swm a oedd wedi'i gynnwys o fewn Goruchwyliaeth a Rheoli o ran costau cyflogeion yn cynnwys y gost gwasanaeth gyfredol ar gyfer pensiynau. I sicrhau bod y gost pensiwn i'r CRT yn cyfateb i gyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn ynghyd ag unrhyw fuddion yn ôl disgrisiwn i gyn-staff tai, gwnaed trosglwyddiad i'r Gronfa Pensiynau Wrth Gefn fel a ganlyn:

2021/22		2022/23
£000		£000
9,510	Cost gwasanaeth cyfredol	10,101
(4,157)	Cost cyfraniadau cyflogeion a buddion disgrisiynol	(4,817)
3	Croniad Straen Pensiwn	(3)
5,356	Trosglwyddiad Net i'r Gronfa Pensiynau Wrth Gefn	5,281

Ni wnaed ymdrech i ddosrannu cyfran o'r gost llog pensiynau a'r elw disgwylidig ar asedau pensiwn i'r CRT gan nad oes sail ddilys i ddosrannu.

5. Stoc Dai

Dangosir stoc dai'r Cyngor isod:

31 Mawrth 2022		31 Mawrth 2023
7,382	Tai	7,403
634	Byngalos	634
5,253	Fflatiau/fflatiau un ystafell	5,309
171	Fflatiau deulawr	177
349	Cyfateiladau ymddeol	330

13,789	Cyfanswm	13,853
--------	----------	--------

Mae gan y Cyngor hefyd hosteli a llety ansafonol/dros dro sy'n darparu'r canlynol:

31 Mawrth 2022		31 Mawrth 2023
112	Lleoedd gwely mewn hosteli	112
127	Fflatiau mewn hosteli	179
239	Cyfanswm	291

6. Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf

2021/22		2022/23
£000		£000
301,370	Gofyniad Ariannu Cyfalaf Agoriadol	324,739
	Gwariant Cyfalaf:	
58,054	Eiddo, Peiriannau ac Offer	75,476
0	Asedau anniriaethol gan gynnwys asedau anniriaethol sy'n cael eu hadeiladu	0
0	Eiddo Buddsoddi	0
3,342	Gwariant ar GRAGDS	876
12,536	Neilltuo tir	1,365
	Ffynonellau Cyllid:	
(1,276)	Derbyniadau Cyfalaf	(3,357)
(33,872)	Grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau eraill *	(48,494)
(2,400)	Cyfraniadau a chronfeydd refeniw wrth gefn uniongyrchol	(3,036)
(13,015)	Darpariaeth refeniw a chyfalaf ddarbodus ar gyfer ad-dalu benthyciadau	(12,566)
324,739	Gofyniad Ariannu Cyfalaf Clo	335,003
	Eglurhad o symudiadau yn ystod y flwyddyn:	
23,369	Cynnydd / (Gostyngiad) yn yr angen sylfaenol i fenthyca (nas cefnogir gan gymorth ariannol y llywodraeth)	10,264
23,369	Cynnydd yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf	10,264

* Derbyniwyd a defnyddiwyd £9.568 miliwn (£9.557 miliwn yn 2021/22) o Grant Atgyweiriadau Mawr gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

7. Derbyniadau Cyfalaf

Roedd elw o waredu Asedau CRT yn ystod 2022/23 fel a ganlyn:

- Cyfraniadau Prynu Anheddau a Chartrefi Cyngor £344,000 (£257,000 yn 2021/22)
- Tir £1.192 miliwn (£541,000 yn 2021/22)

8. Dibrisiant, Amhariad ac Ailbriso a Godir

Codwyd dibrisiant ac amhariad ar asedau CRT fel y dangosir yn y tabl isod. Nid yw taliadau o'r fath i'r CRT a newidiadau mewn priso'n effeithio ar y swm gofynnol i'w gasglu gan renti fel yr holl addasiadau o'r fath i asedau anghyfredol, fel y mae'n ofynnol eu niwtraleiddio o gronfeydd cyfalaf wrth gefn.

2021/22		2022/23
£000		£000
8,933	Anheddau'r Cyngor	11,801
2,117	Tir ac adeiladau	680
380	Cerbydau, peirianwaith ac offer, asedau anniriaethol, asedau dros ben, ac asedau sy'n cael eu hadeiladu	1,137
11,430	Cyfanswm Dibrisiant, Amorteiddio ac Amhariad	13,618
21,013	Anheddau'r Cyngor	0
1,643	Tir ac adeiladau	(92)
52	Cerbydau, peirianwaith ac offer, asedau anniriaethol, asedau dros ben, ac asedau sy'n cael eu hadeiladu	(268)
22,708	Cyfanswm Ailbriso	(360)
34,138	Cyfanswm	13,258

9. Gwariant Refeniw a Ariennir gan Gyfalaf dan Statud (GRAGDS)

2021/22		2022/23
£000		£000
	Gwariant:	
3,222	Adeiladau nad yw Cyngor Caerdydd yn berchen arnynt	876
120	Grantiau a ddyfarnwyd nad ydynt yn grantiau tai	0
3,342	Codi i'r Cyfrif Incwm a Gwariant	876
	Ariannwyd gan:	
(3,311)	Grantiau a Chyfraniadau	(876)
(31)	Benthyca, Derbyniadau ac Adnoddau Cyfalaf eraill	0
(3,342)		(876)



Cyfrifon Grŵp



CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

STRONGER
FAIRER
GREENER



Cyflwyniad

Mae'r cyfrifon grŵp dilynol yn bodloni'r gofyniad yng Nghod 2022/23 sy'n nodi y dylai awdurdod lleol â buddiannau materol mewn is-gwmnïau, cwmnïau cysylltiedig a chyd-fentrau baratoi cyfrifon grŵp yn ogystal â chyfrifon endid sengl. Mae'r cyfrifon hyn yn cysoni'r canlyniadau gweithredu a balansau Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd a'i is-gwmni Cardiff City Transport Services Ltd (Bws Caerdydd), sy'n is-gwmni ag atebolrwydd cyfyngedig y mae'r cyngor yn berchen arno'n llwyr. Ar adeg drafftio'r cyfrifon hyn, mae cyfrifon 2022/23 Bws Caerdydd yn cael eu paratoi.

Mae'r datganiadau archwiliedig terfynol ar gyfer Bws Caerdydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 2021/22 i'w gweld ar wefan Tŷ'r Cwmnïau a thrwy'r **ddolen** hon.

Mae'r cwmni, yn gyffredin â llawer o weithredwyr trafndiaeth gyhoeddus, yn parhau i gael ei effeithio'n sylweddol gan newidiadau mewn patrymau teithio ers y pandemig COVID ac mae'n derbyn grant cymorth Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau Llywodraeth Cymru ynghyd â'r holl weithredwyr bysiau eraill.

Mae ansicrwydd mewn perthynas â phatrymau teithio, prinder llafur a phwysau costau cynyddol sylweddol yn effeithio'n uniongyrchol ar y cwmni yn ogystal ag ansicrwydd rheoleiddio a chyllido sy'n parhau i fod yn anodd eu rhagweld. Mewn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r cwmni, mae'n parhau i adolygu ei waith cynllunio busnes a chyfleoedd i fuddsoddi mewn fflyd a seilwaith modern i ddarparu gwasanaethau hanfodol. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda Bwrdd y cwmni i gwrdd â heriau'r dyfodol ac mae hynny'n cynnwys penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol i'r Bwrdd.

Mae gan y Cyngor fuddiant yn yr is-gwmnïau gweithredol hyn hefyd: Cardiff Business Technology Centre (CBTC), Atebion Solutions Ltd a Cardiff Heat Network Ltd. Ystyrir y buddiannau yn y sefydliadau hyn yn anfaterol o ran trosiant ac asedau net y grŵp. Nid yw'r Cyngor yn dibynnu ar y sefydliadau hyn o ran darparu gwasanaethau statudol ac nid ystyrir eu bod yn amlygu'r Cyngor i lefel berthnasol o risg fasnachol. Felly maent wedi'u heithrio o'r cysoniad yn 2022/23. Mae manylion am fuddiant y Cyngor yn y sefydliadau hyn yn nodyn 20 y Datganiadau Ariannol Craidd.

Sail Gysoni

Paratowyd y cyfrifon grŵp ar sail cysoniad llawn o drafodion a balansau ariannol y Cyngor a Bws Caerdydd. Dilëwyd trafodion a balansau rhyng-grŵp rhwng y Cyngor a'i is-gwmni yn llawn.

Polisïau cyfrifyddu

Paratwir y datganiadau ariannol yn y cyfrifon grŵp yn unol â'r polisïau a nodir yn y Polisïau Datganiad Cyfrifyddu gyda'r ychwanegiadau a'r eithriadau canlynol:

Buddion Ymddeol

Mae Bws Caerdydd yn gweithredu dau gynllun pensiwn a ariennir gan fudd diffiniedig y mae'n cyfrif amdanynt yn unol â FRS102. O fis Mawrth 2021 mae'r rhwymedigaethau ar gyfer y cynlluniau pensiwn wedi'u cynnwys gyda Datganiad Cyfrifon y Cyngor. Mae lefel y cyfraniadau a wneir i'r cynlluniau a chost cyfraniadau a gynhwysir yn y datganiadau ariannol wedi'u seilio ar argymhellion actiwariaid annibynnol. Mabwysiadwyd polisïau cyfrifyddu sy'n gyson â rhai'r Cyngor er y gallai'r rhagdybiaethau ariannol a fabwysiadwyd wahaniaethu. Nid yw'r cynlluniau hyn yn agored i aelodau newydd mwyach. Mae gan y cwmni

hefyd gynllun pensiwn prynu arian ar gyfer cyflogeion newydd. Mae costau pensiwn a godir i'r cyfrif elw a cholledion yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy gan y grŵp i'r cynllun pensiwn yn ystod y flwyddyn.

Treth Ar Werth

Cyfrifir am TAW a delir i endidau eraill y grŵp yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp i'r graddau nad oes modd ei hadennill gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi.

Costau Incwm a Gwariant ar gyfer Asedau Anghyfredol

Codir tâl o gronfa ailbrizio wrth gefn yr is-gwmni i gronfa incwm a gwariant wrth gefn y grŵp ar gyfer y gwahaniaeth rhwng dibrisiant a godir ar werth cyfredol asedau anghyfredol a ddelir gan yr is-gwmni a beth fyddai'r dibrisiant cost hanesyddol ar gyfer y flwyddyn.

Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp

2021/22				2022/23		
Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000		Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000
30,048	(26,007)	4,041	Rheolaeth Gorfforaethol	15,699	(8,340)	7,359
104,625	(45,208)	59,417	Datblygu Economaidd	140,962	(40,273)	100,689
437,154	(111,419)	325,735	Addysg a Dysgu Gydol Oes	461,993	(106,522)	355,471
9,634	(2,015)	7,619	Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol	9,951	(652)	9,299
9,314	(5,959)	3,355	Awdurdod yr Harbwr	10,005	(6,862)	3,143
96,295	(92,571)	3,724	Cyfrif Refeniw Tai	82,433	(94,991)	(12,558)
236,581	(178,997)	57,584	Tai a Chymunedau	235,524	(181,024)	54,500
10,097	(6,793)	3,304	Perfformiad a Phartneriaethau	17,700	(13,944)	3,756
99,922	(72,690)	27,232	Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd	108,752	(75,835)	32,917
45,573	(25,730)	19,843	Adnoddau	44,681	(23,421)	21,260
173,301	(52,256)	121,045	Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion	169,349	(31,023)	138,326
100,358	(25,175)	75,183	Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant	116,354	(21,344)	95,010
259	(4,484)	(4,225)	Cyfrif Refeniw Cryno	1,871	(952)	919
1,353,161	(649,304)	703,857	Cost Net Gwasanaethau	1,415,274	(605,183)	810,091
42,523	0	42,523	Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru	45,047	0	45,047
458	0	458	Praeseptau Cyngor Cymuned	495	0	495
18,632	0	18,632	Ardollau a Chyfraniadau	19,040	0	19,040
707	(1,965)	(1,258)	(Elw)/colled ar werthu asedau anghyfredol	2,150	(4,622)	(2,472)
62,320	(1,965)	60,355	Gwariant Gweithredu Arall	66,732	(4,622)	62,110
34,127	(11)	34,116	Llog yn Daladwy ar Ddyled	34,193	0	34,193
22,180	0	22,180	Llog ar rwymedigaeth ddiffiniedig net/(ased)	22,304	0	22,304
0	(388)	(388)	Llog ac Incwm Buddsoddi	0	(3,825)	(3,825)
30,453	(12,658)	17,795	Incwm a Gwariant mewn perthynas ag Eiddo Buddsoddi a newidiadau yn eu gwerth teg	15,315	(20,815)	(5,500)
0	0	0	Symudiad mewn Offerynnau Ariannol	0	(63)	(63)
86,760	(13,057)	73,703	Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi	71,812	(24,703)	47,109
0	(127,032)	(127,032)	Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf Cydnabyddedig	0	(114,112)	(114,112)
0	(373,452)	(373,452)	Grant Cynnal Refeniw	0	(413,544)	(413,544)
0	(121,062)	(121,062)	Ardrethi Annomestig	0	(131,182)	(131,182)
3,081	(240,341)	(237,260)	Incwm Treth Gyngor	1,520	(248,520)	(247,000)
0	(6,022)	(6,022)	Stocrestrau a Roddwyd	1,273	0	1,273
812	0	812	Treuliau treth - Treth Gorfforaeth	374	(37)	337

2021/22				2022/23		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£000	£000	£000		£000	£000	£000
3,893	(867,909)	(864,016)	Trethiant ac Incwm o Grantiau Amhenodol	3,167	(907,395)	(904,228)
1,506,134	(1,532,235)	(26,101)	(Gwarged)/Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau	1,556,985	(1,541,903)	15,082
		(32,036)	(Gwarged)/Diffyg ar ailbriso asedau anghyfredol			(19,206)
		(90)	(Gwarged)/Diffyg ar y Gronfa Ailbriso Offerynnau Ariannol Wrth Gefn			20
		(307,373)	Ailfesur rhwymedigaeth/(ased) budd diffiniedig net			(726,020)
		0	Enillion/colledion eraill i'w cynnwys yn yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			0
		(339,499)	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall			(745,206)
		(365,600)	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			(730,124)

Mae dadansoddiad 2020/21 o Gost Net Gwasanaethau wedi'i ddiwygio i ystyried y newidiadau mewn strwythur yn 2022/23

Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn Grŵp

	Balans Cronfa' r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig y Cyngor	Balans CRT	Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig CRT	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn	Grantiau Cyfalaf Heb Eu Defnyddio	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiady	Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiady ' r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiady – Endidau Grŵp	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Balans ar 31 Mawrth 2021 wedi'i gario ymlaen	14,255	102,502	15,502	3,700	8,673	0	144,632	164,694	5,557	314,883
Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn 2021/22										
Gwarged neu (ddiffyg) o ran Darparu Gwasanaethau	8,283	0	14,433	0	0	0	22,716	0	3,385	26,101
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	0	0	0	339,499	0	339,499
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	8,283	0	14,433	0	0	0	22,716	339,499	3,385	365,600
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan y rheoliadau	40,225	0	(7,546)	0	(1,833)	6,972	37,818	(37,818)	0	0
Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig	48,508	0	6,887	0	(1,833)	6,972	60,534	301,681	3,385	365,600
Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig	(48,508)	48,508	(6,887)	6,887	0	0	0	0	0	0
Cynnydd/(Gostyngiad) yn 2021/22	0	48,508	0	6,887	(1,833)	6,972	60,534	301,681	3,385	365,600
Balans ar 31 Mawrth 2022 wedi'i gario ymlaen	14,255	151,010	15,502	10,587	6,840	6,972	205,166	466,375	8,942	680,483
Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn 2022/23										
Gwarged neu (ddiffyg) o ran Darparu Gwasanaethau	(64,723)	0	48,245	0	0	0	(16,478)	0	1,396	(15,082)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	0	0	0	745,206	0	745,206
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(64,723)	0	48,245	0	0	0	(16,478)	745,206	1,396	730,124
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan y rheoliadau	63,226	0	(46,412)	0	840	0	17,654	(17,654)	0	0
Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig	(1,497)	0	1,833	0	840	0	1,176	727,552	1,396	730,124
Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig	1,497	(1,497)	(1,833)	1,833	0	0	0	0	0	0
Cynnydd/(Gostyngiad) yn 2022/23	0	(1,497)	0	1,833	840	0	1,176	727,552	1,396	730,124
Balans ar 31 Mawrth 2023 wedi'i gario ymlaen	14,255	149,513	15,502	12,420	7,680	6,972	206,342	1,193,927	10,338	1,410,607

Mantolen Grŵp

31 Mawrth 2022		31 Mawrth 2023
£000		£000
2,016,110	Eiddo, Peiriannau ac Offer gan gynnwys Asedau Seilwaith	2,115,149
58,849	Asedau Treftadaeth	67,955
150,718	Eiddo Buddsoddi	167,560
1,135	Asedau Anghyfredol Anniriaethol gan gynnwys asedau sy'n cael eu hadeiladu	1,098
705	Buddsoddiadau Hirdymor	2,155
10,906	Dyledwyr Hirdymor	11,772
584	Ased treth ohiriedig	210
2,239,007	Cyfanswm Asedau Hirdymor	2,365,899
212,912	Buddsoddiadau Byrdymor	97,248
0	Asedau a Gedwir i'w Gwerthu	4,000
12,170	Stocrestrau	10,980
185,213	Dyledwyr Byrdymor	191,228
34,527	Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	66,773
444,822	Cyfanswm Asedau Cyfredol	370,229
(31,311)	Benthycu Byrdymor	(12,850)
(181,722)	Credydwyr Byrdymor	(141,494)
(1,035)	Elfen Bensiwn	(1,737)
(4,977)	Darpariaethau	(3,945)
(4,277)	Rhwymedigaethau Gohiriedig	(3,985)
(223,322)	Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol	(164,011)
(832,819)	Benthycu Hirdymor	(850,737)
(24,988)	Darpariaethau	(25,429)
(10,351)	Rhwymedigaethau Gohiriedig	(10,010)
(16,521)	Derbyniadau Grantiau Refeniw Ymlaen Llaw	(8,020)
(17,404)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf Ymlaen Llaw	(28,715)
(22,388)	Derbyniadau Cyfraniadau Cyfalaf Ymlaen Llaw	(31,296)
(1,296)	Elfen Bensiwn	(494)
(854,255)	Rhwymedigaeth Pensiynau Net	(206,809)
0	Rhwymedigaeth Treth Ohiriedig	0
(1,780,022)	Cyfanswm Rhwymedigaethau Hirdymor	(1,161,510)
680,485	ASEDAU NET	1,410,607
	Ariennir gan:	
14,255	Balans Cronfa'r Cyngor	14,255
151,012	Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig y Cyngor	149,513
15,502	Balans y Cyfrif Refeniw Tai	15,502
10,587	Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig y Cyfrif Refeniw Tai	12,420
6,840	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn	7,680
6,972	Grantiau Cyfalaf Heb Eu Defnyddio	6,972
205,168	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	206,342
349,693	Cronfa Ailbriso Wrth Gefn	366,462
977,282	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	1,046,902
5,003	Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig	66
4,540	Cronfa Ailbriso Offerynnau Ariannol Wrth Gefn	4,519
(867,671)	Cronfa Pensiynau Wrth Gefn	(220,374)

31 Mawrth 2022		31 Mawrth 2023
£000		£000
(17,054)	Cyfrif Addasiadau Absenoldebau Cronedig	(16,978)
9,234	Stocrestrau a Roddwyd	7,961
14,290	Cronfeydd Wrth Gefn (Endidau Grŵp)	15,707
475,317	Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy	1,204,265
680,485	CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN	1,410,607

Llif Arian Parod Grŵp

2021/22		2022/23
£000		£000
(26,101)	(Gwarged)/Diffyg Net o ran Darparu Gwasanaethau	15,082
(235,082)	Addasiadau i warged neu ddiffyg net o ran darparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod	(106,819)
129,979	Addasu ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net o ran darparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu	(836,436)
(131,204)	Llifoedd arian parod net o weithgareddau gweithredu	(928,173)
191,372	Prynu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	197,805
111,150	Prynu buddsoddiadau byrdymor a hirdymor	837,720
15,560	Taliadau eraill ar gyfer gweithgareddau buddsoddi	(10,220)
(2,649)	Elw o werthu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(10,115)
(126,516)	Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf	(121,623)
188,917	Llifoedd arian parod net o weithgareddau buddsoddi	893,567
(72,479)	Derbyniadau arian parod o fenthycy byrdymor a hirdymor	(31,694)
(2,487)	Derbyniadau eraill o weithgareddau ariannu	10,604
2,233	Taliadau arian parod ar gyfer lleihau rhwymedigaethau dyledus sy'n ymwneud â phrydlesi cyllid	680
27,533	Ad-daliadau benthycy byrdymor a hirdymor	22,770
(45,200)	Llifoedd arian parod net o weithgareddau ariannu	2,360
12,513	(Cynnydd)/gostyngiad net mewn arian parod a chywerthoedd arian parod	(32,246)
47,040	Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd	34,527
34,527	Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd	66,773

Nodiadau i'r Cyfrifon Grŵp

Mae'r nodiadau canlynol i'r Cyfrifon Grŵp yn darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â Bws Caerdydd. Gellir cael rhagor o wybodaeth yng nghyfrifon Cardiff City Transport Services Ltd (Bws Caerdydd) rhif cwmni 02001229.

1. Taliadau Cydnabyddiaeth

Datgelir nifer y cyflogeion Bws Caerdydd sy'n cael taliadau cydnabyddiaeth o dros £60,000 y flwyddyn isod.

Nifer y Cyflogeion	Band taliadau cydnabyddiaeth £	Nifer y Cyflogeion
2021/22		2022/23
1	60,000-69,999	0
0	70,000-74,999	0
1	75,000-79,999	1
3	80,000-84,999	3
0	85,000-139,999	0
1	140,000-144,999	1
6	Cyfanswm	5

2. Datgeliadau Partïon Cysylltiedig

Mae trafodion a balansau partïon cysylltiedig y grŵp wedi'u nodi yn nodyn 10 i'r datganiadau ariannol endid sengl. Mae Bws Caerdydd wedi cydnabod ar wahân drafodion parti cysylltiedig rhyngddyn nhw a'r Cyngor, a hefyd rhyngddyn nhw a'u his-gwmni ond nid rhyngddyn nhw eu hunain ac unrhyw sefydliadau eraill.

3. Eitemau Eithriadol

Nid oes unrhyw eitemau eithriadol wedi'u cynnwys yn y Cyfrifon Grŵp.

4. Offerynnau Ariannol

Yn ogystal â'r datgeliadau offerynnau ariannol yn y cyfrifon endid sengl dylid nodi bod cyfranddaliad y Cyngor yn Bws Caerdydd yn stopio bod yn offeryn ariannol, gan fod mantolen y grŵp yn cynnwys asedau net yr is-gwmni a'u gwerth net cyfatebol.

5. Addasiadau Cyfnod Blaenorol

Nid oes unrhyw addasiadau cyfnod blaenorol.



Cronfeydd Ymddiriedolaeth



CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

STRONGER
FAIRER
GREENER



Cronfeydd Ymddiriedolaeth

Yn ystod 2022/23, roedd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau gyfrifoldeb ariannol am nifer o elusennau. Er bod y gwaith o weinyddu eu cyllid wedi'i integreiddio i'r gwaith o weinyddu cyllid y Cyngor, mae'r elusennau yn gyfreithiol ar wahân i'r Cyngor. Mae datganiadau ariannol ar wahân yn cael eu creu i bob un, sydd yn unol â safonau cyfrifyddu perthnasol a'r Datganiad Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Elusennau, a gyhoeddwyd gan y Comisiynwyr Elusen.

Rheolir yr elusennau a chymeradwyir gwariant yn unol â meini prawf a nodir yn nogfen lywodraethu pob un.

Y Cyngor yw unig ymddiriedolwr yr elusennau canlynol, yr amlinellir eu dibenion isod. Rhifau cofrestru'r elusennau yw'r rhifau mewn cromfachau.

Cronfa Cofeb Ryfel Llandaf (219060) – Talu costau cynnal a chadw'r gofeb ryfel yn Llandaf.

Sefydliad Parc Maendy (524137) – Hamddena er budd trigolion Dinas Caerdydd â'r nod o wella cyflwr eu bywydau.

Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd/Ymddiriedolaeth Craddock Wells (525512) – Darparu safle at ddibenion addysgol a grantiau i fyfyrwyr cymwys. Defnyddir yr eiddo a ddarperir gan yr ymddiriedolaeth gan y Cyngor fel safle ar gyfer Ysgol Uwchradd Caerdydd.

Maes Hamdden neu Bleser Cyhoeddus y Mynydd Bychan (524135) – Tir yn cael ei gadw fel tir hamdden a phleser cyhoeddus. Nid oes unrhyw falansau nac incwm a gwariant ar gyfer yr ymddiriedolaeth hon.

Maes y Brenin Siôr, y Mynydd Bychan (1140393) – Tir i'w ddefnyddio i ddarparu maes chwarae cyhoeddus. Nid oes unrhyw falansau nac incwm a gwariant ar gyfer yr ymddiriedolaeth hon.

Cae Chwarae (524139) – Tir yn cael ei ddal at ddefnydd addysgol. Nid oes unrhyw falansau nac incwm a gwariant ar gyfer yr ymddiriedolaeth hon.

Ymddiriedolaeth Gadwraeth yr Eglwys Norwyaidd (519831) – Mae asedau Ymddiriedolaeth Gadwraeth yr Eglwys Norwyaidd (YGEN) wedi cael eu trosglwyddo i'r elusen Norwegian Church Cardiff Bay, elusen nad yw'n rhan o'r Cyngor. Elusen YGEN i gael ei chau yn ffurfiol. Nid oes unrhyw falansau nac incwm a gwariant ar gyfer yr ymddiriedolaeth hon.

Mae'r Comisiwn Elusennau yn gofyn am archwiliad annibynnol o gyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd. Nid archwiliwyd y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 hyd yma.

Mae'r Cyngor yn gweinyddu yr elusennau canlynol, y mae eu dibenion wedi'u hamlinellu isod:-

Ymddiriedolaeth Goffa R Fice (702695) – Rhoi cymorth ariannol i'r rheiny sy'n chwarae offerynnau pres.

Ymddiriedolaeth Howardian (1019801) – Rhoi cymorth ariannol i bobl ifanc yn nalgylch blaenorol Ysgol Uwchradd Howardian.

Isod ceir crynodeb ariannol, lle y bo'n berthnasol, ar gyfer pob cronfa. Gellir cael datganiadau ariannol manwl gan:

Christopher Lee
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Incwm £	Gwariant £	Ailbrisio Asedau £	Balans ar 31 Mawrth 2023 £
Cyfanswm cronfeydd y mae'r Cyngor yn Unig Ymddiriedolwr drostynt					
Cronfa Cofeb Ryfel Llandaf	(1,408)	(47)	11	0	(1,444)
Sefydliad Parc Maendy	(79,384)	(1,659)	11	0	(81,032)
Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd / Craddock Wells	(24,849,249)	(156,662)	17,541	218,485	(24,769,885)
Cyfanswm cronfeydd y mae'r Cyngor yn Unig Ymddiriedolwr arnynt	(24,930,041)	(158,368)	17,563	218,485	(24,852,361)
Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor					
Ymddiriedolaeth Goffa R Fice	(63,938)	(2,267)	2,173	3,894	(60,138)
Ymddiriedolaeth Howardian	(39,589)	(919)	0	2,493	(38,015)
Cyfanswm cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor	(103,527)	(3,186)	2,173	6,387	(98,153)
Cyfanswm	(25,033,568)	(161,554)	19,736	224,872	(24,950,514)

Bydd gwahaniaethau yn y ffigurau incwm a gwariant a ddyfynnir uchod o gymharu â'r hyn a gynhwyswyd yn y datganiad i'r Comisiwn Elusennau. Caiff y ffigurau uchod eu cyfrifo ar sail croniadau tra bod y ffurflenni'n cael eu cyfrifo ar sail arian parod.



Awdurdod Harbwr Caerdydd



CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

STRONGER
FAIRER
GREENER



Adroddiad Naratif

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno Datganiad Cyfrifon Awdurdod Harbwr Caerdydd. Mae Adran 42(1) Deddf Harborau 1964 yn nodi'r ymgymeriadau statudol, fel awdurdodau lleol sydd â swyddogaethau cynnal, gwella neu reoli harbwr, o ran paratoi datganiad cyfrifon blynyddol o ran gweithgareddau'r harbwr. Mae'r datganiadau ariannol sy'n dilyn yn ddarn o gyfrifon Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ac fe'u paratowyd yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) yn ogystal â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r adroddiad naratif hwn yn disodli adroddiad y Cyfarwyddwr sy'n ofynnol dan Ddeddf Cwmnïau 2006.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Nid yw Awdurdod yr Harbwr yn endid ar wahân i'r Cyngor ac mae trafodion a systemau ariannol, llywodraethu a rheolaethau Awdurdod yr Harbwr wedi'u hintegreiddio i rai'r Cyngor.

Cytundeb

Drwy Gytundeb dyddiedig 27 Mawrth 2000 a wnaed yn unol â, ac at ddibenion adran 165 Deddf Cynllunio a Thir Llywodraeth Leol 1980 (fel y'i diwygiwyd) cytunodd y Cyngor i fod yn gyfrifol am, a chyflawni ymgymeriad a rhwymedigaethau Awdurdod yr Harbwr o ran y bae a'r harbwr allanol dan delerau Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993.

Ers hynny, mae'r Cytundeb wedi cael ei amrywio gan Weithredoedd Amrywio rhwng Gweinidogion Cymru a'r Cyngor, gyda'r diweddaraf ar 24 Mai 2022.

Adolygiad o'r Flwyddyn Ariannol

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, gweithiodd y Cyngor gyda Llywodraeth Cymru i nodi pwysau'n ymwneud â chynnydd mewn deunyddiau, contractwyr, prisiau ynni, yn ogystal â diffygion hanesyddol mewn cyllidebau cytundeb lefel gwasanaeth ac i gytuno ar drefniant cyllideb priodol ar gyfer Adnewyddu Asedau. Cytunodd Llywodraeth Cymru ar gyllid Costau Sefydlog o £5.374 miliwn ac Adnewyddu Asedau o £26,000. Dyfarnwyd cyllid Adnewyddu Asedau ychwanegol o £521,000 i gwmpasu gwaith uwchraddio ar Rodfa'r Senedd a gwaith uwchraddio ar system reoli, gan arwain at gyfanswm cyllideb a gymeradwywyd o £5.921 miliwn.

Roedd y sefyllfa alldro yn cynnwys gorwariannau ar garthu cynnal a chadw, rheoli dŵr daear a chynnal a chadw'r morglawdd sy'n adlewyrchu cynnydd mewn prisiau deunyddiau a chontractwyr. Cafodd yr amrywiadau hyn eu lliniaru gan incwm ychwanegol o symiau dyledus yr Harbwr, ffioedd safle a pharcio ceir.

Y diffyg ariannol ar ôl addasiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 oedd £2.683 miliwn (£2.649 miliwn yn 2021/22).

Cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn oedd £571,000 ac roedd yn cynnwys prynu a gosod decin llwybr pren, uwchraddio offer rheoli'r morglawdd a phrynu meddalwedd rheoli asedau.

Cyflawniadau Allweddol

Mae cynllun gweithredu a dangosyddion perfformiad Awdurdod yr Harbwr, sy'n ffurfio rhan o'r Cynllun Busnes a adroddir i Lywodraeth Cymru, yn cynnwys:

- Parhad o'r prosiect diogelwch dŵr i rybuddio am beryglon nofio a bedd-faenio yn y Bae. Cyflwynwyd ffilm ar-lein gyda gweithdai trwy Theatr Na Nog, gyda chefnogaeth y grant STEP Celfyddydau, Diwylliant a Busnes.
- Cadwyd tair Gwobr y Faner Werdd yn: y Morglawdd, Gwarchodfa Gwlyptiroedd Bae Caerdydd ac Ynys Echni.
- Archwiliad ISO14001 yn arwain at gadw'r wobwr am sicrhau rheolaeth amgylcheddol ragorol.
- Tynnu 350 tonnelli o wastraff o'r afonydd a'i waredu'n ddiogel trwy gydol y flwyddyn.
- 76,624 o ddefnyddwyr ar gyfer Gwlyptiroedd Bae Caerdydd drwy gydol y flwyddyn.
- 1,108,742 o ddefnyddwyr Morglawdd drwy gydol y flwyddyn.
- 25,980 o ddilynwyr cyfryngau cymdeithasol ar draws y cyfrifon Facebook, Twitter ac Instagram.
- Cydymffurfriad o 99% ar berfformiad Ocsigen Tawdd.
- Cynnal ras 10k Caerdydd a Hanner Marathon Caerdydd.
- Mwy na 1,500 o sesiynau hwylio ieuenctid ac ysgolion yng Nghanolfan Hwyllo Caerdydd.
- Datblygu cynnig PhD gyda Phrifysgol Caerdydd a'r Sefydliad Ymchwil Dŵr i ymchwilio i heriau amgylcheddol i Fae Caerdydd a llywio'r angen am y system awyru yn y dyfodol.

Canllaw i'r Datganiadau Ariannol

Dangosir y prif ddatganiadau a ddarparwyd yn y tudalennau dilynol ynghyd â nodiadau ategol. Mae llifoedd arian parod Awdurdod yr Harbwr wedi'u hintegreiddio â rhai'r Cyngor. Ni ddarparwyd Datganiad Llif Arian Parod, yn unol ag Adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r datganiad hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae Awdurdod yr Harbwr wedi perfformio drwy gydol y flwyddyn ac o ganlyniad, a yw ei weithredoedd wedi arwain at warged neu ddiffyg. Mae Awdurdod yr Harbwr wedi gweithredu o fewn y gyllideb, ond addasiadau statudol, gan gynnwys taliadau cyfalaf, yw'r rheswm dros y diffyg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mantolen

'Cipolwg' yw hwn ar asedau, rhwymedigaethau, balansau arian parod a chronfeydd wrth gefn Awdurdod yr Harbwr ar ddiwedd y flwyddyn.

Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiadau Ariannol a'r Dystysgrif Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Harborau 1964.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau wedi:

- dewis polisiâu cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson, heblaw os oes newidiadau polisi wedi'u nodi yn y cyfrifon hyn.
- gwneud beirniadaethau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus.

Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir cyfredol.
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Tystysgrif y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Mae'r datganiadau ariannol ar gyfer Awdurdod Harbwr Caerdydd yn rhoi darlun cywir a theg o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 a sefyllfa ariannol Awdurdod yr Harbwr ar 31 Mawrth 2023.

Christopher Lee
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Dyddiad:

Adroddiad Archwilydd Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu Awdurdod Harbwr Caerdydd

Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Harbwr Caerdydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Harbwr Caerdydd yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a nodiadau cysylltiedig.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith gymwys ac yn Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARhau).

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg wir a theg ar sefyllfa ariannol Awdurdod Harbwr Caerdydd ar 31 Mawrth 2023 a'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (SARhau [DU]) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu hegluro ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar Awdurdod Harbwr Caerdydd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio sydd wedi dod i law yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi casglu bod y defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Awdurdod Harbwr Caerdydd i barhau i fabwysiadu'r busnes hyfyw o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'u chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd gyda hynny. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad naratif. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicr arni.

Fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson gyda'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yng nghwrs yr archwiliad, neu'n ymddangos mewn ffordd arall ei bod wedi ei chamddatgan. Os byddaf yn adnabod anghysonderau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae gofyn i mi benderfynu a ydy hyn wedi arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y

gwaith yr wyf wedi ei wneud, bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig.

Materion rwy'n adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o Awdurdod Harbwr Caerdydd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifo a'r ffurflenni.

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol sy'n gyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am:

- baratoi datganiad cyfrifon sy'n rhoi golwg wir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau cyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- asesu gallu Awdurdod Harbwr Caerdydd i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdod Harbwr Caerdydd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy nod yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed trwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol â SARhau (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddigwydd oherwydd twyll neu wall a chânt eu hystyried yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau materol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Awdurdod Harbwr Caerdydd sy'n ymwneud ag:

- adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth;
 - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r
 - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cydnabod gwariant, cofnodion ariannol anarferol;
 - cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Awdurdod Harbwr Caerdydd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Awdurdod Harbwr Caerdydd yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y chyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Harbwr Caerdydd; a
 - chael dealltwriaeth o gydberthnasau parti cysylltiedig

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau a phroffion y datganiad ariannol i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, y Cabinet a'r Cyngor;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes hefyd gyfleu chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan anhawster cynhenid canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Awdurdod Harbwr Caerdydd a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a ddefnyddir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

Cyfrifoldebau archwilio eraill

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Harbwr Caerdydd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Polisiâu cyfrifyddu a ddefnyddir wrth ffurfio'r cyfrifon

Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2014, mae'r Datganiad Cyfrifon hwn yn crynhoi trafodion Awdurdod yr Harbwr ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2023. Paratwir y cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae nifer o bolisiâu cyfrifyddu'n cael eu defnyddio wrth baratoi'r cyfrifon hyn, ynghyd ag unrhyw ragdybiaethau critigol a ffynonellau amcangyfrif a ddefnyddir sydd yr un fath ar gyfer cyfrifon y Cyngor. Er nad yw'r rhain wedi'u hatgynhyrchu'n llawn, y polisiâu allweddol a ddefnyddir yw:

1. Cronni Incwm a Gwariant

Cyfrifir gweithgarwch yn y flwyddyn y digwydd, nid pan gaiff y taliadau arian parod eu gwneud neu eu derbyn. Pan gydnabyddir refeniw a gwariant ond na chafwyd neu na thalwyd arian parod, cofnodir dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol yn y Fantolen. Mae yna drothwy deminimis o £500 na ellir cronni incwm a gwariant oddi mewn iddo.

2. Buddion Taladwy Cyflogeion yn ystod Cyflogaeth

Caiff buddion byrdymor cyflogeion fel tâl a chyflogau, gwyliau blynyddol a delir, absenoldeb salwch a threuliau eu talu'n fisol a'u hadlewyrchu fel gwariant ar sail gronnol yn y llinell Gwariant Cyflogeion berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

3. Grantiau a Chyfraniadau

Cyfrifir am grantiau a chyfraniadau eraill ar sail gronnol ac fe'u cydnabyddir pan fo:

- sicrwydd digonol y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau dros eu derbyn a
- bod sicrwydd digonol y daw'r grant neu'r cyfraniad i law.

Refeniw

Caiff grantiau, na fodlonwyd amodau ar eu cyfer eto, eu dwyn ymlaen yn y Fantolen fel Derbyniadau Grantiau Refeniw Ymlaen Llaw. Pan fodlonir yr amodau, credydir grant neu gyfraniad i Incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Pan nad oes sicrwydd digonol y caiff yr amodau eu bodloni, ni chydabyddir unrhyw arian a ddaw i law fel derbyn arian grant ond fel ad-daliad sy'n ddyledus i'r corff dyfarnu a chaiff ei gadw ar y Fantolen fel rhwymedigaeth os bydd yn parhau heb ei dalu.

Cyfalaf

Caiff grantiau a chyfraniadau a gymhwysir yn y flwyddyn i ariannu cynlluniau cyfalaf eu trin fel incwm refeniw a'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Pan fo grant cyfalaf neu gyfraniad penodol wedi dod i law ond heb ei ddefnyddio eto, ystyrir bod hyn yn cynrychioli amod ac fe'i nodir fel Credydwr.

4. Rhestrau Eiddo

Caiff stocrestrau eu mesur a'u cadw ar gost is neu werth net gwireddadwy. Pan gaiff stocrestrau eu gwerthu, eu cyfnewid neu eu dosbarthu, cydnabyddir y swm cario fel gwariant.

5 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cymorth

Mae Cyngor Caerdydd yn ailgodi o ran cost gwasanaethau cymorth i Awdurdod yr Harbwr. Defnyddir yr egwyddor costio amsugno llwyr fel bod costau llawn gorbenion a gwasanaethau cymorth a rennir rhwng defnyddwyr yn gymesur i'r buddion a geir.

6 Asedau Anghyfredol

Eiddo, Peiriannau, Offer

Yr asedau hyn yw'r rhai â sylwedd ffisegol a ddefnyddir wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, y bwriedir eu cadw am gyfnod amhenodol a'r rhai ar gyfer hyrwyddo diwylliant neu wybodaeth ac y disgwylir eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol.

Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r rheiny a gedwir i ennill rhent a/neu arbrisiant cyfalaf megis prydlesi tir, tir a gedwir ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol fel safleoedd strategol a thir ac adeiladau eraill sy'n diwallu meini prawf eiddo buddsoddi.

Asedau Anghyfredol Anniriaethol

Asedau anniriaethol yw'r rheini heb sylwedd ffisegol ond y mae modd eu nodi ac a reolir gan Awdurdod yr Harbwr. Yn achos meddalwedd a thrwyddedau cyfrifiadurol, cyfalafir y rhain lle maent yn berthnasol i wella neu ddatblygu systemau, y credir y bydd gwario arnynt o fudd economaidd hirdymor i'r Cyngor ar ffurf arbedion a gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau.

Cydnabyddiaeth:

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella asedau o'r fath ei gyfalafu ar sail gronol. Rhagdybir bod gwariant ar asedau presennol yn arwain at wella'r ased ac fe'i dangosir yn y cyfrifon fel ychwanegiad at yr ased.

Mae Awdurdod yr Harbwr yn cydnabod asedau treftadaeth y gallai fod wedi talu amdanynt ar wahân, gwariant y gellir ei nodi ar y caffaeliad, neu gadw ar gost hanesyddol, neu pan fo ganddo wybodaeth am werth yr ased.

Unwaith y bydd asedau wedi dibrisio'n llawn, cânt eu gwaredu gyda'r gwerth cario wedi'i dynnu oddi ar y gofrestr asedau.

Mesur:

Mesurir asedau i ddechrau ar gost, gan gynnwys yr holl wariant sy'n deillio'n uniongyrchol o ddod â'r ased dan sylw i gyflwr gweithio ar gyfer y defnydd a fwriedir, ac eithrio costau benthyca na chaiff eu cyfalafu. Yna caiff yr asedau hyn eu cario i'r Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

Math yr Ased	Mesuriad	Ystod o Oesau Defnyddiol sy'n Weddill
Asedau sy'n cael eu Hadeiladu	Cost Hanesyddol Ddibrisiedig	Dd/B
Adeiladau	Defnydd Presennol neu Gost Ddibrisiedig Disodli	10-90
Asedau Cymunedol	Cost Hanesyddol Ddibrisiedig	Dd/B
Asedau Treftadaeth	Cost Hanesyddol ac yn cael ei fesur ar werth teg yn unig lle mae manteision gwneud hynny yn gorbwyso'r costau	Dd/B
Seilwaith *	Cost Hanesyddol Ddibrisiedig	1-117
Asedau Anniriaethol	Cost Hanesyddol Amorteiddio	3-7
Eiddo Buddsoddi	Gwerth Teg	Dd/B
Asedau Gwarged	Gwerth Teg	Dd/B
Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer	Cost Hanesyddol Ddibrisiedig	1-14

* Wedi'i gynnwys o fewn Seilwaith mae Morglawdd Bae Caerdydd, sy'n cael ei ddibrisio dros oes ddylunio o 120 mlynedd.

Ailbriso:

Caiff tir ac adeiladau eu hailbriso fel rhan o raglen dreigl tair blynedd.

Mae Eiddo Buddsoddi ac Asedau Dros Ben yn cael eu hadolygu'n flynyddol ar gyfer unrhyw newidiadau perthnasol o ganlyniad i'r Farchnad gyffredinol, gydag ailbrisiad ffurfiol o Eiddo Buddsoddi bob dwy flynedd o leiaf.

Mae cynnydd mewn prisiannau'n cael eu cyfateb gan gredydau i'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn i gydnabod enillion nas gwireddir. Mewn achos eithriadol, gallai enillion gael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fyddant yn codi o wrthdroi colled a godwyd i'r llinell gwariant yn flaenorol.

Mae'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbriso a gydnabyddir ers 1 Ebrill 2007 yn unig: y dyddiad gweithredu swyddogol.

Costau i Refeniw ar gyfer Asedau Anghyfredol:

Caiff y llinell Taliadau Cyfalaf ar Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Awdurdod yr Harbwr ei debydu gyda'r symiau canlynol i gofnodi cost dal asedau yn ystod y flwyddyn:

- dibrisiant yn deillio o'r asedau
- colledion amhariad ac ailbriso ar asedau lle nad oes enillion cronedig yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn y mae modd ysgrifennu allan y colledion yn eu herbyn.

Nid yw Awdurdod yr Harbwr yn cael grant am ddibrisiant nac unrhyw addasiadau cyfrifyddu eraill ar gyfer asedau anghyfredol.

Amhariad ac Ailbriso Ar-i-Lawr:

Asesir asedau ar ddiwedd pob blwyddyn o ran a oes unrhyw awgrym y gallai ased fod yn llai gwerthfawr, boed hynny oherwydd gostyngiad sylweddol ym mhotensial gwasanaeth neu ostyngiadau parhaol sylweddol yng ngwerth y farchnad. Pan nodir newid materol o ran gwerth, mae'r driniaeth gyfrifyddu fel a ganlyn:

- pan fo balans o enillion ailbriso ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn, caiff swm cario'r ased ei ysgrifennu yn erbyn y balans hwnnw, hyd at swm yr enillion cronedig
- neu pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn, caiff swm cario'r ased ei ysgrifennu'n erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo colled amhariad yn cael ei diystyru'n ddilynol, caiff honno ei chredydu i'r llinell Taliadau Cyfalaf yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer dibrisiant a fyddai wedi'i godi pe na chydabyddid y golled.

Dibrisiant:

Darperir ar gyfer dibrisiant ar yr holl asedau Eiddo, Peirianwaith ac Offer fesul dyraniad o'u symiau dibrisiadwy dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodol y gellir ei phennu (h.y. tir rhydd-ddaliadol, asedau treftadaeth a chymunedol) yn ogystal ag asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

7. *Cronfeydd Wrth Gefn*

Mae Awdurdod yr Harbwr yn cadw cronfa gyffredinol wrth gefn ar gyfer gwargedau a diffygion gweithredol cronedig a chronfa ailbriso wrth gefn i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol.

8. *Treth Ar Werth*

Nid oes gan Awdurdod yr Harbwr gofrestrriad TAW ar wahân i'r Cyngor a, heblaw mewn rhai achosion pan fo Awdurdod yr Harbwr yn ariannu cyflenwadau nwyddau neu wasanaethau i bobl neu sefydliadau eraill, caiff Awdurdod yr Harbwr ad-daliad TAW. Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi heb gynnwys TAW, ac eithrio pan fernir eu bod yn anadenilladwy.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

2021/22		2022/23
£000		£000
	Gwariant	
2,975	Cyflogeion	3,121
1,354	Safle	1,357
120	Trafnidiaeth	129
1,601	Cyflenwadau a Gwasanaethau	2,165
434	Gwasanaethau Cymorth	384
3	Taliadau Trydydd Parti	5
2,826	Costau Cyfalaf	2,844
9,313	Cyfanswm Gwariant	10,005
	Incwm	
(4,979)	Grantiau Llywodraeth	(5,673)
(704)	Grantiau Cyfalaf wedi'u Cymhwyso	(460)
(981)	Ffioedd a Chostau	(1,189)
(6,664)	Cyfanswm Incwm	(7,322)
2,649	Gwariant Net ar gyfer y Flwyddyn	2,683

Mantolen

31 Mawrth 2022		Nodyn	31 Mawrth 2023
£000			£000
162,304	Eiddo, Peiriannau ac Offer gan gynnwys Asedau Seilwaith	2	159,989
56	Asedau Treftadaeth	2	56
123	Asedau Anniriaethol	2	249
483	Eiddo Buddsoddi	2	425
162,966	Cyfanswm Asedau Hirdymor		160,719
437	Rhestr Eiddo	3	444
2,719	Dyledwyr	4	137
(2,995)	Arian Parod		(399)
161	Cyfanswm Asedau Cyfredol		182
(900)	Credydwyr	5	(1,275)
(900)	Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol		(1,275)
162,227	Asedau Net		159,626
	Ariannwyd gan:		
150,889	Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol	1	148,206
11,338	Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn	1	11,420
162,227	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn		159,626

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

1. Cronfeydd Wrth Gefn

Cedwir yn y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol swm clustnodedig a gedwir at weithgareddau prosiect ac argyfyngau. Y swm hwn yw £130,000 ar 31 Mawrth 2023 (£104,000 ar 31 Mawrth 2022).

2021/22			2022/23	
Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol £000	Cronfa Ailbriso Wrth Gefn £000		Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol £000	Cronfa Ailbriso Wrth Gefn £000
153,538	4,489	Balans ar 1 Ebrill	150,889	11,338
(2,649)	6,849	Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn	(2,683)	82
150,889	11,338	Balans ar 31 Mawrth	148,206	11,420

2. Symudiadau mewn Eiddo, Peiriannau, Offer ac Asedau Hirdymor Eraill

Mae asedau hirdymor yn Eiddo, Peiriannau ac Offer yn bennaf, gyda symudiadau'n cael eu dadansoddi yn y tabl canlynol.

Eiddo, Peiriannau ac Offer	Tir ac Adeiladau Eraill £000	Cerbydau, Peiriannau ac Offer £000	Asedau Cymunedol £000	Asedau Gwarged £000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu £000	Cyfanswm Eiddo, Peiriannau ac Offer £000	Eiddo Buddsoddi £000	Asedau Treftadaeth £000	Asedau Anniriaethol £000
Symudiadau mewn Cost neu Werth									
1 Ebrill 2021	6,577	1,403	1,103	43	0	9,126	333	56	79
Ychwanegiadau	0	471	0	0	105	576	0	0	89
Cynnydd/(Gostyngiad) Ailbriso a gydnabuwyd yn y CAWG	6,696	0	0	0	0	6,696	0	0	0
Cynnydd/(Gostyngiad) Ailbriso a gydnabuwyd yn y GDdDG	(14)	0	0	0	0	(14)	0	0	0
Dadgydnabod - Gwarediadau	0	(155)	0	0	0	(155)	0	0	0
Aiddosbarthiadau eraill - Trosglwyddiadau	(150)	0	0	0	0	(150)	150	0	0
Ar 31 Mawrth 2022	13,109	1,719	1,103	43	105	16,079	483	56	168
Ychwanegiadau	0	(17)	0	0	434	417	0	0	180
Cynnydd/(Gostyngiad) Ailbriso a gydnabuwyd yn y CAWG	36	0	0	0	0	36	0	0	0
Cynnydd/(Gostyngiad) Ailbriso a gydnabuwyd yn y GDdDG	18	0	0	0	0	18	(58)	0	0
Dadgydnabod - Gwarediadau	0	(161)	0	0	0	(161)	0	0	0
Aiddosbarthiadau eraill - Trosglwyddiadau	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Eiddo, Peiriannau ac Offer	Tir ac Adeiladau Eraill	Cerbydau, Peiriannau ac Offer	Asedau Cymunedol	Asedau Gwarged	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm Eiddo, Peiriannau ac Offer	Eiddo Buddsoddi	Asedau Treftadaeth	Asedau Anniriaethol
Symudiadau mewn Cost neu Werth	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Ar 31 Mawrth 2023	13,163	1,541	1,103	43	539	16,389	425	56	348
Symudiadau mewn Dibrisiant/Amhariad									
1 Ebrill 2021	216	812	0	0	0	1,028	0	0	16
Tâl Dibrisiant	224	206	0	0	0	430	0	0	29
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu allan i'r CAWG	(153)	0	0	0	0	(153)	0	0	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu allan i'r GDdDG	(62)	0	0	0	0	(62)	0	0	0
Dadgydnabod - Gwarediadau	0	(155)	0	0	0	(155)	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2022	225	863	0	0	0	1,088	0	0	45
Tâl Dibrisiant	228	181	0	0	0	409	0	0	54
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu allan i'r CAWG	(47)	0	0	0	0	(47)	0	0	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu allan i'r GDdDG	(17)	0	0	0	0	(17)	0	0	0
Dadgydnabod - Gwarediadau	0	(161)	0	0	0	(161)	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2023	389	883	0	0	0	1,272	0	0	99
Gwerth Ased Net:									
Ar 31 Mawrth 2022	12,884	856	1,103	43	105	14,991	483	56	123
Ar 31 Mawrth 2023	12,774	658	1,103	43	539	15,117	425	56	249

2021/22	Gwerth Ased Net	2022/23
147,313	Asedau Seilwaith	144,872
14,991	Asedau EPO Eraill	15,117
483	Eiddo Buddsoddi	425
56	Asedau Treftadaeth	56
123	Asedau Anniriaethol	249
162,966	Cyfanswm Asedau	160,719

Yn unol â'r Rhyddhad Dros Dro a gynigir gan y diweddariad i'r Cod ar asedau seilwaith nid yw'r nodyn hwn yn cynnwys datgelu cost gros a dibrisiant cronedig ar gyfer asedau seilwaith oherwydd bod arferion adrodd hanesyddol a diffygion gwybodaeth canlyniadol yn golygu na fyddai hyn yn cynrychioli'r sefyllfa asedau yn gywir i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol.

Fel y manylir yn y canllawiau diwygiedig sy'n berthnasol i bob awdurdod, mae'r awdurdod wedi dewis peidio â datgelu'r wybodaeth hon gan fod yr arferion a adroddwyd yn flaenorol a diffygion gwybodaeth canlyniadol yn golygu nad yw cost gros a dibrisiant cronedig yn cael eu mesur yn gywir ac ni fyddai darparu sail i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol wneud penderfyniadau economaidd neu benderfyniadau eraill sy'n ymwneud ag asedau seilwaith.

Mae'r awdurdod wedi penderfynu, yn unol â Rheoliad 24L Cymru o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd), bod y symiau cario i'w dadgydnabod ar gyfer asedau seilwaith pan fo gwariant newydd yn ddim.

Mae Gwerth Ased Net Asedau Seilwaith fel a ganlyn:

2021/22 £000	Asedau Seilwaith	2022/23 £000
149,691	Gwerth Ased Net ar 1 Ebrill	147,313
39	Ychwanegiadau	(26)
(2,417)	Dibrisiant	(2,415)
0	Symudiadau eraill mewn cost (Ailddosbarthiad)	0
147,313	Gwerth Ased Net ar 31 Mawrth	144,872

3. *Stocrestr*

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
434	Balans ar 1 Ebrill	437
3	Addasu stoc	7
437	Balans ar 31 Mawrth	444

4. *Dyledwyr*

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
2,649	Cyrff y Llywodraeth Ganolog	90
70	Symiau Derbyniadwy Masnach	47
2,719	Cyfanswm Dyledwyr	137

5. *Credydwyr*

31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2023 £000
(133)	Cyrff y Llywodraeth Ganolog	(35)
(767)	Symiau Taladwy Masnach	(1,240)
(900)	Cyfanswm Credydwyr	(1,275)



Rhestr o Dermau Cyfrifyddu



STRONGER
FAIRER
GREENER



Rhagdybir gwybodaeth am derminoleg cyfrifeg sylfaenol. Fodd bynnag, mae yna dermau arbenigol penodol sy'n ymwneud â chyllid llywodraeth leol, a disgrifir y rhain isod:

Sail Gronnol

Yr egwyddor croniadau yw bod incwm yn cael ei gofnodi pan ddarperir y nwyddau neu'r gwasanaethau yn hytrach na phan geir y taliad, a bod treuliau'n cael eu cofnodi pan dderbynnir nwyddau neu wasanaethau yn hytrach na phan gaiff y taliad ei wneud.

Enillion a Cholledion Actiwaraid

Mewn cynllun pensiwn budd diffiniedig, dyma'r newidiadau yn y diffygion neu ychwanegion actiwaraid sy'n codi oherwydd nad oedd y digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau actiwaraid a wnaed yn y gwerthusiad diweddaraf, neu os newidiodd y rhagdybiaethau actiwaraid.

Gwasanaethau Asiantaeth

Darparu gwasanaethau neu swyddogaethau, y mae un Awdurdod neu gorff cyhoeddus yn gyfrifol amdanynt, gan un arall. Caiff y polisi a'r adnoddau ariannol eu pennu gan y prif Awdurdod a'u gweithredu gan yr Awdurdod sy'n asiant.

Asedau a Gedwir i'w Gwerthu

Asedau sy'n bodloni'r holl feini prawf: maent ar gael i'w gwerthu'n syth, mae eu gwerthu'n debygol iawn, maent yn cael eu marchnata'n rhagweithiol a disgwylir eu gwerthu ymhen 12 mis.

Asedau sy'n cael eu Hadeiladu

Ased nad yw'n gyflawn eto.

Benthyca

Benthyciadau a gymerir gan y Cyngor i dalu am wariant cyfalaf neu am reoli'n ddarbodus faterion ariannol y Cyngor.

Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif yn cronni (ar yr ochr debyd) ostyngiad gwerth cost hanesyddol asedau anghyfredol wrth iddynt gael eu hamsugno gan ddibrisiant ac amhariadau neu eu hysgrifennu allan wrth eu gwaredu. Mae'n cronni (ar yr ochr gredyd) yr adnoddau a neilltuwyd i ariannu gwariant cyfalaf. Mae'r un broses yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd ond yn gyfalaf drwy ddiffiniad statudol (gwariant refeniw a ariennir gan gyfalaf dan statud). Mae'r balans ar y cyfrif felly yn cynrychioli gwahaniaethau amseru rhwng swm cost hanesyddol asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd, a'r swm a ariannwyd yn unol â gofynion statudol.

Gwariant Cyfalaf

Mae gwariant cyfalaf yn talu am welliannau i asedau hen a newydd a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn ogystal ag eitemau eraill y penderfynir arnynt drwy Reoleiddio. Mae adnoddau cyfalaf yn brin, yn gostus ac mae ganddynt hefyd oblygiadau refeniw hirdymor dros nifer o flynyddoedd a hyd yn oed genedlaethau pan ariennir gwariant cyfalaf drwy fenthyca. Felly gofyniad y Cod Darbodus yw sicrhau bod yr hyn a godir fel Gwariant Cyfalaf yn Ddarbodus, yn Gynaliadwy ac yn Fforddiadwy.

Rhoddir diffiniad statudol gwariant cyfalaf yn Neddff Llywodraeth Leol 2003, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) 2003 a diwygiedig yn 2004. Mae statud yn dibynnu ar fesur cyfrifyddu cost SCRh16 i benderfynu a yw gwariant yn gymwys i gael ei gyfalafu neu a ddylai gael ei drin fel gwariant refeniw. Yn allweddol i'r hyn sy'n gymwys i gael ei ystyried yn wariant cyfalaf mae'r geiriau hyn yn SCRh16 – 'Costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased penodol i gyflwr gweithiol at y diben y'i bwriadwyd'.

Gofyniad Ariannu Cyfalaf

Angen sylfaenol Cyngor i fenthycu at ddiben cyfalaf. Mae'n mesur y gwariant cyfalaf a nodwyd ond nas ariannwyd eto drwy grantiau, cyfraniadau a thaliadau i'r cyfrif refeniw drwy ddarpariaeth refeniw ddarbodus sylfaenol.

Derbyniadau Cyfalaf

Incwm o werthu asedau cyfalaf y gellir ei ddefnyddio i ariannu cynlluniau gwariant cyfalaf newydd, neu leihau'r angen sylfaenol i fenthyg. Ni ellir defnyddio derbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant refeniw, onid dynt yn ymwneud â chostau sicrhau gwarediadau neu lle ceir caniatâd gweinidogol.

Swm Cario

Gwerth un ai ased neu rwymedigaeth a gofnodwyd ar Fantolen.

Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod

Symiau o arian sydd ar gael i'w defnyddio ar unwaith ac adneuo gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o lai na 24 awr.

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA)

CIPFA yw'r prif gorff cyfrifyddu proffesiynol sy'n penderfynu ar safonau cyfrifyddu a safonau adrodd i'w dilyn gan Lywodraeth Leol.

Asedau Cymunedol

Asedau anghyfredol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cadw'n barhaol heb oes ddefnyddiol y gellir penderfynu arno'n bendant, y gallai fod cyfyngiadau ar eu gwaredu. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae parciau ac adeiladau hanesyddol nas defnyddir at ddibenion gweithredol.

Rhwymedigaethau neu Asedau Wrth Gefn

Symiau a allai fod yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau neu ganddynt, a allai godi yn y dyfodol ond na ellir eu pennu'n gywir ar hyn o bryd, ac na wnaed darpariaeth ar eu cyfer yng nghyfrifon y Cyngor.

Anheddau'r Cyngor

Fflatiau a Thai sy'n eiddo i'r Cyngor fel rhan o'i Gyfrif Refeniw Tai ac a gynigir am rent fforddiadwy sy'n is na rhent y farchnad.

Balans Cronfa'r Cyngor

Balans Cronfa'r Cyngor yw'r gwargedion cronol a gadwyd ar gyllideb refeniw'r Cyngor. Mae'n cynnig balans gweithiol y gellir ei ddefnyddio i glustogi'r Cyngor yn erbyn digwyddiadau neu argyfyngau annisgwyl. Fe'i hadolygir bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn parhau ar lefel briodol.

Meini Prawf Credyd

Mae'r paramedrau a ddefnyddiwyd yn fan cychwyn o ran y Cyngor yn gwneud buddsoddiadau, wedi'u hanelu at sicrhau diogelwch y symiau a fuddsoddiwyd.

Statws Credyd

Mae statws credyd yn asesu pa mor briodol yw unigolyn, corfforaeth neu wlad i gael credyd. Cyfrifir graddau credyd o hanes ariannol a rhwymedigaethau. Fel rheol, mae statws credyd yn dweud wrth roddwr benthyciadau neu fuddsoddwyr pa mor debygol yw'r sawl dan sylw o allu ad-dalu benthyciad.

Credydwyr

Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a gafwyd neu wasanaethau a roddwyd, nas talwyd amdanynt ar ddyddiad y fantolen.

Cost Gwasanaeth Cyfredol (Pensiynau)

Y cynnydd yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau cynllun pensiwn budd diffiniedig y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth cyflogai yn y cyfnod cyfredol h.y. y buddion pensiwn a "enillwyd" gan gyflogeion yng nghyflogaeth y flwyddyn gyfredol.

Gwerth Cyfredol

Mae gwerth cyfredol ased yn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd sydd ohoni ar gyfer y gwasanaeth neu swyddogaeth y mae'r ased yn ei gefnogi ar y dyddiad adrodd.

Cwtogiad (Pensiynau)

Ar gyfer cynllun pensiwn budd diffiniedig, dyma ddigwyddiad sy'n lleihau'r blynyddoedd disgwylidig o wasanaeth cyflogeion presennol yn y dyfodol neu'n lleihau ar gyfer nifer o gyflogeion y cronïad o fuddion diffiniedig ar gyfer rhywfaint neu'r cyfan o'u gwasanaeth yn y dyfodol.

Dyledwyr

Symiau o arian sy'n ddyledus i'r Cyngor nas talwyd ar ddyddiad y Fantolen.

Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig

Incwm cyfalaf sydd eto i ddod i law ar ôl gwarediadau.

Cynllun Budd Diffiniedig (Pensiynau)

Mae hwn yn gynllun pensiwn neu'n gynllun budd ymddeol arall nad yw'n gynllun cyfraniad diffiniedig. Fel arfer mae rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddion yn annibynnol ar y cyfraniadau taladwy ac nid yw'r buddion yn ymwneud yn uniongyrchol â buddsoddiadau'r cynllun. Gall y cynllun fod wedi'i ariannu neu heb ei ariannu (gan gynnwys ariannu amodol).

Cynllun Cyfraniad Diffiniedig (Pensiynau)

Mae Cynllun Cyfraniad Diffiniedig yn bensiwn neu gynllun budd ymddeol arall y mae'r cyflogwr yn talu cyfraniadau rheolaidd i mewn iddo fel swm neu fel canran o dâl ac ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i dalu cyfraniadau eraill i'r cynllun os nad oes gan y cynllun ddigon o asedau i dalu'r holl fuddion cyflogeion o ran gwasanaeth cyflogeion yn y cyfnod presennol neu flaenorol.

Dibrisiant/Amhariad/Amorteiddio

Newid a wneir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i adlewyrchu amcangyfrif o ddefnydd asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor.

Dadgydnabod

Bydd angen dileu asedau a rhwymedigaethau ariannol o'r Fantolen ar ôl i berfformiad dan y contract gael ei gwblhau neu pan gaiff y contract ei ddwyn i ben.

Ariannu Refeniw Uniongyrchol

Swm yr arian refeniw yn y flwyddyn a ddefnyddir i dalu am wariant cyfalaf.

Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig

Symiau a neilltuir i dalu am wariant penodol, hysbys neu a ragwelir yn y dyfodol.

Archwilio Allanol

Archwiliad annibynnol o weithgareddau a chyfrifon Awdurdodau Lleol i sicrhau y paratowyd cyfrifon yn unol â gofynion deddfwriaethol ac arferion priodol a sicrhau bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau cywir i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau.

Gwerth Teg

Gwerth Teg yw'r pris fyddid yn ei gael o werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranogwyr yn y farchnad ar y dyddiad mesur.

Prydles Cyllid

Mae prydles cyllid yn brydles sy'n trosglwyddo bron y cyfan o'r risgiau ac enillion o berchenogaeth ased sefydlog i'r prydlesai.

Offerynnau Ariannol

Mae offeryn ariannol yn unrhyw gontract sy'n peri ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term 'offeryn ariannol' yn cwmpasu asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol ac mae'n cynnwys yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol symlaf fel symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau taladwy drwy fasnach a'r rhai cymhlethaf fel deilliadau a deilliadau mewnblanedig.

Ased Treftadaeth

Ased diriaethol â nodweddion hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol a gynhelir ac a gedwir yn bennaf am ei gyfraniad at wybodaeth a diwylliant.

Cyfrif Refeniw Tai (CRT)

Rhaid i Awdurdodau Lleol gynnal cyfrif ar wahân – y Cyfrif Refeniw Tai - sy'n nodi gwariant ac incwm sy'n deillio o ddarparu tai Cyngor. Codir gwasanaethau eraill i Gronfa'r Cyngor.

Amhariad

Gostyngiad yng ngwerth ased islaw ei werth a ddygwyd ymlaen yn y Fantolen. Ymhlith yr enghreifftiau o ffactorau a allai achosi gostyngiad mewn gwerth mae gostyngiadau cyffredinol mewn prisiau, gostyngiad sylweddol yng ngwerth marchnad neu adenilladwyedd ased a thystiolaeth o segurddod neu ddifrod ffisegol i'r ased.

Asedau Seilwaith

Asedau nad oes modd eu gwerthu fel rheol ac nad oes modd cael budd ohonynt ond drwy eu defnyddio'n barhaus. Yn eu plith mae priffyrdd, llwybrau cerdded, pontydd a chyfleusterau dŵr a draenio.

Asedau Anniriaethol

Asedau heb sylwedd ffisegol ond y mae modd eu nodi ac a reolir gan y Cyngor. Yn eu plith mae meddalwedd, trwyddedau a phatentau.

Costau Llog (Pensiynau)

Ar gyfer cynllun budd diffiniedig, dyma'r cynnydd a ddisgwylir yn ystod y cyfnod o ran gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun oherwydd bod y buddion un cyfnod yn nes at y setliad.

Eiddo Buddsoddi

Eiddo, a all fod yn dir neu'n adeilad neu'n rhan o adeilad neu'r ddau, a gedwir dim ond er mwyn ennill rhenti neu elw cyfalaf neu'r ddau, yn hytrach nag at ddibenion gweithredol.

Buddsoddiadau

Prynu asedau ariannol er mwyn dal balansau arian parod dros dro, derbyn incwm a/neu wneud enillion cyfalaf yn y dyfodol.

Cyd-fenter

Mae cyd-fenter yn drefniant ar y cyd pan fo gan y partïon reolaeth ar y cyd o'r trefniant a hawliau i asedau net y trefniant.

Benthyciadau Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn Benthyciwr (ORhBOBau)

Benthyciadau i'r Cyngor lle gall y rhoddwr benthyciadau ofyn am newid yng nghyfradd y llog sy'n daladwy gan y Cyngor ar ddyddiadau a ddiffinnir ymlaen llaw ac ar egwyliau penodol. Mae gan y cyngor ar y pwynt hwn opsiwn i ad-dalu'r benthyciad.

Ardoll

Swm o arian y mae gofyn i Awdurdod Lleol ei gasglu ar ran sefydliad arall.

Rhwymedigaethau

Symiau sy'n ddyledus i unigolion neu sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu yn y dyfodol. Mae rhwymedigaethau cyfredol fel arfer yn daladwy ymhen blwyddyn o ddyddiad y Fantolen.

Perthnasedd

Mae gwybodaeth yn berthnasol os yw ei hepgor neu ei cham-ddatgan yn gallu dylanwadu ar y penderfyniadau a wna defnyddwyr ar sail y wybodaeth ariannol am awdurdod adrodd penodol.

Benthyciadau Marchnad

Benthycia o'r farchnad h.y. sefydliadau heblaw am y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus neu Gorff Cyhoeddus.

Gwerth Ased Net (GAN)

Swm sy'n cynnwys asedau anghyfredol yn y fantolen h.y. cost hanesyddol neu werth cyfredol sy'n llai na'r symiau cronol a roddir ar gyfer dibrisiant.

Ardrethi annomestig

Ardoll ar fusnesau a gesglir gan Awdurdodau bilio ar ran Llywodraeth Cymru ac a delir i mewn i Gronfa Cymru Gyfan. Yna caiff y Gronfa ei hailddosbarthu ymhlith holl Awdurdodau Cymru ar sail poblogaeth.

Prydles Weithredu

Math o brydles, fel arfer offer cyfrifiadurol, offer swyddfa, dodrefn ac ati, lle mae cydbwysu risgiau a manteision cadw'r ased yn nwylo'r prydlesydd. Mae'r ased yn aros yn nwylo'r prydlesydd ac mae'r costau prydles yn wariant refeniw i'r Awdurdod.

Cronfa Bensiwn

Cronfa a gronnir o ddiwydiadau o dâl cyflogai, cyfraniadau gan gyflogwyr ac incwm buddsoddi y telir buddion pensiwn ohono.

Praesept

Gofyniad a godir gan un Awdurdod cyhoeddus a gesglir ar ei ran gan Awdurdod arall.

Addasiadau Cyfnod Blaenorol

Mae'r rhain yn addasiadau perthnasol a gymhwysir i gyfnod blaenorol sy'n codi o newidiadau'n unol â pholisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwallau sylfaenol.

Dull Uned Rhagamcanol (Pensiynau)

Dull actiwaraid o gyfrifo rhwymedigaethau cynllun pensiwn sy'n caniatáu cynnydd rhagamcanol yn y dyfodol o ran taliad pensiwn hyd at y dyddiad ymddeol neu adael y gwasanaeth.

Eiddo, Peiriannau ac Offer (EPO)

Asedau diriaethol (h.y. asedau sydd â sylwedd ffisegol) a ddelir i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau a gwasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol, y disgwylir iddynt gael eu defnyddio am fwy nag un flwyddyn.

Darpariaethau

Symiau a neilltuwyd o ran rhwymedigaethau neu golledion sy'n debygol neu'n sicr o ddigwydd, ond nad yw'r union swm na'r dyddiad setlo'n sicr.

Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf

Y system a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2004 drwy Ran 1 Deddf Llywodraeth Leol 2003 sy'n caniatáu i Awdurdodau Lleol fenthycia heb ganiatâd Llywodraeth, ar yr amod y gallant fforddio talu'r ddyled o'u hadnoddau eu hunain, a bod unrhyw fenthycia o'r fath yn ddarbodus ac yn gynaliadwy. Mae hyn yn gofyn am baratoi a chymeradwyo amryw ddangosyddion.

Darpariaeth Refeniw Ddarbodus (DRDd)

Swm a neilltuwyd fel darpariaeth bob blwyddyn i ad-dalu benthyciadau a gymerir i dalu am wariant cyfalaf. Mae hyn yn lleihau'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (GAC).

Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC)

Mae'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn gorff statudol sy'n gweithredu yn Swyddfa Rheoli Dyledion y Deyrnas Unedig, Asiantaeth Weithredol Trysorlys EM. Swyddogaeth BBGC yw benthycia arian o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol i awdurdodau lleol a chyrrff eraill a ragnodir, a chasglu'r ad-daliadau.

Ailgodi

Cost fewnol am wasanaethau a roddwyd gan gyfarwyddiaeth neu isadran y Cyngor i un arall.

Partïon Cysylltiedig

Partïon cysylltiedig yw'r Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol eraill, cyrrff archebu a threthu, is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig, Aelodau Etholedig, yr holl uwch swyddogion o lefel Cyfarwyddwr ac uwchlaw hynny. O ran unigolion a nodwyd fel partïon cysylltiedig, rhagdybir bod y canlynol hefyd yn bartïon cysylltiedig:

- aelodau o'r teulu agos, neu o'r un aelwyd; a
- phartneriaethau, cwmnïau, ymddiriedolaethau neu endidau eraill lle mae'r unigolyn, neu aelod o'i deulu agos ar yr un aelwyd, â buddiant rheoli.

Cronfeydd Wrth Gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn symiau a neilltuwyd ar gyfer defnydd yn y dyfodol (defnyddiadwy) neu sy'n ofynnol at ddibenion cyfrifyddu yn unig (annefnyddiadwy). Gall cronfeydd wrth gefn fod at ddiben penodol lle cyfeirir atynt fel 'cronfeydd wrth gefn clustnodedig' neu gallant fod yn gronfeydd wrth gefn cyffredinol (neu'n falansau) a gynhelir fel mater o drefn.

Cronfa Ailbrisiu Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Wrth Gefn yn cofnodi'n enillion a gronnir ar asedau anghyfredol a gedwir gan y Cyngor sy'n deillio o gynnydd mewn gwerth o ganlyniad i chwyddiant neu ffactorau eraill (i'r graddau nas defnyddiwyd yr enillion hyn gan symudiadau ar-i-lawr dilynol mewn gwerth).

Gwariant Refeniw a Ariennir gan Gyfalaf dan Statud (GRAGDS)

Gwariant y gellid ei gyfalafu'n briodol dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n creu ased diriaethol i'r Cyngor, e.e. grantiau adnewyddu tai i unigolion preifat neu wariant refeniw a fyddai fel arfer yn cael ei godi i'r cyfrif refeniw, ond a godwyd i gyfalaf yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

Grant Cynnal Refeniw

Grant llywodraeth cyffredinol i gefnogi gwasanaethau Awdurdod Lleol. Mae'n ceisio cydbwysu'r effaith ar wahaniaethau anghenion trethdalwyr y cyngor rhwng Awdurdodau.

Setliad (Pensiynau)

Gweithred di-droi'n ôl sy'n rhyddhau'r cyflogwr o'i gyfrifoldeb sylfaenol dros rwymedigaeth pensiwn ac sy'n cael gwared ar risgiau sylweddol sy'n perthyn i'r cyfrifoldeb a'r asedau a ddefnyddir i gyflawni'r setliad.

Asedau Gwarged

Asedau nas defnyddir i ddarparu gwasanaeth ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu dosbarthu fel Eiddo Buddsoddi nac Asedau a Gedwir i'w Gwerthu.

Benthycia â Chymorth –

Mae costau gwasanaethu wedi'u cynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw blyneddol y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru

Blaendaliadau Tymor

Blaendal ariannol mewn sefydliad bancio nad oes modd ei dynnu'n ôl am "dymor" neu gyfnod penodol.

Rheoli'r Trysorlys

Y broses y mae'r Cyngor yn ei defnyddio i reoli ei lif arian parod a'i weithgareddau benthyca a benthyg.

Cronfeydd Ymddiriedolaeth

Cronfeydd a gedwir mewn ymddiriedolaeth a weinyddir gan y Cyngor.

Benthyca Digymorth

Costau gwasanaethu i'w talu o dreth Gyngor, rhent, cynilion, incwm achlysurol neu werthu asedau.